Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Arolwg Busnes Gwledig

Mis Hydref, 2004

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru
Aberystwyth
1872 The University of Wales

**Cydnabyddiaeth:**

Cydnabyddwn gyda diolch gymorth y nifer fawr o bobl sy’n berchen ar fusnesau a ymatebodd i’r arolwg y mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio arno, a / neu a gytunodd i fynychu cyfweliad yn achos unrhyw ymchwil yn y dyfodol.

**CYNNWYS**


| | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| **Adran 1** | 1 |
| Cyflwyniad | |
| **Adran 2** | 1 |
| Yr Arolwg Busnes Gwledig | |
| **Adran 3** | 2 |
| Methodoleg | |
| **Adran 4** | 7 |
| Canlyniadau – Yr Holl Ymatebwyr | |
| **Adran 5** | 36 |
| Canlyniadau – Dadansoddiad yr Is-grwpiau | |
| **Adran 6** | 71 |
| Trafodaeth | |
| **Adran 7** | 78 |
| Casgliadau | |

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Arsyllfa Wledig Cymru

Mae gwaith Arsyllfa Wledig Cymru (AWC) yn seiliedig ar ddiffiniad daearyddol eang o Gymru wledig. Sef, naw Awdurdod Unedol Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Powys, Sir Fynwy, Conwy, Sir Ddinbych, a; rhannau dethol o Wrecsam, Bro Morgannwg a Sir y Fflint.

Mae gweithgareddau'r Arsyllfa wedi'u canolbwyntio ar ddau brif faes gwaith: yn gyntaf, casglu a dadansoddi data gwledig, ac yn ail, ymgymryd ag ymchwil ar faterion cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru wledig. Mae'r rhaglen hon yn dilyn pum thema eang: Economi Wledig a Chyflogaeth; yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Chynllunio defnydd Tir; Cynhwysedd ac Allgau Cymdeithasol; Darpariaeth Tai a Gwasanaethau; y Gymdeithas a'r Gymuned.

Er ei fod yn darparu llinell fas drawstoriadol ar gyfer yr holl themâu, pwyslais penodol yr adroddiad hwn fu datblygu sail dystiolaeth gynhwysfawr ar gyfer strand yr 'Economi Wledig a Chyflogaeth'.

# 2. AROLWG BUSNES GWLEDIG

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r Arolwg Busnes Gwledig yn gydran allweddol rhaglen waith 'economi wledig a chyflogaeth' AWC. Mae natur gynhwysfawr yr arolwg hwn yn golygu y bydd yn rhoi meincnod cadarn ar gyfer yr holl waith a ymgymerir yn y dyfodol gan yr Arsyllfa.

Amcan yr arolwg yw dod o hyd i ddata dibynadwy ac y gellir ei gymharu, ar gyflwr busnesau, eu gweithgareddau, eu potensial o ran datblygu, rhwystrau a'r math o arferion entrepreneuraidd a wneir. Bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn sail i waith mwy manwl yn y dyfodol, a fydd yn edrych yn fanylach ar y prosesau, y rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r fath fusnesau yng Nghymru wledig.

Man cychwyn yr arolwg busnes yw'r ystod eang o adroddiadau ymchwil busnes yn seiliedig ar arolygon sy'n bodoli eisoes a gwblhawyd yn y blynyddoedd diwethaf, gan chwaraewyr allweddol fel Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'n gosod cynsail, fodd bynnag, o ystyried hyd a lled ei ganolbwynt ar fusnes gwledig yn unig. Er y ceisiwyd cynnal arolygon o'r natur hon mewn mannau eraill yn y DU[1] , dyma'r tro cyntaf i sail dystiolaeth mor gynhwysfawr o'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau (cymharol) sy'n wynebu busnesau yng Nghymru wledig, gael ei chreu.

[1] Gweler, er enghraifft y gwaith arolygu a wnaed ar gwmnïau gwledig yn ddiweddar gan y Ganolfan dros yr Economi Wledig (CRE), Prifysgol Newcastle Upon Tyne (http://www.ncl.ac.uk/cre/)

## 2.2 Strwythur yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae adran 3 yn trafod yn fanwl wahanol gamau'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth sefydlu, ymgymryd â a dadansoddi canlyniadau'r arolwg busnes.
- Mae adran 4 yn rhoi dadansoddiad disgrifiadol o'r canfyddiadau a gynhyrchwyd gan set y data yn ei gyfanrwydd.
- Mae adran 5 yn trafod canlyniadau'r arolwg fel y'u hisrannwyd yn ôl y math o fusnes (5.1), maint y busnes (5.2) a'r lleoliad (5.3).
- Mae adran 6 yn tynnu at ei gilydd y pedwar set o ganfyddiadau a amlinellwyd yn y dadansoddiad disgrifiadol blaenorol ac yn tynnu sylw at faterion a thueddiadau allweddol sy'n codi o'r data. Ar ôl hynny, deuir i gasgliad am effeithiolrwydd yr arolwg a chanfyddiadau allweddol yr ymchwil. Trafodir goblygiadau'r arsylwadau hyn o ran y llwybrau ymchwil a ddilynir gan AWC yn y dyfodol.

# 3. METHODOLEG

## 3.1 Llunio'r Holiadur

Ffurfiwyd prif amcanion yr arolwg busnes o ganlyniad i nifer o wahanol lwybrau ymchwil. Yn ogystal â chynnal trafodaethau rhagarweiniol ag aelodau allweddol o Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), ymgymerwyd ag adolygiad desg o'r polisïau a'r rhaglenni presennol ar gyfer Cymru wledig i ddechrau. Daethpwyd o hyd i dystiolaeth, yn y cam hwn, o ystod o wahanol arolygon busnes a gynhaliwyd yn y DU. Ar ôl hynny, cynhaliwyd ail gyfarfod ag unigolion dethol o'r WDA, yn ogystal â swyddogion o Gynulliad Cymru. Ysgogodd y cyfarfod hwn adborth manwl gan ymarferwyr ar syniadau rhagarweiniol am gynnwys yr holiadur, yn ogystal ag arweiniad ar ddylunio a thargedu'r arolwg ei hun.

Wrth gyflawni'r nod o ddarparu sylfaen data ar fusnesau yng Nghymru wledig, roedd angen holiadur a fyddai'n manteisio ar ddatblygu cronfeydd data presennol o wybodaeth fusnes, ar yr un pryd â mynd i'r afael ag unrhyw fylchau presennol mewn gwybodaeth. Roedd y ffaith na cheisiwyd erioed o'r blaen lunio'r fath arolwg cynhwysfawr o fusnesau yng Nghymru wledig, yn gyfle ac yn gyfyngiad. Roedd angen holiadur a fyddai'n ennyn data arloesol a data diweddar, ond roedd yn rhaid ei gyflwyno mewn ffordd na fyddai atal ymatebwyr posibl rhag cymryd rhan.

## 3.2 Llythyr Eglurhaol

Anfonwyd yr holiadur ynghyd â llythyr eglurhaol (wedi'i bersonoli) yn cyflwyno cylch gwaith AWC a'r arolwg ei hunan. Rhoddwyd sicrwydd y byddai unrhyw wybodaeth a roddwyd gan yr ymatebwyr 'yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol, gydag ystadegau cyfanredol yr ymchwil yn unig yn cael eu cyhoeddi'. Nodwyd dyddiad terfynol ar gyfer dychwelyd yr holiadur. Mynegwyd gwerthfawrogiad ymlaen llaw, yn disgwyl y byddai'r ymatebwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg.

### 3.3 Cynnwys yr Holiadur

Oherwydd canolbwynt yr arolwg, gofynnwyd ei fod yn cael ei lenwi gan, neu ar ran, perchennog y cwmni. Fel cyflwyniad, rhoddwyd datganiad agoriadol am waith AWC a diffiniad o 'Gymru wledig'. Is-rannwyd yr holiadur i saith prif adran:

***Adran 1 – Proffil y Busnes:*** Nod yr adran hon oedd cael data cynhenid am fusnes yr ymatebwr. (er enghraifft, y math o fusnes, blwyddyn y'i sefydlwyd, natur perchnogaeth y busnes (ac ati)).

***Adran 2 – Proffil y Perchennog:*** Roedd Adran 2 wedi'i chyfeirio tuag at gasglu data sylfaenol am nodweddion perchennog y busnes (er enghraifft, oed y perchennog, sut y daethant yn rhan o'r busnes, ac ym mha flwyddyn; hefyd, cymwysterau academaidd, yr oriau a weithir yn y busnes bob dydd ac a ydynt yn byw yng Nghymru wledig ai peidio (ac ati)).

***Adran 3 - Lleoliad y Busnes:*** Gan fabwysiadu thema 'lleoliad y busnes', roedd Adran 3 wedi'i ogwyddo tuag at gasglu data am y ffactorau a oedd yn dylanwadu ar benderfyniad y perchennog i leoli ei fusnes yng Nghymru wledig. Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf i roi yn eu trefn , pa mor berthnasol oedd cyfres o ddylanwadau posibl ar eu dewis eu hunain o leoliad eu busnes. Gofynnwyd iddynt wedyn ddatgan (gan nodi eu rhesymau) a oeddent erioed wedi ystyried adleoli eu busnes y tu allan i Gymru wledig ai peidio. Yn olaf, er mwyn mesur pa mor fodlon oeddent â Chymru wledig fel lleoliad busnes hyfyw, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi cyfres o gydrannau eu busnes yn eu trefn o ran eu hygyrchedd / eu hagosrwydd.

***Adran 4 - Strategaeth Fusnes:*** Lluniwyd Adran 4 - un o'r adrannau helaethaf yn yr holiadur - i greu llun o nodweddion strategaeth fusnes unigol perchnogion busnesau gwledig. Dechreuodd yr adran drwy ofyn i ymatebwyr roi cyfres o ddatganiadau a ddewiswyd ymlaen llaw yn eu trefn o ran pa mor ddylanwadol oeddent yn eu dewis i ddechrau / meddiannu'r busnes. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn ragfynegi maint eu busnes dros y pum mlynedd nesaf. Nesaf, nodwyd tri datganiad yn ymwneud ag ehangu'r busnes, lle gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno fel yr oedd yn briodol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi'r ffactorau a fyddai'n cyfyngu ar eu busnesau. Yna ceisiwyd gwybodaeth ar ddylanwadau posibl i berfformiad cyffredinol y busnes. Roedd chweched set o gwestiynau'r adran hon yn gofyn i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â gwerth, rheoleidd-dra a hyrwyddiad canfyddedig cydweithio â busnesau lleol eraill. Yna gan symud ymlaen i gasglu data am gyngor/cymorth busnes, gofynnwyd i'r ymatebwyr benodi gwerth i'r gwasanaethau cymorth busnes a roddwyd gan ystod o wahanol sefydliadau. Defnyddiwyd graddfa symudol o 'pwysig iawn' i 'ddim yn bwysig'/'ddim yn berthnasol' ar gyfer y ffactorau allweddol y gellid ystyried eu bod yn dylanwadu ar lwyddiant y busnes. Roedd y set o gwestiynau olaf ond un yn yr adran hon yn anelu at ganfod gwybodaeth am nodweddion gwariant trosiant blynyddol yng Nghymru wledig. Yn olaf, clowyd Adran 4 â'r cwestiwn am ba un a oedd y busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.

***Adran 5 - Nodweddion Cwsmeriaid a Chyflenwyr:*** Lluniwyd Adran 5 â'r nod o roi gwybodaeth fanwl am batrymau masnachu a tharddu busnesau yng Nghymru wledig.

Yn gyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi canran y cyflenwyr, ac yna'r cwsmeriaid, a leolir ar wahanol bellteroedd oddi wrth eu safleoedd busnes. Yn ail, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa ganran o'r gwerthiant a gynhyrchid gan ystod o wahanol fathau o gwsmeriaid. Yna gosodwyd cyfres o gwestiynau i gael gwybodaeth am ddulliau o gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr. Gofynnwyd iddynt nodi pa ddulliau (os o gwbl) a ddefnyddid i farchnata a hysbysebu nwyddau (cynnyrch neu wasanaethau) ac/neu i recriwtio cyflogeion. Yn olaf, cwblhawyd casglu data ar thema cyfathrebu gyda chwestiwn ar ddefnydd y rhyngrwyd gan berchnogion i alluogi cwsmeriaid i weld, prynu neu archebu cynnyrch y busnes (nwyddau neu wasanaethau). Yna clowyd Adran 5 â dau gwestiwn a luniwyd i gael gwybodaeth am strategaeth cynnyrch (nwyddau neu wasanaethau). Yn gyntaf, roedd yn rhaid i'r ymatebwyr nodi pa un a oedd y set o ffactorau (a ddewiswyd ymlaen llaw) yn hyrwyddo, yn cyfyngu, neu'n amherthnasol i arloesi cynnyrch (nwyddau neu wasanaethau) ai peidio. Yna roedd yn rhaid iddynt ateb cwestiwn pen agored am beth oedd y 'gweithgaredd mwyaf arloesol a ymgymerwyd' gan y busnes yn y 5 mlynedd diwethaf.

***Adran 6 - Nodweddion y Cyflogeion:*** Lluniwyd yr adran olaf ond un yn yr holiadur i gasglu ystod o wybodaeth am nodweddion cyflogeion y busnes. I ddechrau, gofynnwyd cwestiynau penodol am y nifer (a'r math) o bobl a gyflogwyd gan y busnes. Yna casglwyd data am recriwtio cyflogeion a lleoliad preswyl daearyddol y cyflogeion. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa un a oeddent wedi cael unrhyw anawsterau wrth recriwtio cyflogeion ai peidio, ac os bu anawsterau, pam. Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr roi gwybodaeth am nifer y cyflogeion a recriwtiwyd naill ai o'r Gymru wledig, o rywle arall yng Nghymru, y tu allan i Gymru a/neu y tu allan i'r DU. Gofynnwyd wedyn iddynt nodi faint o gyflogeion a oedd yn byw 'ar y safle' hyd at 'fwy na 20 cilometr' o safle'r busnes. Yn olaf, ceisiwyd gwybodaeth am y rhwystrau i hyfforddi cyflogeion yn y Gymru wledig.

***Adran 7 – Mwy o Sylwadau:*** Daeth yr holiadur i ben gyda chyfres o gwestiynau pen agored a luniwyd i sicrhau yn gyntaf; a oedd manteision neu anfanteision penodol yn gysylltiedig â lleoli busnes yng Nghymru wledig, ac yn ail; a oedd pob ymatebwr yn teimlo bod eu busnes yn gynaliadwy yn ei ffurf bresennol dros y pum mlynedd nesaf.

### 3.4 Dewis Sampl yr Arolwg

Er mwyn i'r arolwg busnes fodloni'r amcan o ddarparu llinell sylfaenol ar gyfer holl ymchwil yr Arsyllfa yn y dyfodol, roedd yn hanfodol bwysig cyflawni cyfradd ymateb a fyddai'n golygu bod y canfyddiadau yn seiliedig ar 'sampl cynrychiadol' o fusnesau. Gwnaed y gofyniad hwn hyd yn oed yn fwy arwyddocaol gan y ffaith bod arolygon busnes yn draddodiadol yn ennyn cyfradd isel o ymateb. Yn seiliedig ar brofiadau arolygon eraill yn y DU, penderfynwyd er mwyn bodloni targed dymunol o 1000 o ymatebion dilys, y byddai angen i gyfanswm poblogaeth yr arolwg fod yn 8,000.

Er mwyn dod o hyd i'r fath gronfa ddata gynhwysfawr o fusnesau yn y Gymru wledig, aethpwyd at frocer rhestrau masnachol. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl bodloni anghenion penodol am natur y busnesau a arolygwyd, yn ogystal â sicrhau bod y gronfa ddata a brynwyd yn sicr o fod yn gywir. Sicrhawyd manylion cyswllt (gan gynnwys y prif enw, cyfeiriad post llawn a rhif ffôn) ar gyfer cyfanswm o 8,000

o fusnesau sector preifat. O fewn y rhestr hon, sicrhawyd gwybodaeth am faint y busnesau (o ran nifer y cyflogeion) a'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC). Roedd y meini prawf ar gyfer dewis yr 8,000 o fusnesau yn seiliedig yn bennaf ar y lleoliad - gofynnwyd am fusnesau o bob un o'r 12 awdurdod lleol sy'n ffurfio 'Cymru wledig'. O fewn pob awdurdod lleol, defnyddiwyd wedyn feini prawf ar hap ar gyfer dewis. Sicrhaodd hyn wasgaru'r boblogaeth yn ôl maint a SIC.

## 3.5 Ymatebion i'r Holiaduron

derbyniwyd dros 750 o ymatebion o'r rhai cyntaf a bostiwyd. Gan ddefnyddio hafaliad syml 'nifer yr ymatebion' yn erbyn 'maint y sampl', defnyddiwyd techneg 'ail bostio' ar 3/8 maint y sampl wreiddiol – gan sicrhau felly gyfanswm cyfradd ymateb o dros 1000.


Derbyniwyd cyfanswm o 1136 o ymatebion erbyn y dyddiad cau, sef Gorffennaf 31. Fodd bynnag, bu'n rhaid diystyru 58 o'r rhain oherwydd bod y busnes wedi peidio â masnachu (e.e. ymddeoliad, marwolaeth, ddiddyledrwydd ac ati). Diystyrwyd 23 arall oherwydd nad oedd yr holiaduron wedi'u cwblhau. Yn olaf, gwahanwyd 47 o ffermwyr o'r brif gronfa ddata. Roedd **cyfanswm o 1008** o ymatebwyr yn weddill, ac fe'u defnyddiwyd yn y cam o ddadansoddi data. Mae Map 1 yn dangos dosbarthiad daearyddol ymatebwyr yr arolwg busnes ar draws Awdurdodau Unedol (naw Awdurdod llawn a thri Awdurdod rhannol) Cymru wledig. Dychwelwyd 96.2% o'r holiaduron wedi'u llenwi drwy gyfrwng y Saesneg, a'r 3.8% a oedd yn weddill, drwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunodd cyfanswm o 439 o'r 1008 o ymatebwyr i gymryd rhan mewn ail-gyfweliadau.

## 3.6 Dadansoddi'r Data

Wrth baratoi am y dadansoddiad dilynol, cofrestrwyd holl ymatebion yr holiaduron mewn pecyn ystadegol 'SPSS'. Rhoddwyd cod data cyfatebol ar bob holiadur (ar gyfer dadansoddiad gofodol dilynol) (gweler uchod).

Yn dilyn cofnodi'r data, ymgymerwyd â dadansoddiad amledd cynhwysfawr. Cwblhawyd hyn ar gyfer y set o ddata yn ei gyfanrwydd, yn ogystal ag ar gyfer cyfres o is-setiau - sef; lleoliad daearyddol; nifer y cyflogeion; a'r math (SIC) o fusnes. Trafodir canlyniadau'r dadansoddiad amledd ar gyfer y set o ddata cyfanredol (Adran 4), yn ogystal â'r is-setiau data unigol (adrannau 5.1, 5.2 a 5.3) yn llawn ar hyd gweddill yr adroddiad hwn.

Map 1: Dosbarthiad Ymatebwyr yr Arolwg ledled Cymru Wledig



# 4. CANLYNIADAU

## 4.1 Canlyniadau – Yr Holl Ymatebwyr

### *4.1.1 Adran 1 – Proffil y Busnes:*

*Y Math o Fusnes:* Roedd ystod eang o fathau o fusnes o fewn y 1008 ymateb. Wrth baratoi am y dadansoddiad dilynol o'r ymatebwyr yn ôl eu 'math', fe'u rhannwyd i nifer o wahanol ddosbarthiadau. Dangosir y dosbarthiadau hyn yn Nhabl 1a ynghyd â manylion canran yr yamtebwyr i bob un. Yn sectorau adwerthu (31.8%); llety, bwyd a diod (18.1%) ac adeiladu (10.1%) yr oedd mwyafrif yr ymatebwyr.


Tabl 4.1.1 - 1a: Y Math o Fusnes (N= 1008)

| Y Math o Fusnes | Canran yr Ymatebwyr (%) |
|---|---|
| 1. Diwydiannau Gwasanaeth Amaethyddol | 4.6 |
| 2. Adeiladu | 10.1 |
| 3. Llety, Bwyd a Diod (ac ati) | 18.1 |
| 4. Gweithgynhyrchwyr | 7.7 |
| 5. Adwerthu | 31.8 |
| 6. Eiddo Tiriog | 2.3 |
| 7. Cyfanwerthwyr | 6.7 |
| 8. Iechyd a Harddwch | 9.2 |
| 9. Trafnidiaeth | 3.0 |
| 10. Gwaith Elusennol/Cymdeithasol | 3.2 |
| 11. Gwasanaethau | 3.0 |

*Blwyddyn ei Sefydlu:* Roedd y flwyddyn y sefydlwyd y busnesau yn amrywio o 1600 hyd at 2004 (n=960). O fewn y rhychwant hwn;

- roedd 10.8% o'r holl fusnesau a arolygwyd wedi'u sefydlu ers llai na 5 mlynedd (2000 hyd 2004).
- sefydlwyd 29.3% o'r busnesau yn ystod y 1990au
- sefydlwyd 10.7% o'r busnesau cyn 1950
- sefydlwyd 2.7% o'r busnesau cyn 1900.

*Perchnogaeth y Busnes:* Er bod naill ai unigolyn (40.3%) neu bartneriaeth (33%) yn berchen ar y mwyafrif o fusnesau (n= 997) (gweler tabl 4.1.1-1d), roedd 79.4% o ymatebwyr yn dal i ystyried bod eu busnes yn 'fusnes teuluol'. Yn 67.7% (n=942) o achosion, mae perchennog y busnes yn berchen yn llawn ar safle'r busnes.





Ffigur 4.1.1 – 1d: Natur Perchnogaeth y Busnes (n= 997)

### *4.1.2 Adran 2 – Proffil y Perchennog*

*Oed y Perchennog:* Roedd mwyafrif llethol perchnogion y busnesau rhwng 40 a 64 mlwydd oed (79.3%) (gweler ffigur 4.1.2-2a)


Ffigur 4.1.2 - 2a: Oed y Perchennog (n= 982)




*Y Math o Berchnogaeth:* Er bod mwyafrif y perchnogion yn ystyried bod eu busnesau yn fusnesau teulu (gweler Adran 4.1.1), dim ond 15% a nododd eu bod wedi cymryd yr awenau ar ôl aelod arall o'r teulu. Roedd y gyfran fwyaf (55%) wedi dechrau'r busnes eu hunain, gyda 26.8% arall wedi prynu'r busnes fel busnes mewn bod.

*Blwyddyn Dod yn Rhan o'r Busnes:* Mae Ffigur 4.1.2-2bii yn dangos y flwyddyn y daeth y perchennog presennol yn rhan o'r busnes. Fel y gellir gweld, mae ystod amser gymharol eang o ran pryd ddaeth y perchennog yn rhan o'r busnes, gyda brig yr achosion yn ystod y 1990au.


Ffigur 4.1.2-2bii Y flwyddyn y daeth y perchennog presennol yn rhan o'r busnes




*Yr Oriau y mae'r Perchnogion yn eu Gweithio:* mae mwyafrif y perchnogion (65.6%) yn gweithio mwy nag 8 awr y dydd yn eu busnes, gyda'r crynodiad mwyaf (58.9%) yn gweithio rhwng 8 a 14 awr y dydd.


*Cymwysterau'r perchennog:* Fel a ddangosir yn Ffigur 4.1.2-2d, mae'r canlyniadau ar gyfer 'lefel uchaf y cymhwyster sydd gan y perchennog' wedi'i gwasgaru'n eithaf cyfartal dros fandiau canol TGAU i Lefel Gradd. Mae ychydig dros 1 o bob 5 perchennog (21.1%) wedi'u haddysgu hyd at lefel gradd, fodd bynnag, nododd cyfran debyg o'r perchnogion (20.7%) nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau academaidd o gwbl. Mae llai na 1 o bob 10 o berchnogion (9.2%) â chymhwyster ôl-raddedig (neu CGC cyfwerth).

Ffigur 4.1.2 - 2d: Y Cymhwyster Uchaf sydd gan Berchennog y Busnes (n= 909):




*Y Perchennog yn Byw yng Nghymru:* Roedd 96% o'r perchnogion a ymatebodd yn byw yng Nghymru wledig. Roedd cyfran uchel o'r bobl hyn (88.7%) wedi byw yng Nghymru wledig am 10 mlynedd neu fwy, gyda 28.3% o'r perchnogion yn nodi eu bod wedi byw yng Nghymru wledig ers 50 mlynedd neu fwy. Mae Ffigur 4.1.2-2f yn rhoi mwy o fanylion am natur y ffaith bod perchnogion busnesau yn byw yng Nghymru. Er y ganwyd 52% o'r perchnogion yng Nghymru, dim ond 24.9% sydd wedi byw yng Nghymru drwy gydol eu hoes. Mae 39.5% wedi symud i fyw yng Nghymru o rywle arall.

Ffigur 4.1.2-2f: Natur y Ffaith bod y Perchennog yn Byw yng Nghymru




### *4.1.3 Adran 3 – Lleoliad y Busnes*

*Y Ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i leoli'r busnes yng Nghymru wledig:* Y tri ffactor yr oedd y nifer fwyaf o ymatebwyr yn ystyried naill ai'n bwysig neu'n bwysig iawn (wrth ddylanwadu ar y penderfyniad i leoli'r busnes yng Nghymru wledig) oedd 'dewis yn ymwneud â dull o fyw/ ymrwymiadau teulu' (87.8%), 'ansawdd yr amgylchedd' (84.8%) a 'byw yno eisoes' (81.3%). Nododd nifer fawr o'r ymatebwyr hefyd 'gost y safle' (73.4%) fel dylanwad pwysig neu bwysig iawn ar eu penderfyniad.

27.7% o ymatebwyr yn unig a ystyriai bod 'agosrwydd i gyflenwyr' yn bwysig/ bwysig iawn wrth ddylanwadu ar eu penderfyniad i leoli eu busnes yng Nghymru wledig, gyda chyfran hyd yn oed yn llai o'r ymatebwyr (15.1) yn ystyried 'agosrwydd i broseswyr' yn ffactor pwysig/ pwysig iawn wrth ddylanwadu ar eu dewis o leoliad. Fodd bynnag, mae 77.9% o'r ymatebwyr yn ystyried bod 'agosrwydd i'r defnyddwyr/y farchnad' yn ffactor pwysig neu bwysig iawn. Nododd 30 ymatebwr arall bod rhesymau 'Eraill' yn bwysig neu'n bwysig iawn wrth ddylanwadu ar eu penderfyniad i leoli'u busnes yng Nghymru wledig.

Ffigur 4.1.3 – 3a: Ffactorau yn Dylanwadu ar y Penderfyniad i Leoli'r Busnes yng Nghymru wledig




*Adleoli'r Busnes y tu allan i Gymru wledig:* Tra bod 87.9% o'r ymatebwyr yn nodi nad ydynt erioed wedi ystyried adleoli eu busnes y tu allan i'r Gymru wledig, rhoddwyd nifer o resymau er hynny yn cefnogi, ac yn erbyn, adleoli. Gellir trefnu'r rhesymau yn erbyn adleoli fel a ganlyn:

- nododd 20.8% o'r ymatebwyr yn syml eu bod yn 'hapus' yn eu lleoliad presennol
- teimlai 16.3% o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw angen i adleoli am fod y busnes eisoes wedi'i sefydlu yn dda/ yn llwyddiannus
- nododd 15.7% o'r ymatebwyr faterion yn ymwneud â dull o fyw, ymrwymiadau teuluol a/neu deimladau cartrefol yn atal y dewis i adleoli
- teimlai 8.9% o'r ymatebwyr 'na allent' adleoli
- nid oedd 3.0% o'r ymatebwyr wedi ystyried adleoli oherwydd eu bod yn agosáu at ymddeol


- nododd 3.6% o'r ymatebwyr resymau 'eraill' dros beidio ag ystyried adleoli

Ar y llaw arall, rhestrwyd y rhesymau canlynol yn cefnogi adleoli:

- cysylltodd 13.6% o'r ymatebwyr adleoli â'r angen am fwy o fasnach/elw a/neu fynediad at nifer uwch o gwsmeriaid
- nododd 7.7% o'r ymatebwyr broblem y rheoliadau presennol / diffyg cymorth busnes
- nododd 3.0% o'r ymatebwyr yr angen am well cyfleusterau busnes/ gwell fynediad at y safle busnes i gyflenwyr/cwsmeriaid
- nododd 2.7% o'r ymatebwyr yr angen i ehangu fel rheswm dros adleoli
- nododd 1.8% o'r ymatebwyr broblemau cyfredol â staffio (e.e. diffyg staff, diffyg cymwysterau addas) yn rheswm dros adleoli
- nododd 3.0% o'r ymatebwyr resymau 'eraill' dros ystyried adleoli.

*Mynediad at Fusnes/ Agosrwydd:*

Ffigur 4.1.3-3a: Mynediad/ Agosrwydd y Busnes i Ffactorau sy'n Dylanwadu





O'r chwe gwahanol ffactor y gofynnwyd i'r ymatebwyr eu gwerthuso o ran mynediad / agosrwydd, 'mynediad / agosrwydd i gwsmeriaid' a gafodd y sgôr uchaf, gyda 68.2% yn ystyried hwn naill ai'n dda neu'n dda iawn. Ar y pegwn arall, 'mynediad / agosrwydd i weithlu cymwys/medrus' a gafodd y sgôr isaf, gyda llai na thraean yr ymatebwyr (30.4%) yn nodi bod hyn yn dda iawn/ yn dda, gyda 23.7% arall yn nodi ei fod yn wael/ yn wael iawn. Er mai dim ond 28.7% o'r ymatebwyr a gredai bod mynediad/ agosrwydd i sefydliadau ymchwil yn dda iawn/ yn dda, roedd nifer tebyg (27.7%) yn credu nad oedd hwn yn ffactor perthnasol i'w busnes. Derbyniodd mynediad / agosrwydd at gyflenwyr, cystadleuwyr a diwydiannau gwasanaeth busnes, oll sgorau credadwy, gyda lleiafrif bach yn unig ym mhob achos yn dewis mynediad /agosrwydd 'gwael / gwael iawn'(11.2%, 8.4% a 7.1% yn y drefn honno).

### 4.1.4 Adran 4 – Strategaeth Fusnes

*Ffactorau yn Dylanwadu ar y Penderfyniad i Ddechrau/ Meddiannu'r Busnes:* Er bod dewis eang iawn o ddylanwadau wedi'u rhestri, mae tri yn benodol wedi ennill sgôr uchel iawn o ran bod yn bwysig iawn/ yn bwysig wrth ddylanwadu ar y penderfyniad i ddechrau / meddiannu'r busnes. Y ffactorau yw 'darparu prif ffynhonnell o incwm' (89.6%), 'cymryd yr her p redeg busnes' (75.3%) a, 'datblygu diddordeb personol' (73.3%). Nododd llai nag un o bob pum ymatebwr naill ai 'galwedigaeth yn dilyn ymddeol/ ymddeol yn rhannol' (15.2%) neu 'Cael mwy o amser hamdden' (18.1%) yn bwysig iawn / pwysig, gyda 77.1% a 50.8% arall (yn y drefn honno) yn nodi nad yw'r ffactorau hyn hyd yn oed yn berthnasol i'w penderfyniad. Mae Ffigur 4.1.4-4a yn arddangos yn gymharol yr ystod lawn o ffactorau a'u pwysigrwydd perthynol o ran dechrau / meddiannu busnes.


Ffigur 4.1.4-4a: Ffactorau yn Dylanwadu ar y Penderfyniad i Ddechrau / Meddiannu'r Busnes




*Rhagweld Maint y Busnes dros y 5 Mlynedd Nesaf:* Er bod mwyafrif yr ymatebwyr (52.5%) yn rhagweld na fydd unrhyw newid o ran nifer y cyflogeion, mae 41.3% arall yn rhagweld cynnydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Mae mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn rhagweld cynnydd mewn trosiant blynyddol (68.7%) ac elw blynyddol (63.9%) dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 48% arall yn rhagweld twf ym maint marchnad y busnes. 10% yn unig sydd wedi rhagweld lleihad yn y trosiant (gyda nifer tebyg - 12.8% - yn rhagweld lleihad yn yr elw) yn ystod y cyfnod hwn, tra bod 13.7% wedi rhagweld lleihad ym maint y farchnad.


Ceir gwasgariad cyfartal yn yr ymatebwyr sy'n rhagweld naill ai dim newid (50.5%) neu gynnydd (44.2%) yn ystod y cynnyrch dros y 5 mlynedd nesaf. Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (74.9%) yn rhagweld na fydd unrhyw newid ym maint y safle dros y 5 mlynedd nesaf.

Ffigur 4.1.4-4b: Rhagfynegiadau am Faint y Busnes dros y 5 Mlynedd Nesaf




*Pa Mor Ddymunol yw Twf y Busnes:* Mae mwyafrif yr ymatebwyr (52.2%) yn anghytuno â'r datganiad 'yn bendant na fyddai' ganddynt ddiddordeb mewn ehangu'r busnes. Yn cyfateb â'r ateb hwn, mae'r mwyafrif (70.2%) hefyd yn cytuno â'r datganiad y byddent 'yn bendant yn dymuno' bod eu busnes yn tyfu (gyda 62.6% o ymatebwyr pellach yn cytuno â'r datganiad y 'byddent yn ystyried' ehangu'r busnes).

Ffigur 4.1.4-4c: Pa Mor Ddymunol yw bod y Busnes yn Tyfu




*Ffactorau y Nodwyd eu bod yn Cyfyngu'r Busnes:* Er nad yw mwyafrif yr ymatebwyr (51.8%) yn gweld bod diffyg arian / parodrwydd i fenthyg yn cyfyngu ar eu busnes, mae lleiafrif sylweddol (39.1%) yn nodi bod hyn yn broblem. Yn yr un modd, nid yw mwyafrif yr ymatebwyr (54.8%) yn gweld bod diffyg gweithlu addas / ar gael yn ffactor sy'n cyfyngu. Fodd bynnag, mae lleiafrif sylweddol (39.2%) o'r ymatebwyr yn gweld bod hyn yn gyfyngiad. Yn ddiddorol ddigon, 17.2% o'r ymatebwyr yn unig sy'n nodi bod problemau yn ymwneud â hygyrchedd o ran cyflenwyr/ defnyddwyr yn ffactor sy'n wirioneddol gyfyngu ar eu busnes.


Mae'r ymatebwyr sy'n ystyried cyfyngiadau cynllunio yn rhwystr i'w busnes (42.3%) a'r rhai nad ydynt yn (48.7%) wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal. Yn achos cyfyngiadau rheoleiddio / cofrestriad TAW, ceir rhaniad mwy amlwg rhwng yr

ymatebwyr sy'n credu bod hyn yn gyfyngiad (38.1%), a'r rhai nad ydynt yn gweld bod hyn yn gyfyngiad (53.6%).
Er nad yw mwyafrif yr ymatebwyr (59.1%) yn ystyried bod materion yn ymwneud â dull o fyw yn cyfyngu, maent yn dal i fod yn broblem i leiafrif sylweddol o'r ymatebwyr (31.4%).

Yn ogystal â'r materion uchod, nododd 87 o'r ymatebwyr eu bod yn ystyried bod 'materion eraill' yn cyfyngu ar y busnes. Ymysg y ffactorau penodol a nodwyd mae:

- Oed y perchennog/ y perchennog yn nesáu at ymddeol
- Iechyd gwael y perchennog
- Cyfyngiadau ar brydles / maint a/neu leoliad y safle busnes
- 'Nid oes ar bobl ddi-waith eisiau gweithio'
- Lefelau uchel o gystadleuaeth yn arwain at gyfran lai o'r farchnad
- Diffyg cefnogaeth oddi wrth yr awdurdodau lleol, y WDA, Cynulliad Cymru
- Costau hysbysebu
- Diffyg parcio (i gwsmeriaid) yn agos at safle'r busnes
- Trethi busnes / rhenti uchel ar y safle busnes
- Diffyg ymrwymiad gan aelodau'r teulu
- Diffyg galw yn y farchnad / gwariant cyfyngedig gan ddefnyddwyr / masnachu cyfyngedig
- Isadeiledd gwael ar gyfer cludiant


Ffigur 4.1.4-4c: Ffactorau sy'n Cyfyngu ar Dwf y Busnes




*Ffactorau yn dylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes:* O gymharu â'r ffactorau eraill y nodwyd yn yr arolwg eu bod yn dylanwadu ar berfformiad y busnes, ystyria'r ymatebwyr bod lleoliad y busnes yn ddylanwad pwysig iawn. Mae cyfanswm o 87.6% o ymatebwyr yn nodi bod lleoliad y busnes yn ddylanwad pwysig iawn (59.3%) neu'n ddylanwad pwysig (28.6%) ar y perfformiad cyffredinol. Yn yr ail safle, nododd 81.4% o'r ymatebwyr bod lefelau sgiliau/ gwybodaeth y rheolaeth a'r gweithlu naill ai'n bwysig iawn neu'n bwysig i berfformiad cyffredinol y busnes. Yn yr un modd, mae nifer uchel o'r ymatebwyr (74.3%) yn nodi bod mynediad at wybodaeth naill ai yn bwysig iawn neu'n bwysig i berfformiad y busnes.
Nid yw'r ymatebwyr yn rhoi cymaint o werth ar allu technegol, gyda 14.6% yn unig yn nodi ei fod yn bwysig iawn neu'n bwysig i berfformiad y busnes, a 34.1% arall yn


nodi nad yw'n bwysig. Mae'n ddiddorol nad yw 20.6% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn credu bod gallu technegol yn berthnasol i berfformiad cyffredinol y busnes.
Er bod nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn ystyried nad yw cyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu neu gydweithwyr yn bwysig (23.1%) nac yn berthnasol (12.1%); mae'r mwyafrif yn dal i ystyried bod hyn yn bwysig iawn i berfformiad cyffredinol y busnes (64.9%)

Ffigur 4.1.4-4e: Ffactorau yn Dylanwadu ar Berfformiad Cyffredinol y Busnes




*Cydweithrediad Busnes:* Er bod lleiafrif sylweddol (39.2%) o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn cydweithio'n rheolaidd â busnesau lleol eraill, mae'r mwyafrif (52.5%) yn anghytuno â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, mae 53% pellach o'r ymatebwyr hefyd yn anghytuno â'r datganiad 'ni chydweithir byth â busnesau lleol eraill'. Er nad yw mwyafrif (59.9%) yr ymatebwyr yn ystyried bod pryderon ynghylch cystadleuedd yn atal cydweithio rhwng busnesau lleol, mae lleiafrif sylweddol(24.8%) yn nodi bod hyn yn gyfyngiad pwysig.

Ffigur 4.1.4 - 4f: Cydweithrediad Busnes





Nid yw bron i draean yr ymatebwyr (32.9%) yn credu y bydd cydweithio â busnesau lleol eraill o unrhyw fantais i'w busnes lleol.
Er bod mwyafrif yr ymatebwyr (40.4%) yn anghytuno â'r datganiad bod 'diffyg diddordeb' gan fusnesau lleol eraill ynghylch cydweithio, ceir gwasgariad cymharol wastad ar hyd tri dewis y cwestiwn hwn (cytuno; anghytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno). Ceir dosbarthiad cyfartal o atebion hefyd i'r cwestiwn a oes diffyg strwythurau / systemau priodol i wneud cydweithio yn bosibl.

*Ansawdd y Cyngor / Cymorth Busnes:* Er bod y lleiafrif mwyaf sylweddol o ymatebwyr (23.8%) yn ystyried bod cyngor / cymorth busnes oddi wrth gyrff cyhoeddus cenedlaethol yn foddhaol, mae dwywaith cymaint yn ystyried ei fod yn wael iawn (9%) o gymharu â'r rhai sy'n ystyried ei fod yn dda iawn (4%). Cyfanswm o 14.4% o'r ymatebwyr yn unig a ystyriai fod y lefel hon o gymorth naill ai'n dda neu'n dda iawn, tra bod 21.2% yn ystyried ei fod yn wael iawn neu'n wael. Yn ogystal, nododd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (40.6%) nad oeddent erioed wedi defnyddio'r cyngor / cymorth busnes a gynigir gan gyrff cyhoeddus cenedlaethol.

O'r pum gwahanol set o sefydliadau a restrwyd, yr awdurdodau lleol sydd ar y brig o ran canran yr ymatebwyr (72.7%) a ddefnyddiodd y gwasanaeth cyngor / cymorth busnes hwn. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r gefnogaeth ar lefel genedlaethol, gwelir tueddiadau tebyg yn yr ymatebwyr hynny sy'n ystyried y lefel hon o gefnogaeth yn dda neu'n dda iawn (14.9%) o gymharu â gwael neu wael iawn (27.3%). Roedd bron i draean yr ymatebwyr (30.4%) yn ystyried bod ansawdd y cymorth / cyngor a gawsant gan awdurdodau lleol yn foddhaol.
Nid yw asiantaethau menter nac undebau/ siambrau masnach yn sgorio'n uchel o ran y cymorth / cyngor a gynigir (gyda 12.5% yr ymatebwyr yn unig yn ystyried bod cymorth / cyngor yr asiantaeth fenter yn dda neu'n dda iawn; a 7.1% yn ystyried bod undebau / siambrau yn union debyg). Nid yw'r naill set o sefydliadau chwaith wedi'u defnyddio gan nifer fawr o ymatebwyr (44.7% a 53.4% yn y drefn honno).

O’r pum gwahanol set o sefydliadau a restrir, y sefydliadau masnach sydd ar y brig o ran ansawdd y cyngor / y gefnogaeth a gynigir (gyda chyfanswm o 24.2% o ymatebwyr yn ystyried bod hyn naill ai’n dda neu’n dda iawn a 23% arall yn ei ystyried yn foddhaol). Fodd bynnag, nododd nifer fawr o ymatebwyr unwaith eto (40.4%) na ddefnyddiwyd y ffynhonnell hon o gyngor/ cefnogaeth.


Ffigur 4.1.4 - 4g: Ansawdd y cyngor / cymorth busnes a gynigir




*Ffactorau pwysig o ran Llwyddiant y Busnes:* Mae’r ymatebwyr yn cytuno, yn ddieithriad bron, bod pob un o’r pum ffactor a nodir yn bwysig iawn i lwyddiant eu busnes. Tra bod ‘enw da’ yn ennill y gefnogaeth fwyaf (93.3%) am fod yn ‘bwysig iawn’; mae ffactorau ymddiriedaeth, dibynadwyaeth, gofal cwsmeriaid ac enw da i gyd wedi sgorio cyfanswm cyfunol o fwy na 99% yr un am fod naill ai’n bwysig neu’n bwysig iawn. Roedd hyd yn oed y ffactor a enillodd y sgôr isaf, sef ‘boddhad â’r cynnyrch’ wedi derbyn sgôr o 98% am fod yn bwysig a/ neu’n bwysig iawn i lwyddiant y busnes!

*Ail-fuddsoddi’r Trosiant Blynyddol:* 5% o’r ymatebwyr yn unig a nododd gwariant mawr ar ymchwil a datblygu (R&D), gyda chyfanswm bach tebyg yn cofnodi gwariant mawr ar TGCh (7.6%), recriwtio cyflogeion (12.2%), hyfforddi cyflogeion (13.6%) a datblygu cynnyrch (10.9%). Gan adlewyrchu’r atebion hyn, nododd mwyafrif yr ymatebwyr na fu ‘unrhyw wariant’ ar R&D (57.2%), TGCh (51.3%) a datblygu cynnyrch (52.9%), gyda 49.9% pellach yn nodi na fu unrhyw wariant ar gyflogeion. Y ffactorau a enillodd y sgorau uchaf o ran gwariant mawr a bach yw offer newydd (87.5%) a marchnata / hysbysebu (78.6%). Dyma’r unig ddau ffactor y nododd mwyafrif yr ymatebwyr y gwariwyd unrhyw arian arnynt.

Ffigur 4.1.4-4i: Ailfuddsoddi'r Trosiant Blynyddol





*4j Cofrestriad TAW:*

Cadarnhaodd 74.5% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (n= 924) eu bod wedi eu cofrestru ar gyfer TAW.

### *4.1.5 Adran 5 – Nodweddion y Cwsmeriaid a'r Cyflenwyr:*


*Pellter y Cwsmeriaid a'r Cyflenwyr o Safle'r Busnes - cyflenwyr a leolir llai na 30 cilometr i ffwrdd:* nododd 63.3% o'r ymatebwyr fod y cyflenwyr wedi'u lleoli llai na 30 cilometr o safle'r busnes. Mae Ffigur 4.1.5-5ai yn dangos dadansoddiad yr ymatebwyr ar sail pa ganran o gyflenwyr sydd o fewn y pellter hwn. Tra bod chwarter neu lai o gyflenwyr chwarter (25.4%) yr holl ymatebwyr wedi'u lleoli o fewn llai na 30 cilometr o safle'r busnes, mae gan gyfran debyg (20.8%) dri chwarter neu fwy o'u cyflenwyr o fewn y pellter hwn.

Ffigur 4.1.5-5ai: % y Cyflenwyr sydd wedi'u lleoli lai na 30 cilometr o'r busnes





*Y Cyflenwyr a leolir rhwng 30 a 100 cilometr:* nododd 60.6% o'r ymatebwyr bod eu cyflenwyr rhwng 30 a 100 cilometr i ffwrdd o safle'r busnes. Mae rhwng 1 a 25% o'r cyflenwyr o fewn y pellter hwn yn achos mwyafrif y rhain (28.5%), gyda dim ond 9.8% o'r ymatebwyr â rhwng 76 a 100% o'u cyflenwyr o fewn y pellter hwn.

Ffigur 4.1.5-5aii: % y Cyflenwyr a leolir rhwng 30 a 100 Cilometr o'r busnes





*Cyflenwyr a leolir ymhellach na 100 Cilometr:* Mae gan 67.9% o'r ymatebwyr gyflenwyr sydd ymhellach na 100 cilometr o'r busnes. Yn wir, mae rhwng 76 a 100% o gyflenwyr 28.9% o'r ymatebwyr ymhellach na 100 cilometr i ffwrdd.

Ffigur 4.1.5-5aiii: % y Cyflenwyr sydd ymhellach na 100 Cilometr o'r busnes




*Y cyflenwyr a leolir y tu allan i'r DU:* Dim ond 18% o'r busnesau sydd â'r cyflenwyr y tu allan i'r DU. Mae rhwng 1 a 25% o gyflenwyr mwyafrif y rhain (11.8%) y tu allan i'r DU.

Ffigur 4.1.5-5aiv: % y Cyflenwyr sydd y tu allan i'r DU





*Cwsmeriaid sy'n nes na 30 Cilometr:* Mae gan 88.8% o'r busnesau gwsmeriaid sydd yn nes na 30 cilometr o'r busnes. O'r rhain, mae rhwng 76 a 100% o gwsmeriaid lleiafrif sylweddol (41.5%) o fewn y pellter hwn.

Ffigur 4.1.5-5av: % y Cwsmeriaid sy'n nes na 30 Cilometr o'r busnes





*Cwsmeriaid sydd rhwng 30 a 100 cilometr o'r busnes:* Mae gan bron dri chwarter yr ymatebwyr (72.8%) gwsmeriaid sydd rhwng 30 a 100 cilometr o'r busnes. Fodd bynnag, rhwng 1 a 25% yn unig o gwsmeriaid y mwyafrif o fusnesau (44.3%) sydd o fewn y pellter hwn.

Ffigur 4.1.5-5avi: % y Cwsmeriaid sydd rhwng 30 a 100 Cilometr o'r busnes




*Cwsmeriaid sydd ymhellach na 100 cilometr o'r busnes:* nododd 52.5% o'r ymatebwyr bod ganddynt gwsmeriaid sydd wedi'u lleoli dros 100 cilometr o'r busnes. Unwaith eto, rhwng 1 a 25% yn unig o gwsmeriaid y mwyafrif (30.2%) sydd wedi'u lleoli ar y pellter hwn:

Ffigur 4.1.5-5avii: % y Cwsmeriaid sydd ymhellach na 100 Cilometr o'r busnes





*Cwsmeriaid sydd y tu allan i'r DU:* Mae gan ychydig dros un o bob pump o fusnesau (22.2%) gwsmeriaid sydd y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, 2.9% yn unig sydd â dros 25% o'u cwsmeriaid y tu allan i'r DU.

Ffigur 4.1.5-5aviii: % y Cwsmeriaid sydd y tu allan i'r DU





*Canran y Gwerthiant i Wahanol Fathau o Gwsmeriaid – cwsmeriaid preifat a chartrefi:* Mae 90.4% o'r busnesau yn gwerthu i gwsmeriaid preifat ac i gartrefi. I'r mwyafrif (61.1%), mae hyn yn cyfrif am rhwng 76 a 100% o'u gwerthiant.

Ffigur 4.1.5- 5bi: % y Gwerthiant i Gwsmeriaid Preifat ac i Gartrefi




*Canran y gwerthiant a gynhyrchir gan siopau:* Mae gan 24.6% o'r busnesau werthiant a gynhyrchir oddi wrth siopau. Fodd bynnag, mae mwyafrif llethol y rhain (19.7%) yn nodi nad yw'n cyfrif ond am rhwng 1 a 25% o'r gwerthiant.

Ffigur 4.1.5- 5bii: % y gwerthiant a Gynhrychir gan Siopau





*Canran y gwerthiant a gynhyrchir gan fusnesau bach (ac eithrio siopau):* Mae gan 37% o'r busnesau werthiant sy'n deillio o fusnesau bach (ac eithrio siopau). Unwaith eto, mae mwyafrif amlwg o'r rhain (29.5%) yn nodi bod hyn ond yn cyfrif am rhwng 1 a 25% o'u gwerthiant.

Ffigur 4.1.5- 5biii: % y Gwerthiant a Gynhyrchir gan Fusnesau Bach (ac eithrio siopau)





*Canran y gwerthiant a gynhyrchir gan fusnesau mwy (ac eithrio siopau):* Mae gan 27.3% o'r busnesau werthiant sy'n deillio o fusnesau mwy (ac eithrio siopau). Fodd bynnag, o'r rhain, 8.3% yn unig a nododd bod y ffynhonnell hon yn cyfrif am fwy na 25% o gyfanswm eu gwerthiant

Ffigur 4.1.5- 5biv: % y Gwerthiant a Gynhyrchir gan Fusnesau Mwy (ac eithrio sipau)




*Canran y gwerthiant a gynhyrchir o'r sector cyhoeddus:* Mae gan 31.7% o'r busnesau werthiant sy'n deillio o'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, i fwyafrif y rhain (22.5%), mae hyn yn cyfrif am rhwng 1 a 25% yn unig o gyfanswm y gwerthiant yn unig.

Ffigur 4.1.5- 5bv: % y Gwerthiant a Gynhyrchir o'r Sector Cyhoeddus




*Canran y gwerthiant sy'n deillio o gyfanwerthwyr/ dosbarthwyr:* 10.2% o'r busnesau yn unig sy'n gwerthu i gyfanwerthwyr/ dosbarthwyr, gyda mwyafrif y rhain (6.6%) yn nodi nad yw hyn yn cyfrif ond am rhwng 1 a 25% o'r gwerthiant.

Ffigur 4.1.5- 5bvi: % y Gwerthiant sy'n deillio o Gyfanwerthwyr/Dosbarthwyr





*Canran y gwerthiant sy'n deillio o ffynonellau 'eraill':* Yn ogystal â'r categorïau uchod, nododd 16% o'r ymatebwyr bod gwerthiant hefyd yn deillio o ffynonellau 'eraill'. Roedd y canlynol wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r enghreifftiau penodol a roddwyd:

- clybiau a chymdeithasau
- arwerthiant
- elusennau
- mudiadau gwirfoddol
- eglwysi
- marchnadoedd
- archebu drwy'r post

*Dulliau o Gyfathrebu ar gyfer Creu / Cynnal Cysylltiadau â Chwsmeriaid:* Mae mwyafrif y busnesau yn defnyddio'r ffôn / ffacs (74.4%), ymweliadau personol (54.8%) a'r post (52.5%) ar gyfer creu / cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid. Nid yw dros hanner y busnesau (53.2%) erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer creu/ cynnal cysylltiadau, gyda chyfran debyg (50.8%) yn nodi nad ydynt byth yn defnyddio 'e-bost'.

Ffigur 4.1.5- 5ci: Y Dulliau a Ddefnyddir ar gyfer Creu/Cynnal Cysylltiadau â Chwsmeriaid





Yn ogystal â'r dulliau uchod, nododd 42 o'r ymatebwyr bod ystod o ddulliau 'eraill' er mwyn creu/cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid. Ymysg y rhain roedd yr enghreifftiau canlynol:

- Hysbysebion
- Cardiau Nadolig
- Cytundebau blynyddol
- Cynadleddau
- Arddangosfeydd
- Taflenni
- Swyddfa dramor
- Masnach ail-archebu a chael eu cymeradwyo

*Dulliau o Gyfathrebu ar gyfer Creu/Cynnal Cysylltiadau â Chyflenwyr:* nododd 85.8% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r ffôn/ ffacs ar gyfer creu/cynnal cysylltiadau â'r cyflenwyr. Yn debyg i'r canfyddiadau ar gyfer cyfathrebu â chwsmeriaid (gweler uchod) nid yw dros hanner y busnesau byth yn defnyddio'r rhyngrwyd (53%) nac e-bost (51.1%) ar gyfer creu/cynnal cysylltiadau.

Ffigur 4.1.5- 5cii: Dulliau a Ddefnyddir ar gyfer Creu/Cynnal Cysylltiadau â Chyflenwyr





Yn ogystal â'r rhai uchod, nododd 23 o ymatebwyr ystod o ddulliau 'eraill' o gyfathrebu ar gyfer creu/cynnal cysylltiadau â chyflenwyr. Ymysg y rhain mae'r canlynol:

- cynrychiolwyr ardal
- negeswyr
- hysbysebion

*Dulliau a Ddefnyddir i Farchnata a Hysbysebu Cynnyrch:* Mae bron tri chwarter y busnesau (74.4%) yn defnyddio 'gair ar lafar/ teulu a ffrindiau' i farchnata/ hysbysebu nwyddau, tra bod tua hanner (50.7%) yn defnyddio papurau newydd lleol. Mae llai na 10% yn dibynnu ar radio/teledu lleol (9.4%) neu bapurau newydd cenedlaethol (6.2%). Dim ond 7.6% o'r busnesau nad ydynt yn defnyddio unrhyw ddulliau o farchnata/ hysbysebu.

Ffigur 4.1.5- 5di: Dulliau a Ddefnyddir i Farchnata a Hysbysebu Cynnyrch





Mae'r canlynol yn ddetholiad o'r enghreifftiau a roddwyd gan yr ymatebwyr hynny (18.8%) a nododd eu bod yn defnyddio ffynonellau 'eraill' o farchnata/ hysbysebu:

- Llyfrynnau/ pamffledi
- Tudalennau melyn/cyfeiriaduron busnes
- Galwadau diwahoddiad
- Mynd at gwmnïau yn uniongyrchol
- Postio
- Arweinlyfr lleol/ taflenni/cylchgronau
- Rhoddion i elusennau/nawdd
- Cardiau Nadolig
- Mân hysbysebion
- Rhaglenni clybiau chwaraeon/cymdeithasol
- Posteri/ taflenni
- Digwyddiadau/arddangosfeydd

*Y Dulliau a Ddefnyddir i Recriwtio Cyflogeion:* Yn yr un modd â marchnata/ hysbysebu (gweler uchod), y dulliau a ddefnyddir amlaf i recriwtio cyflogeion yw 'gair ar lafar/ teulu a ffrindiau' (40.6%) a 'defnyddio papurau newydd lleol' (34.1%). Gyda'r amcan hwn, fodd bynnag, nid yw canran uwch o'r busnesau (13.1%) yn defnyddio unrhyw ddulliau o hysbysebu i recriwtio cyflogeion. Yn ogystal â'r uchod, mae 8.2% o'r ymatebwyr yn defnyddio dulliau 'eraill' i recriwtio cyflogeion. Rhoddwyd yr enghreifftiau canlynol:

- Hysbysebu yn y siop
- Asiantaethau
- Canolfannau Gwaith
- Dosbarthu taflenni
- Cylchgronau masnach
- Mynd at golegau lleol


Ffigur 4.1.5- 5dii: Dulliau a Ddefnyddir i Recriwtio Cyflogeion




*Defnyddio'r Rhyngrwyd i Farchnata Nwyddau:* Nododd 37.4% o'r ymatebwyr y gellir gweld nwyddau'r busnes ar y we. Fodd bynnag, nododd llai na hanner y rhain (14.7%) y gellir prynu eu cynnyrch drwy'r rhyngrwyd. Yn yr un modd, dim ond 21.8% o'r ymatebwyr a nododd y gellir archebu cynnyrch eu busnes dros y we.

*Y Ffactorau Sy'n Hyrwyddo neu'n Cyfyngu ar Arloesedd Cynnyrch yn y Busnes:* O'r chwe ffactor posibl a restrir, un yn unig a ystyrir yn berthnasol i arloesedd cynnyrch, sef effaith 'rheoliadau a safonau'. Yn yr holl achosion eraill, (argaeledd gwybodaeth dechnegol/ gwybodaeth am y farchnad; cydweithio â busnesau eraill; gweithlu medrus; argaeledd arian ac ymateb cwsmeriaid), nododd mwyafrif yr ymatebwyr bod y rhain yn 'amherthnasol' i arloesedd cynnyrch.

Ffigur 4.1.5- 5f: Y Ffactorau sy'n Hyrwyddo/ Cyfyngu ar Arloesedd Cynnyrch




Y Gweithgaredd Mwyaf Arloesol a Ymgymerwyd gan y Busnes yn y 5 Mlynedd Diwethaf: Isod, rhoddir detholiad o'r enghreifftiau a nodwyd yn gyson gan yr ymatebwyr o weithgareddau mwyaf arloesol y busnes yn y 5 mlynedd diwethaf:

- nodwyd cynyddu ystod/ ansawdd eu cynnyrch gan 28.8% yr ymatebwyr
- soniodd 16.4% yr ymatebwyr am weithgareddau arloesol yn ymwneud â buddsoddi yn eu busnes/ safle eu busnes
- nododd 12.2% yr ymatebwyr mai creu gwefan / marchnata ar y rhyngrwyd oedd eu gweithgaredd mwyaf arloesol, gyda 7.7% yn nodi cyfrifiaduro/ mwy o ddefnydd o gyfrifiaduron yn gyffredinol
- nododd 9.4% mai Ymchwil a Datblygu/ technoleg ac offer newydd oedd y gweithgaredd mwyaf arloesol
- cysylltodd 4.0% yr ymatebwyr arloesedd â marchnata/ hysbysebu eu busnes
- mae 3.8% yn cysylltu arloesedd â'u cyfranogiad personol mewn hyfforddiant a/ neu hyfforddi staff
- nododd 3.1% leihau, cynigion arbennig a/neu ostwng prisiau, fel ffurf o arloesi
- nododd 2.0% gydweithredu fel y gweithgaredd mwyaf arloesol a wnaed
- nododd 7.2% ffurfiau 'eraill' ar arloesi
- yn olaf, nododd 5.6% yr ymatebwyr 'na fu unrhyw arloesedd' yn y busnes yn y 5 mlynedd diwethaf

### *4.1.6 Adran 6 – Nodweddion Cyflogeion*

*Cyfanswm y Bobl a Gyflogir yn y Busnes Ar Hyn o Bryd:* O'r ymatebwyr a nododd gyfanswm y bobl a gyflogir yn y busnes ar hyn o bryd (n= 918), nododd 22% ohonynt y cyflogir 'un person neu lai'. Nododd bron dri chwarter (74.7%) o'r ymatebwyr eu bod yn cyflogi llai na 10 o gyflogeion yn eu busnes.


Tabl 4.1.6 - 6a. Cyfanswm y bobl a gyflogir yn y busnes ar hyn o bryd (n= 918):

| Nifer y cyflogeion | Canran | Canran cronnus |
|---|---|---|
| 1 - 4 | 52.3 | 52.3 |
| 5 – 9 | 14.9 | 74.7 |
| 10 – 24 | 17.1 | 91.8 |
| 25 – 49 | 5.1 | 96.9 |
| 50 – 99 | 2.2 | 99.1 |
| 100 – 249 | 0.9 | 100 |


*Y Categorïau o Gyflogeion:* O gyfanswm poblogaeth ymatebwyr yr arolwg, sef N= 1008, ceir y dadansoddiadau canlynol:

- Mae cyfran llawer uwch o fusnesau yn cyflogi staff gwrywaidd 'amser llawn' (57.1%), na'r rhai sy'n cyflogi staff benywaidd 'amser llawn' (23.2%).
- Cyfran fach iawn o fusnesau yn unig sy'n cyflogi staff 'rhan-amser' gwrywaidd (2.9%) neu fenywaidd (6.4%) yn rheolaidd.
- Yn wrthgyferbyniol i'r canfyddiadau am staff amser llawn parhaol, ceir cydbwysedd mwy cyfartal rhwng busnesau sy'n cyflogi staff gwrywaidd 'amser llawn tymhorol' (48.6%) a staff benywaidd 'amser llawn tymhorol' (45.2%) (gweler Ffigur 4.1.6-4bi).
- Er mai, unwaith eto, cyfran fach o fusnesau yn unig sy'n cyflogi staff gwrywaidd 'rhan-amser tymhorol' (3.5%), mae mwy na dwywaith cymaint (9%) yn cyflogi staff benywaidd 'rhan-amser tymhorol'.
- Mae dros draean o fusnesau (36%) yn cyflogi staff amser llawn Cymraeg eu hiaith (gweler Ffigur 4.1.6-4bii), gyda 21.7% pellach yn cyflogi staff rhan-amser Cymraeg eu hiaith yn rheolaidd.
- Mae dros draean y busnesau (33.2%) yn cyflogi aelodau o'r teulu yn llawn amser, tra bod 14.6% arall yn eu cyflogi'n rhan-amser yn rheolaidd (gweler Ffigur 4.1.6-4biii).


Ffigur 4.1.6- 4bi: Categorïau'r Cyflogeion yn ôl Rhyw (%)



Ffigur 4.1.6- 4bii: Categorïau'r Cyflogeion yn ôl y Gallu i Siarad Cymraeg (%)





Ffigur 4.1.6- 4biii: Categorïau'r Cyflogeion yn ôl Aelodau Teulu (%)




*Problemau o ran Recriwtio Cyflogeion:* nododd 56.4% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (n= 817) eu bod wedi cael problemau wrth recriwtio cyflogeion. Nododd mwyafrif y rhain fod problemau fel 'diffyg ymgeiswyr' ac 'ymgeiswyr heb brofiad gwaith priodol' (62.3% a 65.7% yn y drefn honno) yn broblemau penodol. Mae lleiafrifoedd sylweddol hefyd yn cael anawsterau gydag 'ymgeiswyr heb hyfforddiant academaidd/ proffesiynol priodol' a/ neu 'ymgeiswyr yn methu gyrru/ yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus' (47.7% a 31.5% yn y drefn honno). Mae Ffigur 4.1.6- 6c yn rhoi darlun graffig o ganlyniadau'r cwestiwn hwn.

Ffigur 4.1.6- 6c: Problemau yn ymwneud â Recriwtio Cyflogeion





Yn ogystal â'r uchod, nododd 10.0% o'r ymatebwyr faterion 'eraill' fel ffynhonnell y problemau y maent wedi eu cael. Mae enghreifftiau penodol o faterion 'eraill' o'r fath yn cynnwys y canlynol:

- Gorfodir yr ymgeiswyr i fynychu cyfweliadau gan y canolfannau gwaith – nid oes arnynt eisiau gweithio
- Diffyg tai addas/ fforddiadwy gerllaw
- Nid yw'r ymgeiswyr yn hoffi'r oriau gwaith/ nid oes ar yr ymgeiswyr eisiau gweithio amser llawn
- Diffyg synnwyr cyffredin gan yr ymgeiswyr
- Anodd dod o hyd i ymgeiswyr dibynadwy
- Cyfyngiadau ariannol a/ neu fiwrocrataidd
- Diffyg ymrwymiad yr ymgeiswyr
- Diffyg hyfforddeion sy'n fodlon dysgu sgil newydd
- Y ganolfan waith yn anghefnogol
- Y cyfraddau tâl a gynigir yn cyfyngu ar yr ymgeiswyr/ mae ar ymgeiswyr eisiau 'arian mewn llaw' yn unig

*O ble y Caiff y Cyflogeion eu Recriwtio:* Yn yr achosion lle ceir 'cyflogeion' mewn busnes, mae mwy na phum gwaith cymaint (61.8%) yn cael eu recriwtio o'r Gymru wledig nag o 'rywle arall yng Nghymru' (4.1%), 'y tu allan i Gymru' (5.8%) a/ neu 'y tu allan i'r DU' (3.0%). Mae Ffigur 4.1.6-6d yn dangos y sefyllfa eithafol hon.

Ffigur 4.1.6 – 6d: Ffynonellau (Daearyddol) Recriwtio Cyflogeion




Rhoddwyd y rhesymau canlynol gan yr ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn recriwtio mwyafrif eu cyflogeion yn lleol o'r 'Gymru wledig':

- Hygyrchedd
- Argaeledd/ cyfleustra
- Hysbysebir y swyddi gwag yn lleol yn unig
- Uchelgais i gefnogi'r farchnad gyflogaeth leol
- Wrth gyflogi ymgeiswyr lleol, gellir sicrhau'r cefndir
- Busnes lleol â marchnad leol, ac felly mae'n ddefnyddiol cyflogi'n lleol a hyrwyddo cysylltiadau cyhoeddus da
- Ardal o ddiweithdra uchel
- Hwylus i deithio/ diffyg cludiant cyhoeddus
- Mae gwybodaeth leol yn bwysig ar gyfer y math o waith
- Teulu/ffrindiau yw'r cyflogeion
- Detholiad personol o bobl leol adnabyddus yn sicrhau'r bersonoliaeth iawn ac ymddiriedaeth
- Ychydig iawn o gyfleoedd gwaith yn lleol i bobl eu dewis
- Graddfeydd tâl/ oriau'n apelio'n unig i bobl leol
- Ysgol/coleg/prifysgol leol yn rhoi cronfa o weithwyr
- Y gallu i yngan enwau Cymraeg/ siarad Cymraeg yn bwysig


Nododd gweddill yr ymatebwyr, sy'n recriwtio mwyafrif eu cyflogeion o'r tu allan i'r Gymru wledig, y mathau canlynol o resymau:

- Nid oes gan yr ymgeiswyr lleol y sgiliau/cymwysterau/profiad ar gyfer rhai o'r swyddi sydd ar gael
- Chwilio am fathau penodol o ymgeiswyr y mae mwy ohonynt mewn mannau eraill
- Diffyg diddordeb yn lleol yn y swyddi sydd ar gael

*Pellter y Cyflogai o Safle'r Busnes:* Ac eithrio'r rhai sy'n byw 'ar y safle' (20.5%), dengys Ffigur 4.1.6-6e bod perthynas cyfrannedd gwrthdro rhwng y cyflogeion a pha mor bell y maent yn byw oddi wrth safle'r busnes. Tra bod 54.2% y busnesau yn nodi

bod 'rhywfaint, neu eu cyflogeion i gyd' yn byw llai na 5 cilometr i ffwrdd, 15.6% yn unig a all ddweud yr un peth am bellter o 'fwy nag 20 cilometr i ffwrdd'.


Ffigur 4.1.6 – 6e: Y Pellter y Mae'r Cyflogeion yn Byw oddi wrth Safle'r Busnes




*Rhwystrau i Hyfforddi Cyflogeion:* Mae mwy na thraean y busnesau (37.9%) wedi cael anawsterau wrth hyfforddi cyflogeion o ganlyniad i'r ffaith 'nad oes digon o amser/ colli amser yn ystod hyfforddi'. Mae cyfran debyg (31.9%) yn nodi bod 'cost hyfforddiant' yn rhwystr i hyfforddi cyflogeion. Fodd bynnag, mae llai nag un o bob pump o'r ymatebwyr wedi cael anawsterau naill ai o ganlyniad i 'ddiffyg cyrsiau hyfforddi penodol yn cael eu cynnig' (17.8%), 'methu cael mynediad at y ddarpariaeth hyfforddiant' (15.4%) neu 'darpariaeth hyfforddiant anaddas' (14.3%). Yn ogystal, nododd 4.4% o'r holl ymatebwyr a arolygwyd bod materion 'eraill' yn achosi rhwystr i hyfforddi cyflogeion. Mae'r canlynol yn ddetholiad o'r problemau a nodwyd:

- Gallu/cymhwyster sylfaenol yr ymgeiswyr
- Trosiant uchel o staff achlysurol
- Diffyg arian ar gyfer hyfforddiant dethol
- Diffyg diddordeb gan y cyflogeion
- Diffyg sgiliau personol y cyflogeion
- Diffyg ymgeiswyr o ansawdd
- Diffyg parodrwydd i weithio a dysgu ymysg pobl ifanc
- Lleoliad y busnes
- Dim arian ar gael i wneud hyfforddiant yn werth chweil
- Ansawdd yr hyfforddiant sydd ar gael
- Peth prin yw dod o hyd i rywun sydd â diddordeb
- Gwrthwynebiad i ddysgu ffurfiol/ staff yn gwrthod mynychu cyrsiau
- Gormod o hyfforddiant am bethau nad ydynt yn angenrheidiol
- Cyflogeion a hyfforddir wedyn yn cael eu 'dwyn' gan fusnesau eraill

Ffigur 4.1.6- 6f: Rhwystrau i Hyfforddi Cyflogeion




### 4.1.7 Adran 7 – Sylwadau Pellach

*Manteision bod y Busnes wedi'i Leoli yng Nghymru Wledig:* nododd 49.5% o'r ymatebwyr bod manteision penodol i gael busnes yng Nghymru wledig. Cynigwyd y categorïau canlynol o resymau gan yr ymatebwyr hyn:

- Nododd 40.5% o'r ymatebwyr lefelau da o fasnach (wledig) yn fantais benodol o fod wedi'u lleoli yn y Gymru wledig
- Nododd 20.5% bod 'ansawdd bywyd'/ 'ansawdd yr amgylchedd' yn fantais benodol o fod wedi'u lleoli yn y Gymru wledig
- Nododd 16.5% y ffaith bod y busnes wedi'i wreiddio'n lleol yn fantais benodol
- Nododd 6.2% o'r ymatebwyr gryfder y safle busnes o ran bod yn hygyrch/deniadol i gwsmeriaid a/neu gyflenwyr, fel mantais allweddol
- Nododd 5.9% diffyg cystadleuaeth fel mantais benodol
- Nododd 4.5% bod costau isel a/neu gymorth grant yn fantais benodol o fod wedi'u lleoli yn y Gymru wledig
- Nododd 3.6% resymau 'eraill' fel manteision penodol

*Anfanteision Bod y Busnes wedi'i Leoli yng Nghymru Wledig*: nododd 44.8% o'r ymatebwyr bod lleoliad y busnes yng Nghymru wledig yn cyflwyno anfanteision penodol. Nodwyd y categorïau canlynol o resymau gan yr ymatebwyr hyn:

- Nododd 36.1% o'r ymatebwyr broblemau yn ymwneud â hygyrchedd o ran cwsmeriaid a /neu gyflenwyr, yn ogystal â chysylltiadau gwael ar gyfer cludiant fel anfanteision penodol o fyw yng Nghymru wledig

- Nododd 35.6% fod sail gwsmeriaid annigonol/anaddas (e.e. gwariant tymhorol/isel) yn anfantais benodol o fod wedi'u lleoli yng Nghymru wledig
- Nododd 12.4% o'r ymatebwyr fod diffyg staff (addas) yn anfantais benodol
- Teimlai 6.1% fod diffyg grantiau/ cymorth busnes yn anfantais benodol o fod wedi'u lleoli yng Nghymru wledig
- Nododd 2.9% ddiffyg technoleg (e.e. band eang) a/neu ddiffyg cyfleusterau busnes lleol yn anfantais benodol
- Nododd 6.9% o'r ymatebwyr resymau 'eraill' fel anfanteision penodol o fyw yn y Gymru wledig

***Cynaladwyedd Busnes:*** Credai 87.8% o'r ymatebwyr bod eu busnes yn gynaliadwy yn ei ffurf bresennol dros y pum mlynedd nesaf. Gellir categoreiddio'r rhesymau a roddwyd gan yr holl ymatebwyr o ran a fydd eu busnesau yn aros yn gynaliadwy ai peidio, fel a ganlyn:

- Nododd 28.0% o'r ymatebwyr bod cynaladwyedd busnes yn dibynnu ar faterion yn ymwneud â thwf y busnes/ esblygu'r busnes
- Nododd 22.0% bod materion yn ymwneud â chystadleuedd/ lefelau masnach yn berthnasol i gynaladwyedd eu busnes
- Nododd 16.9% o'r ymatebwyr reoliadau/ trethi busnes fel ystyriaethau o ran cynaladwyedd busnes
- Nododd 13.6% faterion yn ymwneud ag ymddeol/iechyd yn effeithio ar gynaladwyedd eu busnes
- Nododd 7.6% bod cynaladwyedd eu busnes yn dibynnu ar faterion yn ymwneud â mynediad cwsmeriaid/cyflenwyr at y busnes a/neu gyflwr safle'r busnes ei hun
- Nododd 6.8% o'r ymatebwyr staffio (addas) fel ystyriaeth allweddol wrth bennu cynaladwyedd y busnes
- Nododd 5.1% yr ymatebwyr bod y lefelau o gymorth busnes sydd ar gael yn ffactor a fyddai'n allweddol yn eu cynaladwyedd tymor hir.

## 5. CANLYNIADAU – DADANSODDIAD YR IS GRWPIAU

Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad disgrifiadol o'r ymatebwyr yn ôl y math o fusnes, y lleoliad a'r maint. Yn dilyn dadansoddiad set y data yn ei gyfanrwydd (gweler Adran 4), isrannwyd yr ymatebwyr yn un ar ddeg gwahanol fath o gategori (gweler Tabl 4.1.1 - 1a), chwe dosbarth o ran maint (gweler tabl 4.1.6 – 6a) a deuddeg dosbarth o ran y lleoliad (gweler map 1). Rhoddir disgrifiad mwy manwl[2] o bob isadran ar ddechrau Adrannau 5.1, 5.2 a 5.3. Yna gwneir cymariaethau rhwng yr atebion a roddwyd gan yr ymatebwyr i bob un o'r isadrannau a'r rheiny a roddwyd ar gyfer y set o ddata cyfanredol. Trafodir y themâu a'r amrywiaethau allweddol yn fanylach yn Adran 6, gan ddod i gasgliadau ynghylch a yw'r math o fusnes, y lleoliad neu'r maint yn effeithio'n uniongyrchol ar y profiadau cadarnhaol a negyddol o fod yn berchen ac yn rhedeg busnes yn y Gymru wledig.

### 5.1 Dadansoddiad yn ôl Math

Yn dilyn adolygiad cychwynnol o'r cynnwys, isrannwyd prif set y data i unarddeg gwahanol gategori o'r mathau o fusnes (gweler tabl 4.1.1-1a). Gellir dadansoddi'r is-setiau yn y modd canlynol:

**Math 1 - Gwasanaethau Amaethyddol*:** Cafwyd 47 o ymatebwyr o'r Diwydiant Gwasanaethau Amaethyddol. Maent yn cyfrif am 4.6% o gyfanswm set y data (N= 1008). Mae'r gwahanol gategorïau o fusnesau a ymatebodd a gynhwysir yn y dosbarth hwn yn cynnwys:

- Gweithgareddau milfeddygol
- Gweithgareddau gwasanaeth hwsmonaeth anifeiliaid
- Llety a gofal anifeiliaid fferm
- Gweithgareddau gwasanaeth amaethyddol; garddlunio
- Melin lifio

[*O ystyried natur yr arolwg; yn achos busnesau a leolid ar fferm neu a oedd yn rhan o gyfanswm incwm fferm, ni cheisiwyd gwybodaeth ar y daliad amaethyddol ei hun, dim ond ar fentrau busnes nad oedd yn ymwneud â'r daliad amaethyddol]

**Math 2 – Adeiladu:** Mae'r sector diwydiannol hwn yn cyfrif am 102 o ymatebwyr (10.1%) yr ymatebwyr. Mae'r categorïau canlynol wedi'u cynnwys yn yr is-set hwn:

- Gwaith adeiladu cyffredinol a pheirianneg sifil
- Gweithgareddau gwaith inswleiddio
- Paentio a gosod gwydr
- Gosod gwaith asiedydd
- Gosodiadau adeiladu eraill
- Gosod gwifrau a ffitiadau trydanol
- Gorchuddiadau llawn neu wal
- Gwaith plymio
- Gwaith adeiladu arall sy'n gofyn am grefftwyr arbennig
- Adeiladu traffyrdd, ffyrdd a rheilffyrdd
- Dymchwel; symud tir

---

[2] At ddibenion yr adroddiad hwn, dim ond yr eithafion (h.y. yr uchaf a/neu'r isaf) yn yr amrywio a drafodir yn gyffredinol. Am fwy o wybodaeth am yr is-setiau data yn eu cyfanrwydd, gweler Atodiadau B (y math o fusnes), C (maint y busnes) a D (lleoliad y busnes).

**Math 3 – Llety, Bwyd a Diod:** Gan gyfrif am 182 (neu18.1%) o ymatebwyr, Llety, bwyd a diod (ac ati) yw un o'r setiau mwyaf o'r math o fusnes. Cynhwysir y categorïau canlynol:

- Gwestai a motelau, gyda neu heb fwyty
- Llety arall i dwristiaid neu lety ymweliadau byr
- Tafarndai a bariau annibynnol
- Bwytai trwyddedig
- Bwytai a chaffis heb drwydded
- Siopau cludfwyd
- Safleoedd gwersylla, gan gynnwys safleoedd carafannau

**Math 4 – Gweithgynhyrchu:** Mae'r set hwn yn cyfrif am 78 o ymatebwyr (7.7%). Cynhwysir y categorïau canlynol o weithgynhyrchu:

- dodrefn/ dodrefn y gegin
- cynnyrch pren eraill
- gludion a gelatin
- serameg y cartref a gwrthrychau addurno
- offer meddygol ac offer ar gyfer llawdriniaeth
- bara, nwyddau crwst ffres a/neu gacennau
- nwyddau pecynnu plastig
- offer oeri ac awyru
- prosesu cynnyrch bwyd, diod a thobaco
- trin ac araenu mhetalau
- cynnyrch plastig
- cynnyrch gwres canolog
- carpedi a matiau
- peiriannau amaethyddol a choedwigaeth
- eitemau dodrefnu meddal
- offer a deunydd adeiladu
- llestri gwydr
- cyfrifiaduron ac offer prosesu gwybodaeth eraill
- treileri a hanner treileri
- gemwaith
- nwyddau chwaraeon
- dillad
- cynnyrch trydanol
- awyrennau a/neu gerbydau gofod
- rwber synthetig
- ffasneri, cynnyrch peiriannau sgriwio, cadwyni a sbringiau

**Math 5 – Adwerthu:** Adwerthu yw'r math mwyaf o'r is-setiau busnes. Mae'n cyfrif am 320 o ymatebwyr (31.8%) ac yn cynnwys y dosbarthiadau canlynol:

- nwyddau metel, paent a gwydr
- cig a chynnyrch cig
- dillad
- llyfrau, papurau newydd ac offer swyddfa
- gemwaith, clociau ac oriorau
- siopau arbenigol (e.e. popty)
- siopau nad ydynt yn arbenigol, gyda bwyd, diodydd a/neu dobaco
- nwyddau chwaraeon

- gêmau a theganau
- dodrefn, offer goleuo a nwyddau’r ty
- deunyddiau gorchuddio’r llawr
- hynafolion
- ffrwythau a llysiau
- offer ffotograffiaeth/cyfrifiaduron
- tecstilau
- esgidiau
- offer trydanol
- pysgod a/neu anifeiliaid anwes eraill

**Math 6 – Eiddo Tiriog:** Dyma’r is-set lleiaf, yn cyfrif am 23 o ymatebwyr (2.3%). Mae’n cynnwys y mathau canlynol:
- asiantaethau eiddo tiriog
- rheoli eiddo tiriog ar sail rydd neu gytundeb
- prynu a gwerthu ei eiddo tiriog ei hun

**Math 7 – Cyfanwerthwyr:** Mae hyn yn cyfrif am 68 o ymatebwyr (6.7%). Mae’n cynnwys y mathau canlynol o fusnesau cyfanwerthu:
- peiriannau amaethyddol, ategolion ac offer
- cig a chynnyrch cig
- pren a deunyddiau adeiladu
- cyfanwerthu nad yw’n arbenigol, ar fwyd, diodydd a thobaco
- dodrefn
- blodau a phlanhigion
- grawn, hadau a phorthiant anifeiliaid
- dillad
- peiriannau i’w defnyddio mewn diwydiant, masnach a mordwyaeth
- peiriannau i’w defnyddio mewn mwyngloddio, adeiladu a pheirianneg sifil
- nwyddau metel, gwaith plymio a gwresogi
- gwin, cwrw, gwirodydd a diodydd alcoholig eraill
- offer trydanol y ty
- nwyddau eraill i’r ty
- esgidiau
- tanwydd a chynnyrch perthynol
- cynnyrch cemegol

**Math 8 – Iechyd a Harddwch:** Mae’r isadran hon yn cynnwys 93 o ymatebwyr (9.2%). Mae’r mathau canlynol wedi’u cynnwys yma:
- trin gwallt a thriniaethau harddwch eraill
- gweithgareddau practis deintyddol
- fferyllwyr cymwysedig
- gweithgareddau iechyd dynol eraill

**Math 9 – Cludiant:** Roedd yr isadran cludiant yn cynnwys 30 o ymatebwyr (3%). mae’n cynnwys:
- rhentu bysiau a choetsus
- rhedeg tacsis
- cludo llwythi ar y ffordd

**Math 10 – Gwaith Elusennol/Cymdeithasol:** Mae hyn yn cyfrif am 32 o ymatebwyr (3.2%). Cynhwysir y categorïau canlynol:

- gweithgareddau gwaith cymdeithasol gyda llety
- gweithgareddau gwaith elusennol/cymdeithasol heb lety

**Math 11 – Gwasanaethau:** Ymatebodd ystod eang o wasanaethau. Maent yn cyfrif am 30 o ymatebwyr (neu 3%) ac yn cynnwys y canlynol:

- gweithgareddau angladdol a gweithgareddau cysylltiedig
- ail-wadnu ac ailadeiladu teiars rwber
- gwasanaethau addysg oedolion
- gweithgareddau ysgolion gyrru
- golchi a sychlanhau tecstiliau a/neu nwyddau ffwr
- gweithgareddau symud dodrefn
- gweithgareddau gwasanaeth eraill.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y busnesau a ddadansoddwyd yn ôl y 'math', o gymharu â'r set o ddata cyfanredol, fel a ganlyn:

### *5.1.1 Adran 1 – Proffil y Busnes*

*Y Flwyddyn y Sefydlwyd y Busnes:*

- Gyda 16.4% o'i fusnesau wedi'u sefydlu cyn 1950, ymddengys bod gan y diwydiant Llety, Bwyd a Diod (Math 3) dras hirach na'r cyfan gyda'i gilydd yng Nghymru wledig (10.7%). Fodd bynnag, mae gan y sector hwn hefyd gyfradd dechrau lawer uwch yn ystod y cyfnod 2000 - 2004 (23%), nag yn achos y cyfan (10.8%) - neu yn wir unrhyw fath o fusnes unigol arall. Mae'r canran isaf cymharol o ddechreuadau busnes yn ystod y cyfnod hwn ymysg busnesau elusennol/cymdeithasol (3.4%) (Math 10) a diwydiannau gwasanaethau amaethyddol (4.4%).

*Canran y busnesau teulu:*

- Ac eithrio'r busnesau 'iechyd a harddwch' (58.0%) (Math 8), prin iawn o amrywiaeth a geir rhwng y mathau o fusnes a'r cyfanred (79.4%) o ran a ystyrir bod y busnes yn 'fusnes teulu' ai peidio.

*Natur perchnogaeth y busnes:*

- Cofnodwyd amrywiaethau rhwng nifer cyfanredol yr unig fasnachwyr (40.3%) a'r cyfanwerthwyr (Math 7) (23.5% - sydd yn eu tro yn cyfrif am gyfran uwch na'r cyfanred o'r cwmnïau 'Cyfyngedig', a'r nifer uchaf o 'fusnesau cydweithredol'), y diwydiannau gwasanaeth (Math 11) (55.2%) a'r busnesau 'iechyd a harddwch' (63.0%).
- Mae busnesau 'llety, bwyd a diod' a busnesau 'eiddo tiriog' (Math 6) yn cyfrif am ganran uwch na'r cyfanred o fusnesau 'y mae partneriaeth yn berchen arnynt' (51.1% a 56.5% (yn y drefn honno) o gymharu â chyfanred o 33.0%).
- Mae cyfran sylweddol uwch o'r gweithgynhyrchwyr (Math 4) (44.9%) yn gwmnïau 'Cyfyngedig', nag sydd yn achos y cyfanred (25.9%).

*Perchnogaeth y safleoedd busnes:*

- Mae'r amrywiaeth fwyaf o'r cyfanred ar gyfer perchnogaeth y safleoedd busnes (67.3%) yn digwydd gyda'r gweithgynhyrchwyr (53.5% yn unig yn berchen ar y safle) a'r gwasanaethau (93.3% yn berchen ar y safle).

### *5.1.2 Adran 2 – Proffil y Perchennog*

*Oed y perchennog:*

- Yn gyffredinol, ni cheir unrhyw gydberthynas rhwng oed y perchennog a'r math o fusnes. Mae'r unig eithriadau gwirioneddol i'r sgorau cyfanredol yn ymwneud â 'llety, bwyd a diod' – sef yr unig sector lle ceir perchennog sy'n iau na 18 mlwydd oed, a 'chludiant' (Math 9) – sydd â nifer sylweddol uwch o berchnogion sydd yn 65 mlwydd oed ac yn hŷn (20%, o gymharu â chyfanred o 8.8%).

*Llwybr y perchennog presennol i fusnes:*

- Mae cyfran sylweddol uwch o berchnogion busnesau gweithgynhyrchu a chludiant wedi dechrau eu cwmnïau eu hunain nag yn achos y cyfanred (78.9% a 79.3% (yn y drefn honno) o gymharu â chyfanred o 55%). Yn wrthgyferbyniol, 24.2% yn unig o berchnogion busnesau 'llety, bwyd a diod' sy'n nodi eu bod wedi dechrau eu busnes eu hunain.
- Mae canran y perchnogion eiddo tiriog a 'gymerodd awenau eu busnes o aelod arall o'r teulu' fwy na ddwywaith cymaint (36.4%) â'r cyfanred (15%).
- Er bod y sgôr cyfanred ar gyfer 'prynu'r' busnes yn 26.8%, ni phrynodd unrhyw berchnogion busnes cludo eu busnes hwy. Yn yr un modd, 3.4% yn unig o'r busnesau diwydiant gwasanaethau a brynwyd fel busnes mewn bod (a sefydlwyd eisoes). Yn union wrthgyferbyniol, 'prynwyd' 60.4% o'r busnesau 'llety, bwyd a diod' gan y perchennog (perchnogion) presennol.

*Y flwyddyn y daeth y perchennog presennol yn rhan o'r busnes:*

- Gyda 41.5% o'r perchnogion yn dod yn rhan o fusnesau 'llety, bwyd a diod' rhwng 2000 a 2004 (o gymharu â chyfanred o 19.6%) a'r un o berchnogion busnesau elusennol/cymdeithasol yn rhan o'r busnes cyn 1980 ( o gymharu â chyfanred o 21.1%), mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd â'r tueddiadau a ddangosir ar gyfer 'y flwyddyn y sefydlwyd y busnes' (gweler uchod). Mae amrywiaethau eraill a welir yma yn cynnwys 4.6% yn unig o berchnogion cyfanwerthwyr a 9.3% o berchnogion busnesau 'gwasanaethau amaethyddol' wedi dod yn rhan o'r busnes yn ystod cyfnod 2000 i 2004.

*Yr oriau y mae'r perchennog yn eu gweithio:*

- Y sector busnes â'r gyfran fwyaf o berchnogion yn gweithio 8 awr y dydd neu lai oedd iechyd a harddwch (61.5%). Yn wrthgyferbyniol, 19% yn unig o berchnogion busnesau 'eiddo tiriog' a weithiai 8 awr y dydd neu lai (o gymharu â chyfanred o 34.4%), gydag 81% pellach yn gweithio rhwng 9 a 14 awr y dydd ar gyfartaledd (o gymharu â chyfanred o 58.9%). Yn yr un modd, 14.3% yn unig o berchnogion busnesau cludiant sy'n gweithio 8 awr y dydd neu lai; tra bod 20.3% o berchnogion busnesau 'llety, bwyd a diod' yn gweithio 15 awr y dydd neu fwy bob dydd (o gymharu â chyfanred o 6.7%).

*Cymwysterau academaidd perchnogion:*

- Gwelir cyfradd sylweddol o amrywiaeth yn lefelau'r cymwysterau sydd gan berchnogion y gwahanol fathau o fusnesau. Er enghraifft, tra bod y cyfanred ar gyfer cymwysterau ôl-radd/CGC lefel 5 yn 9.2%; cyfartaledd y perchnogion yn y sector 'iechyd a harddwch' oedd 24.7%, o gymharu â'r busnesau cludiant a'r busnesau diwydiant gwasanaethau, lle nad oedd unrhyw berchennog â'r lefel hon o gymhwyster academaidd. Mewn gwirionedd, busnesau'r sector diwydiant gwasanaethau oedd â'r nifer lleiaf o gymwysterau Gradd/CGC lefel 4 hefyd (3.8% o gymharu â chyfanred o 21.1%). Yn hytrach, roeddent yn cyfrif am y cyfartaledd uchaf o berchnogion â chymwysterau TGAU/CGC lefel 1-2 yn unig, neu gymwysterau 'eraill' (30.8% a 26.9% yn y drefn honno, o gymharu â'r ffigurau yn gyfanredol o 22.4% a 10.6%). Y ddau sector â'r nifer uchaf o berchnogion â 'dim' cymwysterau academaidd oedd cludiant (42.3%) a Chyfanwerthwyr (31.6%) (o gymharu â chyfanred o 20.7%).

*Natur y ffaith bod y perchennog yn byw yng Nghymru wledig:*

- Yr unig fath o fusnes oedd â sgôr is na 90% ar gyfer 'perchnogion yn byw yng Nghymru wledig' (a oedd â chyfanred o 96%), oedd 'eiddo tiriog' (85.7%).

*Y Cyfnod o amser y mae'r perchnogion wedi byw yng Nghymru wledig:*

- Gwelir nifer o amrywiaethau rhwng ffigurau'r cyfanred ar gyfer 'y cyfnod o amser y mae'r perchennog wedi byw yng Nghymru wledig' ac ar gyfer mathau unigol o fusnes. Er enghraifft, tra bod yn y sector 'llety, bwyd a diod' nifer fawr o berchnogion a fu'n byw yng Nghymru wledig am lai na 20 mlynedd (52.1% o gymharu â chyfanred o 26%), nid oes yn y sectorau eiddo tiriog, cludiant neu wasanaethau, unrhyw berchnogion a fu'n byw yng Nghymru am lai na 10 mlynedd (o gymharu â chanran cyfanredol o 11.3%). Ar y pegwn arall, tra bod o leiaf hanner holl berchnogion busnesau yn y sector adeiladu (Math 2) (50%), Cludiant (51.7%) a gwasanaethau (58.3%), wedi byw yng Nghymru wledig am 50 mlynedd neu fwy, mae'r un peth yn wir am 28.3% yn unig o'r cyfan gyda'i gilydd.

*Natur y ffaith bod y perchennog yn byw yng Nghymru wledig:*

- Tra bod y categori 'ganwyd yng Nghymru' yn cynnwys tua hanner set y data cyfanredol, mae yn y categori hwn fwy na thri chwarter y perchnogion cludiant (76.7%) ac eiddo tiriog (87%). Mae'r sector adeiladu yn enwedig wedi'i gynrychioli'n dda (43.1%) o ran 'wedi byw yng Nghymru erioed' (o gymharu â nifer gyfanredol o 24.9%) – yn wahanol i'r sector busnesau elusennol/ cymdeithasol sydd â 12.5% o berchnogion yn unig yn y categori hwn. Ymhellach, tra bod 'llety, bwyd a diod' â'r sgôr isaf o ran 'ganwyd yng Nghymru' (35.7%), mae ganddo'r cyfanswm uchaf o berchnogion sydd wedi 'symud i Gymru o rywle arall' (57.1% o gymharu â chyfartaledd o 39.5%).

*Noddi gweithgareddau, clybiau, timau a digwyddiadau lleol:*

- Mae gweithgarwch mewn mentrau noddi lleol, a bennwyd gan y math o fusnes, yn amrywio o 31% o fusnesau cludiant i 68.2% o fusnesau eiddo tiriog (o gymharu â chyfartaledd o 45.6%)

### *5.1.3 Adran 3 – Lleoliad y Busnes*

*Y Ffactorau yn Dylanwadu ar y penderfyniad i leoli'r busnes yn y Gymru wledig:*

- Mae'r mater o fod 'eisoes yn byw yno' yn sgorio'n benodol o uchel yn y sectorau adeiladu a gwasanaethau fel ei gilydd (93.8% a 91.7% yn y drefn honno, o gymharu â nifer gyfanredol o 81.3%) o ran bod yn ddylanwad pwysig/ pwysig iawn ar y penderfyniad i leoli'r busnes yng Nghymru wledig.
- 50.0% yn unig o'r sector gwasanaethau a 55.6% o'r sector adeiladu a ystyria bod 'cost y safle' yn ddylanwad pwysig/ pwysig iawn ar y penderfyniad i leoli'u busnes yng Nghymru wledig (o gymharu â nifer gyfanredol o 73.4%).
- Mae 45.0% o'r sector adeiladu a 50.0% o'r sector cludiant yn ystyried agosrwydd i gyflenwyr yn bwysig/ bwysig iawn. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n uniongyrchol â'r busnesau gwasanaeth, nad ydynt yn ystyried y ffactor hwn yn bwysig (50.0%) neu yn amherthnasol (50.0%).
- Ymddengys nad yw 'agosrwydd i broseswyr' yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o fusnes.
- Dim ond 53.1% o weithgynhyrchwyr sy'n ystyried bod 'agosrwydd i ddefnyddwyr/ y farchnad' yn bwysig/ yn bwysig iawn (gyda 32.8% pellach yn ystyried nad yw'r ffactor hwn 'yn bwysig'). Mae hyn yn cymharu â nifer gyfanredol o 77.9% yn ystyried bod yr agosrwydd hwn yn bwysig/ pwysig iawn, ac yn eithafol yn achos y busnesau iechyd a harddwch, lle'r oedd 93.1% yn nodi ei fod yn bwysig iawn/ yn bwysig (gyda dim ond 2.8% yn ystyried 'nad yw'n bwysig').
- Yr unig ddau fath o fusnes nad ydynt yn ystyried 'ansawdd yr amgylchedd' yn ddylanwad pwysig/ pwysig iawn mewn mwy na 75% o achosion yw cyfanwerthwyr (72.5%) a'r sector cludiant (72.5%). Y nifer gyfanredol ar gyfer y ffactor hwn yw 84.8%
- Mae'r sgôr isaf ar gyfer 'dewis dull o fyw/ ymrwymiadau teulu' fel ffactor pwysig/ pwysig iawn wrth ddylanwadu ar y dewis o leoliad, yn y sector eiddo tiriog (73.3%). O gymharu â nifer gyfanredol o 87.8%, ystyriai 100% o'r ymatebwyr o'r diwydiant gwasanaethau amaethyddol bod y ffactor hwn yn bwysig/ pwysig iawn.

*Adleoli'r busnes y tu allan i'r Gymru wledig:*

- Mae'r syniad o adleoli'r busnes y tu allan i'r Gymru wledig yn fwyaf poblogaidd ymysg gweithgynhyrchwyr (22.7%) a chyfanwerthwyr (21.5%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 12.1%), ac yn lleiaf poblogaidd ymysg y diwydiannau gwasanaethau (3.4%).

*Mynediad/agosrwydd at y busnes:*

- Mae mynediad/agosrwydd y busnes at weithlu cymwys/medrus yn ennill sgôr sy'n uwch na'r nifer gyfanredol (30.4%) ar gyfer bod yn dda/ yn dda iawn yn y diwydiant adeiladu (43.9%) ac yn is na'r nifer gyfanredol yn y sector gwasanaethau (17.9%) (er bod 39.2% pellach o'r ymatebwyr yn y sector gwasanaethau yn ystyried bod y ffactor hwn yn amherthnasol – yn erbyn nifer gyfanredol o 17%). Mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol i ymatebwyr y sector elusennol/cymdeithasol (35.5%), dim ond 5% o'r sector eiddo tiriog sy'n ystyried mynediad/agosrwydd at weithlu cymwys/medrus yn wael/gwael iawn.

- Mae mynediad/ agosrwydd y busnes at gwsmeriaid yn sgorio llawer uwch na'r nifer gyfanredol (68.2%) o ran bod yn dda/dda iawn ar gyfer y sector eiddo tiriog (90.5%) a'r sector iechyd a harddwch (87.6%). Fodd bynnag, dim ond 48.1% o'r gweithgynhyrchwyr sy'n ystyried bod y ffactor hwn o'r un safon uchel.
- Er mai dim ond 33.8% o'r cyfanred sy'n credu bod mynediad/ agosrwydd i gyflenwyr yn dda/ dda iawn, mae'n sgorio llawer yn uwch ymysg ymatebwyr y sector adeiladu (65.6%) ac ymatebwyr y diwydiant gwasanaethau amaethyddol (62.5%). Yn wrthgyferbyniol, dim ond 20.8% o weithgynhyrchwyr sy'n ystyried bod hyn yn dda/ dda iawn, gyda 21.1% arall (o gymharu â nifer gyfanredol o 11.2%) yn canfod bod mynediad/agosrwydd i gyflenwyr yn wael/ yn wael iawn.
- Mae agosrwydd y busnes i gystadleuwyr yn sgorio'n uchel yn y diwydiannau gwasanaethau amaethyddol a'r sector adeiladu (gyda 43.2% a 41.5% (yn y drefn honno) yn ystyried bod hyn yn dda/ dda iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 30.8%), ond mae'n sgorio'n is ymysg y sectorau eiddo tiriog a chludiant (gydag 18.8% a 21.7% (yn y drefn honno) yn ystyried bod hyn yn wael/wael iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 8.4%).
- Mae 70.6% o'r ymatebwyr mewn busnesau eiddo tiriog a 63.3% o'r ymatebwyr mewn busnesau elusennol/ gwaith cymdeithasol yn ystyried bod mynediad/ agosrwydd i ddiwydiannau gwasanaethau busnes yn dda/ dda iawn (sef ffigurau sydd lawer uwch na'r nifer gyfanredol o 34.3%)
- Mae mynediad/agosrwydd y busnes at sefydliadau ymchwil yn sgorio uchaf ymysg y sector elusennol/ cymdeithasol (gyda 58.1% yn ystyried hyn yn dda/ dda iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 28.7%). Nid yw 45.5% o'r ymatebwyr mewn cludiant a 50% o'r ymatebwyr mewn gwasanaethau yn ystyried bod y ffactor hwn yn berthnasol i'w busnes (o gymharu â nifer gyfanredol o 27.7%).

### *5.1.4* ***Adran 4 – Strategaeth Fusnes***

*Ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i ddechrau/ meddiannu'r busnes:*

- Ni welwyd unrhyw amrywiaeth wirioneddol rhwng y mathau o fusnes o ran 'darparu prif ffynhonnell o incwm' fel ffactor pwysig yn dylanwadu ar y penderfyniad i ddechrau/ meddiannu'r busnes. Ystyrir ei fod yn bwysig/ bwysig iawn gan fyw nag 80% o'r ymatebwyr o'r holl sectorau. Yn yr un modd, ystyriwyd bod 'sefydlu ffynhonnell ychwanegol neu fach o incwm' yr un mor bwysig (gan amrywio llai na 10% o'r naill ochr i'r nifer gyfanredol o 31.6%) i bob math o fusnes.
- Er bod mwyafrif y mathau o fusnes yn adlewyrchu sgorau tebyg i'r nifer gyfanredol o ddim ond 35.1% ar gyfer ystyried 'dianc rhag cyflogaeth' yn ffactor dylanwadol pwysig/ pwysig iawn, ymddengys bod y ffactor hwn yn fwy arwyddocaol yn y sector cludiant (gyda 57.1% yn nodi ei fod yn bwysig/ bwysig iawn a dim ond 4.8% yn nodi 'nad yw'n bwysig').
- Mae'r ffactor o 'barhau busnes y teulu' yn ysgogi ystod o atebion yn ôl y math o fusnes. Tra bod 42.9% o fusnesau eiddo tiriog a 40.9% o fusnesau cludiant yn ystyried bod hwn yn ffactor pwysig/ pwysig iawn, dim ond 6% o'r sector iechyd a harddwch a nododd bod yr un peth yn wir (o gymharu â nifer gyfanredol o 26.1%).

- O'i gymharu â'r nifer gyfanredol, mae 'Cymryd yr her o redeg busnes' yn sgorio'n isel fel ffactor pwysig/ pwysig iawn ymysg y sectorau gwasanaethau (63.0%), iechyd a harddwch (65.1%) a chludiant (65.3%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 75.3%). Mae 21.7% o'r ymatebwyr cludiant yn ystyried nad yw'r ffactor hwn yn 'bwysig' (o gymharu â nifer gyfanredol o 10.2%).
- Er bod 'cael swydd a fydd yn cydweddu â'm cyfrifoldebau domestig' yn sgorio'n isel ymysg ymatebwyr mewn busnesau cludiant (gyda dim ond 26.1% yn ystyried ei fod yn bwysig/ bwysig iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 46.0%) a 34.8% pellach yn ystyried 'nad yw'n bwysig' (o gymharu â nifer gyfanredol o 18.9%); mae gweddill y mathau o fusnes yn ymateb mewn ffordd llawer tebycach i'r cyfanred.
- Er nad ystyrir 'cael mwy o amser hamdden' yn ffactor pwysig iawn, mae ymatebwyr yn y sector eiddo tiriog yn priodoli pwysigrwydd penodol o isel iddo (gyda dim ond 5.3% yn ystyried ei fod yn bwysig/ bwysig iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 19.1%) gyda 42.1% pellach yn credu nad yw'n bwysig (o gymharu â nifer gyfanredol o 30.0%)).
- 'Manteisio ar sgiliau hyfforddi' sydd bwysicaf i ymatebwyr iechyd a harddwch a gwaith cymdeithasol/ elusennol (a ystyrir yn bwysig/ pwysig iawn gan 61.9% a 64.5% yn y drefn honno (o gymharu â nifer gyfanredol o 39.1%)).
- Ysgogodd 'Manteisio ar gyfle yn y farchnad' amrywio mawr ymysg ymatebwyr y gwahanol fathau o fusnes. Er enghraifft, er mai 42.9% yn unig o ymatebwyr y sector gwasanaethau a ystyriai bod hwn yn ffactor pwysig/ pwysig iawn (o gymharu â chyfartaledd o 61.1%), dyna oedd barn 81.7% o'r ymatebwyr yn y categori eiddo tiriog.
- Ni welir unrhyw amrywio sylweddol ym marn yr ymatebwyr o ran pa mor bwysig yw 'datblygu diddordeb personol'.
- Mae 'rhyddid i ddefnyddio dulliau traddodiadol yn sgorio uchaf ymysg y diwydiannau gwasanaethau amaethyddol (62.9%) ac isaf ymysg ymatebwyr eiddo tiriog (21.1%) fel ffactor pwysig/ pwysig iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 41.1%).
- Er mai dim ond 16% o ymatebwyr y sector gwasanaethau a ystyriai 'gwneud y math hwn o waith mewn lleoliad gwledig' yn ffactor pwysig/ pwysig iawn, dyma'r achos ar gyfer 59.0% o'r ymatebwyr yn y diwydiant gwasanaethau amaethyddol (o gymharu â chyfanred o 37.6%).
- Er y caiff ei ystyried bwysicaf ymysg y sector gwasanaethau fel ffactor pwysig/ pwysig iawn (26.9% - o gymharu â nifer gyfanredol o 15.2%), yn gyffredinol, prin iawn o amrywiaeth sydd yn ffactor 'galwedigaeth yn dilyn ymddeol' ar hyd y mathau o fusnes.

*Rhagfynegiadau ar gyfer maint y busnes dros y 5 mlynedd nesaf:*

- Cafwyd amrywiaeth gymharol eang ymysg yr ymatebwyr o ran y canran a ddisgwyliai gynnydd yn 'nifer y cyflogeion' dros y 5 mlynedd nesaf. Er enghraifft, dyma'r achos ar gyfer 63.5% o'r gweithgynhyrchwyr a 62.1% o fusnesau elusennol/ cymdeithasol (o gymharu â nifer gyfanredol o 41.3%), dim ond 27.3% o fusnesau eiddo tiriog sy'n disgwyl y bydd y fath gynnydd yn digwydd.
- Yn y mwyafrif o achosion, mae'r rhagfynegiadau o ran twf y busnes yn nhermau cynnydd yn y trosiant blynyddol, yn debyg i'r cyfanred (68.7%). Fodd bynnag, mae'r ffactor hwn yn ennill lle penodol o uchel ar gyfer

gweithgynhyrchwyr (80.3%) ac ymatebwyr gwaith elusennol/ cymdeithasol (86.2%). Mae'r un nifer o weithgynhyrchwyr (80.3%) hefyd yn disgwyl cynnydd yn yr 'elw blynyddol' (o gymharu â nifer gyfanredol o 63.9%). Yn wrthgyferbyniol, dim ond 42.9% o weithwyr cludiant sy'n disgwyl cynnydd mewn elw.

- Mae'r rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd ym maint marchnad y busnes (eto) ar eu huchaf ymysg gweithgynhyrchwyr (66.7%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 48.6%). Disgwylir na fydd hyn yn wir, fodd bynnag, ond yn achos 21.4% o ymatebwyr y sector gwasanaethau.
- Mae'r rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd yn 'ystod y cynnyrch' yn dangos amrywiaeth eang ar draws y gwahanol sectorau. Tra bod y ffigur gyfanredol ar gyfer cynnydd yn 44.2%, bodlonir y ffigur hyn gan 11.5% o weithwyr cludiant yn unig, ond gan 57% o'r ymatebwyr yn y sector adwerthu.
- Dim ond 3.7% o'r ymatebwyr yn y sector cludiant sy'n disgwyl cynnydd ym maint safle'r busnes (o gymharu â nifer gyfanredol o 22.2%). Ymysg y gweithgynhyrchwyr y mae'r nifer fwyaf o ymatebwyr (36.5%) sy'n disgwyl cynnydd ar gyfer y ffactor hwn.

*Dymunoldeb o ran twf y busnes:*

- Er bod cyfanred o 26.5% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad nad oes ganddynt 'yn bendant ddim' diddordeb mewn ehangu'r busnes, dim ond 11.0% o'r gweithgynhyrchwyr oedd o'r farn hon (gyda 71.2% arall yn anghytuno – o gymharu â nifer gyfanredol o 52.2%). Yn wrthgyferbyniol, mae 42.9% o fusnesau cludiant, 40.7% o ymatebwyr y sector gwasanaethau a 40.6% o fusnesau elusennol/cymdeithasol yn cytuno â'r datganiad hwn.
- Er bod y datganiad y byddai'r ymatebwr 'yn bendant' yn hoffi i'r busnes dyfu, yn sgorio'n uchel ar gyfartaledd (70.2%), dim ond 49.5% o fusnesau adeiladu, a 40.0% o ymatebwyr y sector gwasanaethau sy'n cytuno â'r datganiad hwn.
- Nododd 81.4% o ymatebwyr gweithgynhyrchu y byddent 'yn ystyried' ehangu eu busnes (o gymharu â nifer gyfanredol o 62.6%). Fodd bynnag, dyma'r achos ar gyfer 40.0% yn unig o ymatebwyr y sector gwasanaeth.

*Y Ffactorau y nodwyd eu bod yn cyfyngu ar y busnes:*

- 'Dim digon o arian/ parodrwydd i fenthyg' yw'r ffactor sy'n cyfyngu fwyaf ymysg y diwydiannau gwasanaethau amaethyddol (51.2%) a'r lleiaf ymysg y busnesau eiddo tiriog (17.6%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 39.1%).
- Er mai 5.9% yn unig o ymatebwyr eiddo tiriog sy'n nodi 'problemau hygyrchedd gyda chyflenwyr/ defnyddwyr' fel cyfyngiad, mae'r mater hwn yn fwy sylweddol ar gyfer y sector cludiant, gyda 29.2% yn ateb ei fod yn gyfyngiad (o gymharu â nifer gyfanredol o 17.2%).
- 'Diffyg gweithlu hygyrch/ addas' yw ffactor sy'n cyfyngu fwyaf ymysg ymatebwyr gwaith elusennol/ cymdeithasol (58.1%) a'r ffactor sy'n cyfyngu leiaf ymysg ymatebwyr eiddo tiriog (12.5%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 39.2%).
- Nid oedd 'materion yn ymwneud â dull o fyw' yn amrywio llawer yn ôl y math o fusnes.
- Ceir ystod eithaf eang o amrywiaeth ymysg y gwahanol fathau o ymatebwyr busnes o ran 'cyfyngiadau cynllunio/ maint y safle' fel cyfyngiad ar y busnes. Tra bod hyn ond yn broblem i 24.4% o ymatebwyr y diwydiant adeiladu (o gymharu â nifer gyfanredol o 42.3%), mae nifer llawer uwch o ymatebwyr yn

y diwydiant ‘llety, bwyd a diod’ (59.5%) a busnesau elusennol/ cymdeithasol (60.0%) yn canfod bod hyn yn broblem.
- Ni cheir unrhyw amrywiaeth sylweddol rhwng y mathau o fusnes o ran y cyfyngiadau rheoleiddiol/ cofrestriad ar gyfer TAW.

*Y ffactorau sy’n dylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes:*
- Mae ‘lleoliad’ y busnes yn sgorio uchaf fel ffactor pwysig/ pwysig iawn ymysg ymatebwyr ‘llety, bwyd a diod’ (96.7%) ac isaf ymysg y gweithgynhyrchwyr (63.6%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 87.9%)
- Ceir llawer o amrywio o ran ‘pwysigrwydd gallu technegol’. Dim ond 23.3% o fusnesau gwaith elusennol/cymdeithasol, 29.2% o ymatebwyr cludiant a 29.6% o ymatebwyr y sector gwasanaethau, er enghraifft, a ystyriai bod y ffactor hwn yn bwysig/ bwysig iawn. Yn wrthgyferbyniol, ystyriai 78.9% o ymatebwyr eiddo tiriog a 71.9% o ymatebwyr adeiladu mai dyma oedd yr achos (o gymharu â nifer gyfanredol o 45.3%).
- Er bod y gwahanol fathau o fusnes, yn gyffredinol, yn cydymffurfio â’r nifer gyfanredol o ran ‘pwysigrwydd sgiliau/ gwybodaeth y rheolwyr a’r gweithlu’, dim ond 69.2% o ymatebwyr cludiant a gredai bod y ffactor hwn yn bwysig/ bwysig iawn (yn erbyn nifer gyfanredol o 81.4%).
- Mae ‘pwysigrwydd mynediad at wybodaeth’ yn sgorio’n arbennig o uchel ymysg ymatebwyr eiddo tiriog (gyda 95% yn ystyried bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, o gymharu â nifer gyfanredol o 74.3%). Ac eithrio hyn, ni welir unrhyw amrywio sylweddol.
- Ystyrir bod ‘cyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu a/ neu gysylltiadau busnes’ yn bwysig/ bwysig iawn gan dros 50% o ymatebwyr ym mhob achos.

*Cydweithredu Busnes:*
- Er bod cyfartaledd o 39.2% o’r ymatebwyr yn nodi y ceir ‘cydweithio rheolaidd â busnesau lleol eraill’, nododd canran sylweddol uwch o ymatebwyr cludiant (56.0%), gwasanaethau (63.0%) ac eiddo tiriog (66.7%) bod hyn yn wir. Yn yr un modd, dim ond 19% o weithwyr eiddo tiriog a nododd ‘na cheir byth’ unrhyw gydweithio â busnesau lleol eraill (o gymharu â nifer gyfanredol o 38.1%).
- Mae ‘pryderon ynghylch cystadleuedd’ yn sgorio’n benodol o isel fel ffactor sy’n rhwystro cydweithredu ymysg busnesau elusennol/ cymdeithasol (9.4%) ac ymatebwyr gweithgynhyrchu (11.7%) (o gymharu â nifer gyfanredol o 24.8%)
- Ac eithrio busnesau elusennol/ cymdeithasol (16.1%), ychydig iawn o amrywio a geir yn gyffredinol, gyda sgôr cyfanredol o 32% ar gyfer y mathau o fusnes sy’n credu y bydd eu busnes yn elwa o gydweithio.
- Ni welir unrhyw amrywio sylweddol rhwng y sgôr cyfanredol (31.2%) a’r gwahanol fathau o fusnes o ran cytuno â’r datganiad y cafwyd ‘diffyg strwythurau/ systemau priodol ar gyfer hwyluso cydweithio â busnesau lleol eraill’.

*Ansawdd y cyngor/ cymorth busnes:*
- Ac eithrio’r ffaith nad yw nifer sylweddol uwch o ymatebwyr cludiant (55.6%) ac ymatebwyr y sector gwasanaethau (57.1%) (yn erbyn nifer gyfanredol o 40.6%) erioed wedi defnyddio’r cyngor/ cymorth a gynigir gan gyrff cyhoeddus cenedlaethol, ychydig o amrywio a geir yn y canfyddiadau

am ansawdd y gwasanaeth hwn ar draws y gwahanol sectorau busnes. Yn yr un modd, nid yw canran uwch na'r cyfanred (27.4%) o ymatebwyr y sector gwasanaethau (40.7%) erioed wedi defnyddio gwasanaethau cymorth/ cyngor yr awdurdodau lleol. Ceir un amrywiaeth eang arall, fodd bynnag, yn achos yr awdurdodau lleol, sef na nododd yr un o'r ymatebwyr eiddo tiriog bod y ffynhonnell hon o gymorth yn dda/ dda iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 14.9%).

- Er mai cyfrannau isel yn unig o ymatebwyr cludiant (3.8%) ac eiddo tiriog (4.5%) a ystyriai bod y cymorth/ cyngor a gynigir gan asiantaethau menter yn wael/ wael iawn (o gymharu â nifer gyfanredol o 21.3%), nid yw nifer fawr yn y ddau sector hyn (65.4% a 59.1% yn y drefn honno) erioed wedi defnyddio'r ffynhonnell hon (yn erbyn nifer gyfanredol o 44.7%). Yn yr un modd, nid yw 76.9% o ymatebwyr cludiant a 68.2% o ymatebwyr eiddo tiriog erioed wedi defnyddio undebau/ siambrau yn ffynhonnell cymorth/ cyngor (o gymharu â nifer gyfanredol o 53.4%). Nid yw 61.5% pellach (yn erbyn nifer gyfanredol o 40.3%) erioed wedi defnyddio'r cymorth/ cyngor a gynigir gan sefydliadau masnach. O ran y sefydliadau masnach, ceir amrywiaeth eithaf eang rhwng ymatebwyr busnesau elusennol/ cymdeithasol a nododd bod eu cymorth yn dda/ dda iawn mewn 9.7% o achosion yn unig, ac ymatebwyr eiddo tiriog, sy'n nodi ei fod felly mewn 40.9% o achosion. Mae gan weddill y mathau, fodd bynnag, ganrannau sydd yn llawer tebycach i'r nifer gyfanredol (24.2%).

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y busnes:*

- Ni cheir unrhyw amrywiaeth wirioneddol ymysg y mathau o fusnesau o ran bod ffactorau ymddiriedaeth, dibynadwyedd, gofal cwsmeriaid ac enw da o bwys mawr o ran llwyddiant y busnes (ym mhob achos, ystyrir eu bod yn bwysig/ bwysig iawn gan dros 90% o'r ymatebwyr). Dau grwp o ymatebwyr busnes yn unig (adeiladu 86.7% a gwaith elusennol/ cymdeithasol 80.6%) a ystyriodd fod 'boddhad â'r cynnyrch' yn bwysig/ bwysig iawn yn llai na 90% o'r achosion (o gymharu â nifer gyfanredol o 98.0%).

*Ailfuddsoddiad mewn trosiant blynyddol:*

- Mae ailfuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yn cyfrif am 'ddim gwariant' mewn 29.3% o achosion yn unig yn y sector gweithgynhyrchu (yn erbyn nifer gyfanredol o 57.2%). Yn uniongyrchol wrthgyferbyniol, er hynny, nododd 68.0% o fusnesau adwerthu na fu unrhyw wariant ar ymchwil a datblygu.
- Nododd 65.5% o ymatebwyr y sector gwasanaethau, sy'n fwy na'r nifer gyfanredol o 51.3%, na ddyrannwyd unrhyw wariant i TGCh yn ystod 2003 – o gymharu â 96.1% o ymatebwyr y sector cludiant a nododd y dyrannwyd gwariant mawr neu fach i TGCh.
- Yn gyffredinol, gyda nifer gyfanredol o 11.4% ar gyfer 'dim gwariant', lleiafrif o'r ymatebwyr yn unig nad ydynt yn dyrannu cyfran o'r trosiant blynyddol i 'offer newydd'. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl y math o fusnes o hyd (er enghraifft, ni nododd unrhyw un o ymatebwyr y sector elusennol/ cymdeithasol 'na ddyrannwyd' unrhyw wariant i offer newydd, ond roedd hyn yn wir am 20.7% o ymatebwyr adwerthu).
- Tra bod mwyafrif y mathau o fusnes yn dangos tueddiadau sy'n debyg i'r nifer gyfanredol ar gyfer gwariant ar recriwtio cyflogeion, ychydig o amrywio a geir yn achos ymatebwyr y sector gwasanaethau (lle nododd 67.9% na ddyrennir unrhyw wariant) a busnesau elusennol/ cymdeithasol (lle nododd

9.3% yn unig na ddyrannwyd unrhyw wariant). Mae hyn yn cymharu â nifer gyfanredol o 49.9% ar gyfer 'dim gwariant'.

- Ceir hefyd amrywiadau ar bob pegwn ar gyfer y gwariant ar farchnata/ hysbysebu. Ar un pegwn, nododd 48.2% o ymatebwyr cludiant na fu unrhyw wariant ar farchnata/ hysbysebu, dim ond 6.9% o ymatebwyr y sector gwasanaethau a nododd bod yr un peth yn wir (o gymharu â nifer gyfanredol o 20.0%).
- Yn wrthgyferbyniol i nifer gyfanredol o 43.7% ar gyfer dim gwariant ar hyfforddi cyflogeion yn ystod 2003, dim ond 3% o fusnesau elusennol/ cymdeithasol a nododd na ddyrennir unrhyw wariant, o gymharu â 69.2% o ymatebwyr cludiant.
- Ceir amrywiad eang yn ffactor buddsoddiad mewn datblygu cynnyrch drwyddi draw. Ar y ddau begwn, nododd 0.0% o ymatebwyr eiddo tiriog o gymharu â 76.0% o fusnesau cludiant 'dim gwariant' ar yr elfen hon (o gymharu â nifer gyfanredol o 52.9%).

*Cofrestru ar gyfer TAW:*

- Dim ond tri amrywiad amlwg a geir i'r nifer gyfanredol ar gyfer cofrestru ar gyfer TAW (74.5%). Busnesau elusennol/ cymdeithasol (3.4%), gwasanaethau (32.1%) ac iechyd a harddwch (40.0%)oedd y rhain.

### *5.1.5 Adran 5 – Nodweddion Cwsmeriaid a Chyflenwyr*

*Pa mor bell yw'r cyflenwyr oddi wrth safle'r busnes*:

- Ceir amrywiaeth eang rhwng y mathau o ymatebwyr busnes o ran pa mor bell ydynt oddi wrth gyflenwyr. Er enghraifft, er mai dim ond 31.2% o gyflenwyr iechyd a harddwch a leolir llai na 30 cilometr oddi wrth safle'r busnes, mae'r un peth yn wir am 78.4% o gyflenwyr adeiladu. Yn yr un modd, tra bod y nifer gyfanredol ar gyfer cyflenwyr sydd rhwng 30 a 100 cilometr o safle'r busnes yn 60.6%, dim ond 33.3% o ymatebwyr gwasanaethau a nododd bod hyn yn wir am rywfaint o'r cyflenwyr neu eu cyflenwyr i gyd.
- Er bod y nifer gyfanredol ar gyfer busnesau â chyflenwyr y tu allan i'r DU yn 18%, nid oes gan unrhyw fusnesau elusennol/ cymdeithasol gyflenwyr ar y pellter hwn, a dim ond 2.7% o fusnesau llety, bwyd a diod a 3.3% o ddarparwyr gwasanaethau sydd â chyflenwyr ar y pellter hwn.

*Pa mor bell yw'r cwsmeriaid oddi wrth safle'r busnes:*

- O ran pa mor bell yw cwsmeriaid oddi wrth safle'r busnes, y sector sydd â'r lleiaf o'r cwsmeriaid o fewn 30 cilometr i safle'r busnes yw cludiant (63.3% yn erbyn nifer gyfanredol o 88.8%). 28.1% yn unig o fusnesau elusennol/ cymdeithasol a 46.7% o fusnesau gwasanaethau sydd â chwsmeriaid sydd o fewn 30 a 100 cilometr i safle'r busnes (gyda'r nifer gyfanredol yn 72.8%). Ceir amrywiad eang hefyd o ran y busnesau hynny sydd â chwsmeriaid sydd fwy na 100 cilometr i ffwrdd a/ neu y tu allan i'r DU. Er enghraifft, tra bod gan 71.5% o weithgynhyrchwyr gwsmeriaid sydd ymhellach na 100 cilometr i ffwrdd, mae'r un peth yn wir am 26.5% yn unig o ymatebwyr adeiladu. Yn yr un modd, tra bod gan 38.5% o weithgynhyrchwyr gwsmeriaid wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, 2.7% yn unig o ymatebwyr y diwydiant gwasanaethau amaethyddol a nododd yr un peth.

*Canran y gwerthiant a gynhyrchir gan wahanol fathau o gwsmeriaid:*

- Er mai'r nifer gyfanredol ar gyfer y gwerthiant a gynhyrchir gan gwsmeriaid a chartrefi preifat yw 90.4%, mae'r ffynhonnell hon yn cyfrif am 56.6% yn unig o werthiant cludiant. Yn wrthgyferbyniol, tra bod y nifer gyfanredol ar gyfer y gwerthiant a gynhyrchir oddi wrth siopau yn 24.6%, yn achos y gweithgynhyrchwyr, mae hyn yn cyfrif am 41.0% o werthiant. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae'r ffynhonnell hon yn cyfrif am 6.5% yn unig o'r gwerthiant iechyd a harddwch.
- 10.0% yn unig o werthiant iechyd a harddwch a gynhyrchir gan fusnesau bach (ac eithrio siopau), o gymharu â 50.0% o werthiant adeiladu. Yn achos busnesau mwy (eto ac eithrio siopau), mae gweithgynhyrchwyr yn cyfrif am y nifer fwyaf o werthiannau (46.2%, yn erbyn nifer gyfanredol o 27.3%).
- Mae adeiladu yn cyfrif am y nifer uchaf o bellffordd o'r gwerthiant sector cyhoeddus (58.8% o gymharu â nifer gyfanredol o 31.7%), tra bod gweithgynhyrchwyr yn cyfrif am fwyafrif y gwerthiant a gynhyrchir gan gyfanwerthwyr/ dosbarthwyr (38.5% o gymharu â 10.2%).
- Ac eithrio diwydiannau gwasanaethau amaethyddol (15.4%), busnesau elusennol/ cymdeithasol (15.6%) a chyfanwerthwyr (11.8%), mae gwerthiant o ffynonellau 'eraill' yn digwydd mewn llai na 10% o achosion ar gyfer pob math o fusnes.

*Dulliau o gyfathrebu ar gyfer creu/ cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid*:

- Ceir amrywiaeth eang ar draws y mathau o fusnes o ran defnyddio ymweliadau personol ar gyfer cynnal cysylltiadau. Defnyddir y dull hwn yn rheolaidd, er enghraifft, gan 34.9% yn unig o fusnesau llety, bwyd a diod, ond gan 85.7% o ymatebwyr eiddo tiriog.
- Ar gyfer y mwyafrif o fathau o fusnes, defnyddir y ffôn/ ffacs yn rheolaidd mewn mwy na 70% o achosion (gan ehangu i 95.5% yn achos eiddo tiriog). Un eithriad fodd bynnag, yw adwerthu (61.9% yn erbyn nifer gyfanredol o 74.4%).
- Mae defnydd rheolaidd o'r rhyngrwyd ar gyfer creu/ cynnal cysylltiadau yn gyffredinol yn isel iawn (yn unol â nifer gyfanredol o 20.0%). Fodd bynnag, defnyddir y dull hwn gan 68.4% o ymatebwyr eiddo tiriog. Yn yr un modd, mae ymatebwyr eiddo tiriog hefyd ar y blaen ymhell wrth ddefnyddio e-bost yn rheolaidd (73.7% o gymharu â nifer gyfanredol o 22.7%).
- Er bod defnyddio'r 'post' yn aml yn gyffredinol debyg i'r nifer gyfanredol sef 52.5%, ceir amrywiaeth eang o hyd ar y ddau begwn (38.1% o ymatebwyr adwerthu yn erbyn 100% ymatebwyr eiddo tiriog).

*Dulliau o gyfathrebu ar gyfer cynnal cysylltiadau â chyflenwyr:*

- Mae'r defnydd o 'ymweliadau personol' yn debyg ar draws yr holl fathau o fusnes. Mae'r un peth yn wir hefyd am ffôn/ ffacs (sydd, â nifer gyfanredol o 85.8% ar gyfer 'defnydd rheolaidd' yn gyffredinol yn uchel – yn enwedig yn achos ymatebwyr eiddo tiriog (100%)).
- Ac eithrio'r pegynau (dim ond 0.8% o ymatebwyr llety, bwyd a diod, o gymharu â 43.8% o ymatebwyr eiddo tiriog), mae defnydd rheolaidd o'r rhyngrwyd ar gyfer cyfathrebu â chyflenwyr ar gyfer y mwyafrif yn cydymffurfio â'r nifer gyfanredol o 17.5%. Gwelir patrwm tebyg hefyd o ran

defnydd rheolaidd o'r e-bost (er enghraifft, 12.5% o ymatebwyr cludiant yn erbyn 40.0% o weithgynhyrchwyr, o gymharu â nifer gyfanredol o 21.4%).
- Er mai'r nifer gyfanredol ar gyfer defnyddio'r 'post' wrth gynnal cyswllt rheolaidd yw 56.0%, defnyddir y dull hwn o gyfathrebu yn rheolaidd gan 2.6% yn unig o ddiwydiannau gwasanaethau amaethyddol (er bod 63.1% bellach yn ei ddefnyddio'n 'llai aml'). Yn wrthgyferbyniol, mae 76.5% o ymatebwyr eiddo tiriog yn defnyddio'r ffurf hon o gysylltu yn rheolaidd.

*Y dulliau a ddefnyddir i farchnata a hysbysebu cynnyrch/ recriwtio cyflogeion:*
- Yn gyffredinol, mae defnydd y dulliau ar gyfer marchnata/ hysbysebu nwyddau yn dangos tueddiadau tebyg ar draws yr holl fathau o fusnes. Fodd bynnag, ceir amrywiadau yn achos defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer marchnata/ hysbysebu nwyddau. Er enghraifft, er bod y nifer gyfanredol ar gyfer y dull hwn yn 28.7%, fe'i defnyddir gan 78.3% o ymatebwyr eiddo tiriog, ac eto dim ond 10% o ymatebwyr cludiant sy'n defnyddio'r dull hwn.

*Defnyddio'r rhyngrwyd i farchnata nwyddau:*
- Ceir amrywiadau eang o ran y gallu i weld cynnyrch ar-lein. Er mai'r nifer gyfanredol am hyn yw 37.4%, mae'r canrannau yn ôl y math o fusnes yn amrywio o 16.7% ar gyfer ymatebwyr cludiant, i 73.9% ar gyfer eiddo tiriog. Yn yr un modd, ceir hefyd amrywiadau eang yn y gallu i 'archebu cynnyrch ar-lein' a/ neu brynu cynnyrch ar-lein. Er enghraifft, o ran archebu, gellir cymharu cyfanred o 21.8% i frig o 38.4% ar gyfer ymatebwyr gweithgynhyrchu a phant of 3.3% ar gyfer ymatebwyr gwasanaethau); yn achos prynu, gellir prynu cynnyrch 90.0% o ymatebwyr cludiant a 93.3% o fusnesau gwasanaethau ar-lein, o gymharu â chyfanred o 14.7%.

*Rhwystrau yn hyrwyddo/ cyfyngu ar arloesedd cynnyrch:*
- Ac eithrio'r ymatebwyr yn y sector eiddo tiriog (40.0%) yn achos pob math o fusnes, nid yw mwyafrif yr ymatebwyr yn gweld perthnasedd 'argaeledd gwybodaeth dechnolegol/ gwybodaeth am y farchnad' wrth hyrwyddo/ cyfyngu ar arloesedd cynnyrch. Yn achos 'cydweithio â busnesau eraill' mae'r un peth yn wir am yr holl fathau o fusnes.
- Yn achos y 'gweithlu medrus' yn hyrwyddo/ cyfyngu ar y busnes, ac eithrio gwaith elusennol/ cymdeithasol (25.8%) mae'r mathau eraill o fusnes yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r cyfanred ar gyfer 'amherthnasol' (52.1%). Mae'r un peth yn wir am 'argaeledd arian'.
- Yn achos effaith y rheoleiddio/ safonau, gwelwyd ystod gymharol eang o amrywio ledled y mathau o fusnes - o 0.0% o fusnesau gwasanaethau yn ystyried nad yw rheoliadau/ safonau yn berthnasol, i 52.3% o ymatebwyr adwerthu yn ystyried nad ydynt yn berthnasol. Gwelwyd amrywiadau hyd yn oed yn fwy eithafol yn achos 'ymatebed cwsmeriaid' - gyda 0.0% o ymatebwyr eiddo tiriog yn ystyried nad yw'r ffactor hwn yn berthnasol, o gymharu â 78.3% o ymatebwyr y sector gwasanaethau (yn erbyn cyfanred o 50.8%).

### *5.1.6 Adran 6 – Nodweddion Cyflogeion*

*Problemau o ran recriwtio cyflogeion:*

- Ac eithrio'r busnesau elusennol/ cymdeithasol (87.1%), nid oedd y canran o fusnesau a oedd yn cael anawsterau wrth recriwtio yn dibynnu ar y math, i raddau helaeth. O ran manylion penodol y problemau recriwtio:
  - Ceir amrywio eang yn achos y broblem o ddiffyg ymgeiswyr (sef problem ar gyfer 37.5% yn unig o fusnesau yn y sector gwasanaethau, ond ar gyfer 81.0% o fusnesau 'llety, bwyd a diod' (yn erbyn cyfanred o 62.3%)). Gwelir tueddiadau tebyg yn y problemau a gafwyd o ganlyniad i 'ddiffyg hyfforddiant academaidd/ proffesiynol priodol yr ymgeiswyr'
  - Ceir rhywfaint o amrywio yn 'niffyg profiad gwaith priodol yr ymgeiswyr' (er enghraifft, yn broblem i 83.6% o ymatebwyr adeiladu, yn erbyn 50.0% o ymatebwyr llety, bwyd a diod (o gymharu â chyfanred o 65.7%))
  - Ac eithrio ymatebwyr y sectorau cludiant a gwasanaethau (nad oedd yr un ohonynt wedi nodi bod hyn yn broblem), roedd mwyafrif y mathau o fusnes yn cydymffurfio â'r cyfanred o 15.8% ar gyfer 'diffyg sgiliau siarad/ ysgrifennu Saesneg yr ymgeiswyr'.
  - Ceir amrywio yn yr eithafion o ran bod gan yr ymgeiswyr y sgiliau siarad/ ysgrifennu Cymraeg priodol (â'r un o ymatebwyr y cyfanwerthwyr neu'r sector gwasanaethau yn nodi bod hyn yn broblem, ac eto 27.3% o fusnesau eiddo tiriog yn nodi ei fod yn broblem (yn erbyn cyfanred o 9.5%)).
  - Ac eithrio'r busnesau gwasanaethau (12.5%), cludiant (13.3%) ac elusennol/ cymdeithasol (48.1), mae mwyafrif y mathau o fusnes yn cydymffurfio'n agos â'r cyfanred o 31.5% ar gyfer nodi bod 'ymgeiswyr yn methu gyrru/ dibynnu ar gludiant cyhoeddus' yn broblem o ran recriwtio.

*O ble y caiff y cyflogeion eu recriwtio:*

- Ac eithrio ymatebwyr gwaith elusennol/ cymdeithasol, ym mwyafrif yr achosion, nid oedd y math o fusnes yn pennu o ble y caiff cyflogeion eu recriwtio. Un eithriad bach, fodd bynnag, yw yn achos recriwtio cyflogeion o'r tu allan i Gymru – lle y gwrthgyferbynnir y cyfanred o 5.8% â sgôr o 16.7% ar gyfer gweithgynhyrchwyr.

*Pa mor bell yw'r cyflogeion oddi wrth y safle busnes:*

- Ym mwyafrif yr achosion, ymddengys nad yw'r math o fusnes yn dylanwadu ar ba mor bell yw'r cyflogeion o'r safle busnes. Ceir, fodd bynnag, ychydig o amrywiadau bach sydd yn werth eu hystyried. Er enghraifft, mae gan 33.6% o fusnesau llety, bwyd a diod gyflogeion sy'n byw ar y safle, o gymharu â dim ond 13.3% o weithwyr cludiant (yn erbyn cyfanred o 20.5%). Hefyd, mae gan 29.5% o fusnesau gweithgynhyrchu gyflogeion sy'n byw mwy nag 20 cilometr i ffwrdd, o gymharu â dim ond 6.7% o ymatebwyr y sector gwasanaethau (yn erbyn cyfanred o 15.6%)

*Rhwystrau i hyfforddiant cyflogeion:*

- Ac eithrio ymatebwyr gwaith elusennol/ cymdeithasol, ymddengys nad yw'r math o fusnes yn dylanwadu ar y rhwystrau a gafwyd i hyfforddiant cyflogeion. Er hyn, mae'n werth nodi, yn achos 'darpariaeth hyfforddi anaddas', ni chafodd unrhyw ymatebwyr yn y sector gwasanaethau bod hyn yn broblem (o gymharu â chyfanred o 14.3%). Yn ogystal, yn achos 'diffyg penodolrwydd yn y cyrsiau hyfforddi a gynigir', dim ond i 6.7% o fusnesau cludiant y bu hyn yn broblem, o gymharu â 33.3% o weithgynhyrchwyr (yn erbyn cyfanred o 17.8%).

## 5.2 Dadansoddiad yn ôl Maint y Busnes

Yn dilyn adolygiad cychwynnol o'r cynnwys, isrannwyd y brif set o ddata i chwe gwahanol gategori yn ôl maint y busnes[3] (gweler tabl 4.1.6-6a). Yn yr achos hwn, cafodd maint y busnes ei bennu yn ôl nifer presennol y cyflogeion a gyflogwyd gan y busnes. Roedd y categorïau a ddefnyddiwyd i fandio'r busnesau yn ôl nifer y cyflogeion fel a ganlyn:

- 1 – 4 o gyflogeion
- 5 – 9 o gyflogeion
- 10 – 24 o gyflogeion
- 25 – 49 o gyflogeion
- 50 – 99 o gyflogeion
- 100 – 249 o gyflogeion.

Wrth benderfynu ar set priodol o fandiau maint, ystyriwyd nifer o ffactorau;

- Yr ystod o feintiau busnes yr oedd ymatebwyr yr arolwg yn cyfrif amdanynt[4]
- Diffiniad yr Adran Masnach a Diwydiant o fandiau nifer y cyflogeion[5]
- Dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) o fandiau nifer y cyflogeion[6]
- Diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o fandiau nifer y cyflogeion [7]

Mae'r canlyniadau ar gyfer y busnesau a ddadansoddwyd yn ôl eu 'maint', o gymharu â set y data cyfanredol, fel a ganlyn:

---

[3] Nid oes yr un diffiniad cydnabyddedig o'r hyn sy'n pennu'r union faint (er enghraifft, meicro, bach, canolig, mawr), yn bennaf o achos amrywiaeth eang y busnesau (am drafodaeth fanylach, gweler 'Gwasanaeth Busnesau Bach' (http://www.sbs.gov.uk))

[4] Roedd ymatebwyr yr arolwg yn amrywio o unig fasnachwys i fusnesau â 200 o gyflogeion

[5]Mae'r Adran Masnach a Diwydiant fel arfer yn defnyddio'r diffiniadau canlynol ar gyfer pennu busnesau yn ôl bandiau nifer y cyflogeion:

- meicro gwmni: 0 - 9 o gyflogeion
- cwmni bach: 0 - 49 o gyflogeion (yn cynnwys meicro)
- cwmni canolig: 50 - 249 o gyflogeion
- cwmni mawr: dros 250 o gyflogeion

(Am fwy o wybodaeth, gweler http://www.sbs.gov.uk/analytical/statistics/smedefs.php)

[6] Bandiau nifer y cyflogeion yr ONS yw; 1-10 o gyflogeion; 11-49 o gyflogeion; 50-199 o gyflogeion; 200 neu fwy o gyflogeion (am fwy o wybodaeth, gweler http://www.statistics.gov.uk/)

[7] Ym 1996, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd gyfathrebiad yn pennu diffiniad unigol o Fusnesau Bach a Chanolig (SMEau). Diweddarwyd hwn yn 2003 (2003/361/EC) a daw i rym ym mis Ionawr 2005. Diffiniad y CE o feintiau'r bandiau yw: meicro < 10 o gyflogeion; bach <50 o gyflogeion; canolig < 250 o gyflogeion (gweler http://europa.eu.int)

### 5.2.1 Adran 1 – Proffil y Busnes

*Y flwyddyn y Sefydlwyd y Busnes:*

- Er, ym mwyafrif yr achosion, bod y cyfanred ar gyfer y gwahanol gyfnodau amser yn aros yn debyg i'r un ar gyfer nifer y busnesau a sefydlwyd yn ôl maint y busnes; gellir gweld dau dueddiad cyffredinol:
  - Sefydlwyd y mwyafrif o fusnesau â llai na 50 o gyflogeion rhwng 1950 a 1999.
  - Yn achos busnesau â mwy na 50 o gyflogeion, sefydlwyd y mwyafrif rhwng 1900 a 1990.

*Y canran o fusnesau teulu:*

- Gellir gweld rhywfaint o gydberthynas wrthdro rhwng canfyddiadau o'r busnes fel busnes teulu a nifer y cyflogeion.

*Perchnogaeth y busnes:*

- Ni cheir unrhyw amrywiaeth wirioneddol rhwng perchnogaeth gyfanred safle busnes a meintiau busnes unigol.

### 5.2.2 Adran 2 – Proffil y Perchennog

*Oed y Perchennog:*

- Yn wrthgyferbyniol i'r cyfanred, ni cheir unrhyw berchnogion busnes yn y bandiau maint â 50 neu fwy o gyflogeion, sy'n iau na 40 mlwydd oed. Tra bod mwyafrif perchnogion busnesau â 50-99 o gyflogeion rhwng 40 a 64 oed (94.7% o gymharu â chyfanred o 79.3%), mae lleiafrif mawr o berchnogion busnesau sydd â 100+ o gyflogeion yn 65 oed neu'n hŷn (16.7% o gymharu â chyfanred o 8.8%).

*Llwybr y perchennog presennol i mewn i'r busnes:*

- Ac eithrio nifer llai na'r cyfanred o berchnogion busnesau 100+ a ddaeth yn rhan o'u busnes presennol drwy ei brynu (14.3% yn erbyn cyfanred o 26.8%), yn y mwyafrif o achosion, roedd cydberthynas agos iawn rhwng y ffigurau ar gyfer y cyfanred a maint busnes unigol.

*Blwyddyn y daeth y perchennog presennol yn rhan o'r busnes:*

- Daeth nifer fawr o berchnogion busnesau 100+ yn rhan o'u busnes cyn 1950 (14.3% yn erbyn cyfanred o 0.9%). Mae'r un peth yn wir am fusnesau o faint 50-99 rhwng 1950 a 1979 (42.1% yn erbyn cyfanred o 20.2%). Yn wrthgyferbyniol, daeth nifer llai na'r cyfanred o'r perchnogion hyn yn rhan o'r busnes ers 1990.

*Oriau y mae'r perchennog yneu  gweithio bob dydd:*

- Tra bod mwyafrif uwch o berchnogion busnesau maint 50-99 (68.4%) a 100+ (77.7%) yn gweithio rhwng  9 ac 14 awr y dydd (o gymharu â chyfanred o 58.9%), yn achos perchnogion busnesau maint 25-49, mae canran sylweddol

uwch na'r cyfanred yn gweithio mwy na 15 awr y dydd (16.3%, yn erbyn cyfanred o 6.7%).

*Cymwysterau academaidd y perchennog:*

- Mae gan nifer uchel o berchnogion busnesau maint 50-99 a 100+ (23.5% a 28.6% yn y drefn honno, o gymharu â chyfanred o 9.2%) gymwysterau ôl-radd/ CGC lefel 5. Yn yr un modd, mae perchnogion busnesau 100+ hefyd ymhell ar y blaen o ran cymwysterau gradd CGC lefel 4 (57.1% yn erbyn cyfanred o 21.1%), tra nad oes gan yr un ohonynt gymhwyster llai na 'Lefel A/ CGC Lefel 3'.

*Perchnogion sy'n byw yn y Gymru wledig:*

- Ac eithrio perchnogion busnesau o faint 100+ (60.0%, yn erbyn cyfanred o 96.0%), mae'r cyfanred ar gyfer y perchnogion sy'n byw yn y Gymru wledig yn cyfateb yn agos i hwnnw ar gyfer meintiau busnes unigol.

*Y cyfnod o amser y mae'r perchnogion wedi byw yng Nghymru:*

- Ymddengys nad yw math o berchennog busnes (fel y pennwyd yn ôl eu maint) yn dylanwadu ar y patrymau ar gyfer y cyfnod o amser y mae'r perchnogion wedi byw yn y Gymru wledig

*Natur y ffaith bod y perchennog yn byw yn y Gymru wledig:*

- Mae perchnogion busnesau 100+ yn cyfrif am y nifer lleiaf o berchnogion a anwyd yng Nghymru (30.0% yn erbyn cyfanred o 52.0%) a/ neu sydd wedi byw yng Nghymru erioed (10.0% yn erbyn cyfanred o 24.9%).

*Noddi gweithgareddau, clybiau, timau a digwyddiadau lleol:*

- Ceir cydberthynas gadarnhaol rhwng maint y busnes â nawdd y perchennog o weithgareddau, clybiau, timau a digwyddiadau lleol.

### *5.2.3 - Lleoliad y Busnes*

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i leoli'r busnes yn y Gymru wledig:*

- Ymddengys nad yw maint y busnes yn dylanwadu ar farn yr ymatebwr o ran 'byw yno'n barod' fel ffactor yn dylanwadu ar y penderfyniad i leoli'r busnes yn y Gymru wledig. Gydag un eithriad ymysg ymatebwyr busnesau 100+, mae'r un peth yn wir am gost y safle (gyda 50.0% yn ystyried ei fod yn bwysig/ bwysig iawn yn erbyn cyfanred o 73.4%) ac 'agosrwydd i gyflenwyr' (a'r un o'r ymatebwyr 100+ yn ystyried bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, yn erbyn cyfanred o 27.7%).
- Yn achos agosrwydd i gyflenwyr, mae perchnogion busnesau 50-99 (50.0%) a pherchnogion busnes 100+ (57.1%) ar y blaen wrth ystyried nad yw hwn yn ffactor pwysig (o gymharu â chyfanred o 33.3%).
- Ymddengys nad yw maint y busnes yn dylanwadu ar y canfyddiadau am agosrwydd i ddefnyddwyr/ marchnadoedd, nac ansawdd yr amgylchedd. Yn ogystal, yn achos dewis dull o fyw/ ymrwymiadau teulu, perchnogion busnes

100+ yw'r unig eithriadau gwirioneddol i'r cyfanred o ran bod hwn yn ffactor pwysig/ pwysig iawn (62.5% yn erbyn cyfanred o 87.8%).

*Adleoli'r busnes y tu allan i Gymru:*

- Mae cyfran sylweddol uwch o berchnogion busnes o fusnesau mwy o faint wedi ystyried adleoli, na'r rhai o gwmnïau llai o faint (er enghraifft, 10.2% o berchnogion busnesau 1-4, yn erbyn 31.3% o berchnogion busnesau 25-49).

*Mynediad/ agosrwydd at fusnes:*

- Ceir perthynas wrthdro amlwg rhwng maint y busnes a mesur mynediad/ agosrwydd i weithlu cymwys/ medrus fel gwael/ gwael iawn (er enghraifft 17.5% o berchnogion busnesau o faint 1-4 o gymharu â 55.5% o berchnogion busnesau 100+).
- Yn achos mynediad/ agosrwydd i gwsmeriaid, ac eithrio ymatebwyr busnesau maint 100+ (y mae 33.3% ohonynt yn canfod bod hyn yn wael/ wael iawn, o gymharu â chyfanred o 5.0%), ymddengys nad yw maint y busnes yn dylanwadu yn sylweddol ar hyn. Yn yr un modd, ymddengys nad yw maint y busnes yn chwarae rôl wrth ddylanwadu ar ganfyddiadau'r ymatebwyr o ran mynediad/ agosrwydd i gyflenwyr.
- Yn achos agosrwydd i gystadleuwyr, ac eithrio busnesau o faint 100+ (y mae 33.3% ohonynt yn ystyried bod hyn yn wael/ wael iawn, yn erbyn cyfanred o 8.4%), ymddengys nad yw maint y busnes yn chwarae rôl mewn dylanwadu ar ganfyddiad yr ymatebwr
- Ceir amrywio ehangach (heb unrhyw batrwm clir) rhwng meintiau busnes yn achos mynediad/ agosrwydd at ddiwydiannau gwasanaethau busnes (er enghraifft, mae 11.2% o ymatebwyr busnesau 100+ yn gweld bod hyn yn beth da/ da iawn, yn erbyn 65.0% o berchnogion busnes 50-99 a chyfanred o 34.3%). Mae ystod debyg o amrywiaeth i'w gweld yn achos mynediad/ agosrwydd at sefydliadau ymchwil (er enghraifft, 0.0% o ymatebwyr busnesau 100+ yn erbyn 38.4% o ymatebwyr busnes o faint 10-24 a chyfanred o 28.7%).

### *5.2.4 - Strategaeth Fusnes*

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i ddechrau/ meddiannu'r busnes:*

- Mewn nifer o achosion, gellir gweld patrymau o gydberthynas wrthdro rhwng maint y busnes a phwysigrwydd gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i ddechrau/ meddiannu'r busnes. Er enghraifft:
    - Yn achos 'cael swydd a fydd yn cydweddu â chyfrifoldeb domestig', tra bod 50.2% o ymatebwyr busnesau maint 1-4 yn gweld bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, dim ond 35.0% o fusnesau maint 50-99 sydd o'r un farn, a'r un o ymatebwyr y busnesau 100+.
    - Yn achos 'cael mwy o amser hamdden', mae 21.3% o fusnesau o faint 1-4 yn canfod bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, ond dim ond 10.0% o fusnesau maint 50-99 oedd o'r un farn ac nid oedd yr un o ymatebwyr busnesau maint 100+ o'r un farn.
    - O ran dianc oddi wrth gyflogaeth, mae 39.4% o fusnesau maint 1-4 sy'n canfod bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, yn erbyn 20.0% yn unig o fusnesau maint 50-99 ac 11.1% o ymatebwyr busnesau maint 100+.

    - Yn achos 'gallu gwneud y math hwn o waith tra'n byw mewn lleoliad gwledig', cred 41.9% o fusnesau maint 1-4 bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, ond dim ond 11.1% o ymatebwyr busnesau 100+ sy'n credu ei fod yr un mor bwysig.
    - Ac eithrio busnesau maint 25-49 (17.8%), nododd 19.0% o fusnesau maint 1-4 bod 'galwedigaeth yn dilyn ymddeol/ ymddeol yn rhannol' yn ffactor bwysig/ bwysig iawn, o gymharu â 5.0% yn unig o fusnesau maint 50-99 a 0.0% o fusnesau maint 100+.
- Er bod y mwyafrif o fusnesau yn cydymffurfio'n agos â'r cyfanred o 41.1% o ran credu bod 'rhyddid i ddefnyddio dulliau traddodiadol' yn ffactor pwysig/ pwysig iawn, mae dau eithriad i hyn, sef busnesau maint 50-99 (25.0%) a busnesau maint 100+ (0.0%).
- Yn achos 'cynnal busnes y teulu', 'sefydlu ffynhonnell incwm bach neu ychwanegol', 'manteisio ar hyfforddiant/ sgiliau', 'manteisio ar gyfle yn y farchnad' a, 'datblygu diddordeb personol', ymddengys nad yw maint y busnes wedi dylanwadu ar ganfyddiad yr ymatebwr o bwysigrwydd y ffactorau hyn. Ac eithrio busnesau maint 100+ (44.4% o gymharu â chyfanred o 75.3%), mae'r un peth yn wir am 'gymryd yr her o redeg busnes'. Yn yr un modd, ychydig o amrywiaeth a welir rhwng meintiau unigol y busnesau a'r cyfanred ar gyfer ffactor 'darparu prif ffynhonnell incwm'.

*Rhagfynegiadau am faint y busnes dros y 5 mlynedd nesaf:*

- Ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a'r ymatebwyr hynny sy'n rhagfynegi cynnydd yn 'nifer y cyflogeion', 'trosiant blynyddol', 'maint y farchnad' a 'maint y safle busnes'. Fodd bynnag, yn achos cynnydd yn 'ystod y cynnyrch', ymddengys nad yw maint y busnes yn ffactor dylanwadol. Ac eithrio busnesau maint 100+ (88.9% o gymharu â chyfanred o 63.9%), mae'r un peth yn wir am ragfynegiadau o gynnydd mewn 'elw blynyddol'.

*Pa mor ddymunol yw twf y busnes:*

- Ceir cydberthynas hanfodol negyddol rhwng maint y busnes a'r ymatebwyr busnes hynny nad oes ganddynt 'yn bendant ddim' diddordeb mewn ehangu'r busnes (er enghraifft, 32.1% o fusnesau maint 1-4, o gymharu â dim ond 5.0% o fusnesau maint 50-99 a 0.0% o fusnesau maint 100+). Yn yr un modd, ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol o ran yr ymatebwyr hynny a fyddai'n 'bendant yn dymuno' i'r busnes dyfu (er enghraifft, 66.5% o fusnesau maint 1-4, o gymharu â 80.0% o fusnesau maint 50-99 a 100% o fusnesau maint 100+) a'r ymatebwyr hynny a 'fyddai'n ystyried' ehangu'r busnes (er enghraifft, 53.8% o fusnesau maint 1-4, o gymharu â 90.0% o fusnesau maint 50-99).

*Y ffactorau y nodwyd eu bod yn cyfyngu ar y busnes:*

- O ran 'diffyg gweithlu addas/ hygyrch' ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng y ffactor hwn a maint y busnes. Fodd bynnag, ymddengys nad yw maint y busnes yn chwarae rôl mewn dylanwadu ar ganfyddiadau'r ymatebwyr o ran 'diffyg arian/ parodrwydd i fenthyg', 'problemau hygyrchedd â'r cyflenwyr/ defnyddwyr', 'materion o ran dull o fyw', neu 'cyfyngiadau cynllunio/ maint y safle' fel cyfyngiadau ar y busnes.

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes:*

- Ac eithrio busnesau maint 100+ (55.6% o gymharu â chyfanred o 87.9%), ymddengys nad yw maint y busnes yn dylanwadu ar ganfyddiadau'r ymatebwr o bwysigrwydd lleoliad wrth ddylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes. Ymddengys nad yw chwaith yn ffactor sy'n dylanwadu yn achos 'pa mor bwysig yw mynediad at wybodaeth'. Fodd bynnag, ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a'r ffactorau sy'n dylanwadu, yn achos 'pa mor bwysig yw gallu technegol' (a nodwyd, er enghraifft, yn bwysig/ bwysig iawn gan 35.6% yn unig o ymatebwyr busnesau maint 1-4, ond 60.0% o ymatebwyr busnes 50-99 a 88.9% o ymatebwyr busnes maint 100+ sized).
- Ac eithrio busnesau maint 1-4 (70.3%), yn achos busnesau o bob maint, ystyrir bod 'sgiliau/ gwybodaeth y rheolwyr a'r gweithlu' yn bwysig/ bwysig iawn gan fwy na 90% o'r ymatebwyr. Fodd bynnag, ceir cydberthynas hanfodol wrthdro rhwng maint y busnes a 'chyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu a/ neu gysylltiadau busnes' fel dylanwad pwysig/ pwysig iawn ar berfformiad cyffredinol y busnes (er enghraifft, 69.1% o fusnesau maint 1-4, o gymharu â 50.0% o ymatebwyr busnesau maint 50-99 a 44.4% o ymatebwyr busnesau maint 100+).

*Cydweithredu Busnes:*

- Yn gyffredinol, ymddengys nad yw maint y busnes yn dylanwadu ar ganfyddiadau o'r ffactorau sy'n rhwystro/ annog busnesau lleol i beidio â chydweithredu.

*Ansawdd y cyngor/ cymorth busnes:*

- Yn gyffredinol, ceir cydberthynas hanfodol negyddol rhwng maint y busnes, a'r ymatebwyr hynny 'nad ydynt erioed' wedi defnyddio'r cymorth/ cyngor a gynigir gan yr ystod o wahanol asiantaethau, undebau, a sefydliadau. Mewn gwrthgyferbyniad, fodd bynnag, ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes ac ansawdd y cymorth/ cyngor a ystyrir yn dda/ dda iawn ar gyfer cyrff cyhoeddus cenedlaethol (er enghraifft, 10.6% o fusnesau maint 1-4 o gymharu â 30.0% o fusnesau maint 50-99 a 44.4% o fusnesau maint 100+) ac asiantaethau menter (er enghraifft, 10.5% o fusnesau maint 1-4 o gymharu â 20.0% o fusnesau maint 50-99 a 33.3% o fusnesau maint 100+). Ymddengys nad yw maint y busnes mor ddylanwadol yn achos yr awdurdodau lleol ac undebau/ siambrau. Ac eithrio busnesau maint 100+ (44.4% o gymharu â chyfanred o 24.2%), dyma yw'r achos hefyd ar gyfer tueddiadau tebyg o ran ystyried cymorth/ cyngor y sefydliadau masnach yn 'dda/ dda iawn'.

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y busnes:*

- Ymddengys nad yw maint y busnes yn ffactor sy'n chwarae rôl allweddol mewn newid canfyddiadau'r ymatebwr o bwysigrwydd (uchel) ymddiriedaeth, dibynadwyedd, gofal cwsmeriaid, boddhad â'r cynnyrch ac enw da.

*Ailfuddsoddi trosiant blynyddol yn ystod 2003:*

- Ceir cydberthynas wrthdro rhwng maint y busnes a chanran y busnesau sy'n dyrannu 'dim gwariant' i ymchwil a datblygu, TGCh, offer newydd, recriwtio cyflogeion, hyfforddi cyflogeion a/ neu ddatblygu cynnyrch. Ymddengys

mai'r unig ffactor nad yw maint y busnes yn dylanwadu arno yw'r trosiant blynyddol a gaiff ei wario ar farchnata/ hysbysebu

*Cofrestru ar gyfer TAW:*

- Ceir amrywiaeth gymharol eang o ran y canran sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW yn ôl maint y busnes (er enghraifft, 64.8% o fusnesau maint 1-4 o gymharu â 89.5% o fusnesau maint 50-99). Fodd bynnag, dim ond busnesau maint 1-4 sy'n syrthio'n is na ffigur y cyfanred, sef 74.5%.

***Adran 5.2.5 – Nodweddion Cwsmeriaid a Chyflenwyr***

*Pellter cyflenwyr a chwsmeriaid oddi wrth safle'r busnes:*

- Yn ei hanfod, ymddengys nad yw maint y busnes yn effeithio'n fawr ar y canran o fusnesau sydd â chyflenwyr ar wahanol bellteroedd i ffwrdd. Un eithriad sy'n werth ei nodi, fodd bynnag, yw'r nifer uwch na'r cyfanred o fusnesau maint 100+ sydd â chyflenwyr y tu allan i'r DU (50.0%, o gymharu â chyfanred o 18.0%).
- Yn achos y cwsmeriaid, i'r rhai sydd wedi eu lleoli 100 cilometr i ffwrdd neu lai, ni cheir unrhyw berthynas glir rhwng eu pellter a maint y busnes. Fodd bynnag, ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol yn achos cwsmeriaid sydd wedi'u lleoli mwy na 100 cilometr i ffwrdd (er enghraifft, yn cyfrif am rywfaint, neu'r holl gwsmeriaid ar gyfer 41.0% o fusnesau maint 1-4, ond 70.0% o fusnesau maint 100+) a/ neu y tu allan i'r DU (er enghraifft, yn cyfrif am 18.0% o fusnesau maint 1-4, ond 50.0% o fusnesau maint 100+).

*Canran y gwerthiant a gynhyrchir gan wahanol fathau o gwsmer:*

- Yn achos y gwerthiant a gynhyrchir gan gwsmeriaid preifat, nid yw maint y busnes i'w weld yn chwarae rôl ond ar ben uchaf y raddfa - lle mae cydberthynas negyddol yn ymddangos (65.0% ar gyfer busnesau maint 50-99 a 60.0% ar gyfer busnesau maint 100+, o gymharu â chyfanred o 90.4%). Ni cheir unrhyw berthynas glir rhwng maint y busnes a'r gwerthiant sy'n deillio o naill ai siopau neu fusnesau bach (ac eithrio siopau). Mae'r un peth yn wir am gyfanwerthwyr/ dosbarthwyr a ffynonellau 'eraill' gwerthiant. Fodd bynnag, yn achos busnesau mwy (ac eithrio siopau) a'r sector cyhoeddus, ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol.

*Dulliau o gyfathrebu ar gyfer creu/ cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid a chyflenwyr:*

- Ni welir unrhyw gydberthynas glir rhwng naill ai defnydd o ymweliadau personol na'r defnydd o'r ffôn/ ffacs ar gyfer cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid. Fodd bynnag, ymddengys fod cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a defnydd o'r rhyngrwyd (er enghraifft, 16.3% o fusnesau maint 1-4, o gymharu â 41.2% o fusnesau maint 50-99), e-bost (er enghraifft, 18.9% o fusnesau maint 1-4, yn erbyn 52.9% o fusnesau maint 50-99) a'r post (er enghraifft, 45.0% o fusnesau maint 1-4, yn erbyn 82.4% o fusnesau maint 50-99).
- Ni cheir unrhyw gydberthynas glir rhwng maint y busnes a defnyddio ymweliadau personol ar gyfer cynnal cysylltiadau â chyflenwyr. Ceir tystiolaeth o berthynas hanfodol gadarnhaol, fodd bynnag, rhwng maint y

busnes a defnydd o'r ffôn/ ffacs (er enghraifft, 81.1% o fusnesau maint 1-4 yn erbyn 94.4% o fusnesau maint 50-99), e-bost (er enghraifft, 15.5% o fusnesau maint 1-4 yn erbyn 77.8% o fusnesau maint 100+) a'r post (er enghraifft, 48.8% o fusnesau maint 1-4, yn erbyn 77.8% o fusnesau maint 100+). Yn olaf, yn achos defnyddio'r rhyngrwyd i gynnal cysylltiadau â'r cyflenwyr, ymddengys fod hwn yn adnodd a ddefnyddir llai gan y busnesau hynny sydd â llai na 10 o gyflogeion (er enghraifft, 13.5% o fusnesau maint 1-4 o gymharu â 30.2% ar gyfer busnesau maint 25-49).

*Y dulliau a ddefnyddir i farchnata a hysbysebu cynnyrch a/ neu recriwtio cyflogeion:*

- Ymddengys nad oes unrhyw berthynas glir rhwng maint y busnes a defnydd o bapurau newydd lleol, papurau newydd cenedlaethol, neu radio/teledu lleol i farchnata/ hysbysebu nwyddau. Yn achos y rhyngrwyd, ymddengys y defnyddir yr adnodd hwn llai ar gyfer marchnata/ hysbysebu gan fusnesau â llai na 25 o gyflogeion, na'r rhai sydd â mwy (er enghraifft 22.1% o fusnesau maint 1-4, o gymharu â 65.0% o fusnesau maint 50-99). Mae cydberthynas hanfodol negyddol yn berthnasol i ddefnydd o air ar lafar/ teulu a ffrindiau i farchnata/ hysbysebu nwyddau (er enghraifft, 73.1% o fusnesau maint 1-4 o gymharu â 50.0% o fusnesau maint 100+). Mae'r un peth yn wir am fusnesau nad ydynt yn marchnata/ hysbysebu nwyddau (er enghraifft, 10.0% o fusnesau maint 1-4 yn erbyn 0.0% o fusnesau â 50 o gyflogeion neu fwy).
- Ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a defnydd o bapurau newydd lleol, papurau newydd cenedlaethol, radio/ teledu lleol a'r rhyngrwyd ar gyfer recriwtio cyflogeion. Yn achos gair ar lafar/ ffrindiau a theulu, fodd bynnag, ni welir unrhyw berthynas amlwg.
- Yn yr un modd â marchnata/ hysbysebu nwyddau, ceir cydberthynas hanfodol negyddol rhwng maint y busnes a dim defnydd o farchnata/ hysbysebu i recriwtio cyflogeion (er enghraifft, 19.3% o fusnesau maint 1-4, yn erbyn 0.0% o fusnesau â 50 o gyflogeion neu fwy).

*Defnydd o'r rhyngrwyd i farchnata nwyddau:*

- Ceir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a defnydd y rhyngrwyd i weld, prynu a/ neu archebu nwyddau ar-lein.

*Rhwystrau sy;'n hyrwyddo neu'n cyfyngu ar arloesedd cynnyrch yn y busnes:*

- Yn achos 'argaeledd gwybodaeth dechnegol/ gwybodaeth am y farchnad' a/ neu 'gweithlu medrus' gellir gweld cydberthynas gadarnhaol rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sy'n canfod bod hyn yn hyrwyddo arloesedd y cynnyrch. Yn ogystal, ceir cydberthynas negyddol rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr nad ydynt yn ystyried y ffactorau hyn yn berthnasol i arloesedd cynnyrch.
- Ymddengys nad oes unrhyw gydberthynas clir rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sy'n ystyried bod naill ai 'cydweithio â busnesau eraill', 'argaeledd arian' neu 'ymatebed cwsmeriaid' yn berthnasol (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) i arloesedd cynnyrch.
- Gwelir cydberthynas hanfodol negyddol yn yr ymatebwyr hynny sy'n ystyried 'effaith rheoliadau a safonau' yn 'amherthnasol' i arloesedd y cynnyrch, (er

enghraifft, 48.3% o fusnesau maint 1-4, yn erbyn 15.0% o fusnesau maint 50-99).

### *Adran 5.2.6 – Nodweddion Cyflogeion*

*Problemau o ran recriwtio cyflogeion:*

- Gwelir cydberthynas hanfodol gadarnhaol rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sydd wedi cael anawsterau wrth recriwtio cyflogeion. Er na ddangosir unrhyw batrwm clir rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sy'n cael problemau o ganlyniad i 'ddiffyg hyfforddiant academaidd/ proffesiynol yr ymgeiswyr', 'diffyg profiad gwaith priodol yr ymgeiswyr', 'diffyg sgiliau priodol o ran ysgrifennu/ siarad Saesneg yr ymgeiswyr' a/ neu 'diffyg sgiliau priodol o ran ysgrifennu/ siarad Cymraeg yr ymgeiswyr'; gwelir cydberthynas hanfodol gadarnhaol o ran 'diffyg ymgeiswyr' a/ neu 'ymgeiswyr yn methu gyrru/ yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus'.

*O ble y caiff y cyflogeion eu recriwtio:*

- Er na welir unrhyw gydberthynas glir rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sydd â chyflogeion yn byw ar y safle, gwelir cydberthynas gadarnhaol ar gyfer y rhai a gaiff eu recriwtio o 'rywle arall yng Nghymru', 'y tu allan i Gymru', a/ neu 'y tu allan i'r DU'.

*Pellter y cyflogeion oddi wrth y safle busnes:*

- Ni welir unrhyw gydberthynas glir rhwng maint y busnes a chanran y busnesau sydd â chyflogeion sy'n 'byw ar y safle' a/ neu yn byw lai na 5 cilometr o'r safle. Gwelir cydberthynas hanfodol gadarnhaol fodd bynnag, rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sydd â chyflogeion yn byw mwy na 5 cilometr ond llai na 10 cilometr o'r safle, mwy na 10 cilometr ond llai nag 20 cilometr o'r safle a/ neu'r rheiny sy'n byw ymhellach nag 20 cilometr i ffwrdd.

*Rhwystrau i hyfforddi cyflogeion:*

- O ran rhwystrau i hyfforddi cyflogeion, ni welir unrhyw gydberthynas glir rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr sydd wedi'u heffeithio gan 'dim digon o amser/ yr amser a gollir yn ystod hyfforddiant', 'darpariaeth hyfforddi anaddas' a/ neu 'methu mynd at y ddarpariaeth hyfforddi'. Ceir cydberthynas gadarnhaol fach, er hyn, rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr a oedd yn cael problemau o ran 'diffyg penodolrwydd yn y cyrsiau hyfforddi a gynigir' (er enghraifft, 10.8% o gyflogeion 1-4 o gymharu â 30.0% o gyflogeion 50-99). Yn achos 'cost', ymddengys fod hwn ar ei uchaf/ yn fwyaf perthnasol fel rhwystr a ganfyddir ar gyfer ymatebwyr busnesau maint 25-49.

## 5.3 Dadansoddiad yn ôl Lleoliad y Busnes

Yn dilyn adolygiad cychwynnol o'r cynnwys, isrannwyd y prif set o ddata i ddeuddeg gwahanol gategori o leoliad busnes, yn seiliedig ar ffiniau'r Awdurdodau Unedol (gweler Map 1). Mae'r rhain yn cynnwys Ynys Môn gyfan, Gwynedd, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Powys, Sir Fynwy, Conwy, Sir Ddinbych, a rhannau dethol (gwledig) o Wrecsam, Bro Morgannwg a Sir y Fflint.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y busnesau a ddadansoddir yn ôl 'lleoliad', o gymharu â set y data cyfanred, fel a ganlyn:

### *5.3.1 Adran 1 – Proffil y Busnes*

*Y flwyddyn y sefydlwyd y busnes:*

- Ni welwyd unrhyw amrywiadau sylweddol rhwng y flwyddyn y sefydlwyd y busnes a lleoliad y busnes.

*Canran y busnesau teulu:*

- Ni welir unrhyw amrywiadau clir rhwng lleoliad y busnes a chanran yr ymatebwyr a ystyriai bod eu busnes yn fusnes teulu.

*Natur perchnogaeth y busnes:*

- Gwelir rhywfaint o amrywiaeth rhwng lleoliadau o ran cyfran y busnesau y mae naill ai unig fasnachwyr, partneriaethau neu gwmnïau cyfyngedig yn berchen arnynt. Er enghraifft, yn achos Sir Fynwy, mae 64.5% o fusnesau'r ymatebwyr yn eiddo i unigolion ac 16.1%; tra bod yn Sir y Fflint 41.4% yn eiddo i gwmnïau cyfyngedig a 37.9% i bartneriaethau.

*Perchnogaeth safle'r busnes:*

- Ac eithrio Sir Fynwy, sy'n dangos cyfran arbennig o uchel o safleoedd busnes wedi'u rhentu (53.1%) yn erbyn y rhai mewn perchnogaeth (46.7%) (o gymharu â chyfanred o 32.3% wedi'u rhentu yn erbyn 67.3% sydd mewn perchnogaeth), ychydig o amrywio a geir rhwng lleoliad a pherchnogaeth safle busnes.

### *5.3.2 Adran 2 – Proffil y Perchennog*

*Oed y perchennog:*

- Yr unig Awdurdod Unedol sydd â pherchnogion busnes dan 18 oed, yw Sir Fynwy (3.0%). Yn achos perchnogion busnes rhwng 18 a 39 oed, mae Awdurdod Unedol Sir Ddinbych yn amlwg iawn (24.3% o gymharu â chyfanred o 11.8%). Yr Awdurdodau Unedol â'r nifer lleiaf o berchnogion busnes rhwng 40 a 64 oed yw Sir Ddinbych (63.5%) a Sir Fynwy (66.7%) (o gymharu â chyfanred o 79.3%). Tra bod gan Sir Fynwy'r gyfran uchaf o berchnogion busnes sy'n 65 oed neu'n hyn (18.2%), mae'r grwp hwn yn cyfrif am 2.9% yn unig o'r perchnogion busnes ym Mro Morgannwg.

*Llwybr y perchennog presennol i'r busnes:*

- Gwelwyd ystod gymharol fawr ledled y gwahanol leoliadau yng nghanran yr ymatebwyr 'ddechreuodd' eu busnesau presennol (er enghraifft, 46.3% yng Ngwynedd o gymharu â 75.5% yn Wrecsam). Yn yr un modd, yn achos y perchnogion a nododd eu bod wedi 'prynu' eu busnesau fel busnes mewn bod, roedd hyn yn cyfrif am 12.2% yn unig yn Wrecsam, ond 38.1% yng Nghonwy.

*Y flwyddyn y daeth y perchennog yn rhan o'r busnes:*

- Er na cheir llawer o amrywio yn gyffredinol rhwng canlyniadau'r cyfanred a chanlyniadau'r Awdurdodau Unedol unigol ar gyfer amser sefydlu'r busnes, ceir ambell eithriad nodedig. Yn achos Ynys Môn, sefydlwyd 32.1% o fusnesau cyn 1980, tra ar gyfer ymatebwyr o Fro Morgannwg, mae'r un peth yn wir am 9.4% yn unig (yn erbyn cyfanred o 21.1%). Yn achos canran y busnesau a sefydlwyd yn ystod 1990 a 1999, mae hyn yn berthnasol i 7.8% o ymatebwyr Ceredigion, ac eto i 39.3% o ymatebwyr Sir y Fflint (yn erbyn cyfanred o 32.7%).

*Yr oriau y mae'r perchennog yn eu gweithio bob dydd:*

- Yn achos busnesau sy'n gweithio 8 awr y dydd neu lai, mae mwyafrif y lleoliadau yn dangos ffigurau sy'n agos i'r cyfanred (34.4%). Mae Ynys Môn, fodd bynnag, yn eithriad, gyda 49.2% o berchnogion busnesau yn gweithio 8 awr y dydd neu lai. Yn achos y perchnogion busnes hynny sy'n gweithio rhwng 9 a 14 awr y dydd, roedd dros 50% o berchnogion ym mhob lleoliad yn gweithio'r oriau hyn, ac eithrio Conwy (46.7%). Yr Awdurdod Unedol â'r nifer fwyaf o berchnogion yn gweithio 15 awr y dydd neu fwy yw Gwynedd (12.7%, o gymharu â chyfanred o 6.7%).

*Cymwysterau academaidd y perchennog:*

- Yn gyffredinol, ymddengys nad yw'r lleoliad yn ffactor sydd â chydberthynas gref â chymwysterau academaidd y perchennog, ar wahân i ddau eithriad. Yn Ynys Môn, mae gan yr Awdurdod Unedol hwn y gyfran uchaf o berchnogion busnes sy'n ymateb sydd â chymhwyster ôl-radd/ CGC lefel 5 (14.3%, o gymharu â chyfanred o 9.2%) a'r canran isaf o berchnogion â 'dim' cymwysterau academaidd (10.7%, o gymharu â chyfanred o 20.7%). Ar y pegwn arall, nid oes gan yr un o'r perchnogion busnes a ymatebodd yn Sir Fynwy gymhwyster ôl-radd/ CGC lefel 5, ac mae yn Sir Fynwy'r canran uchaf o berchnogion â 'dim' cymwysterau (33.3%).

*Y perchennog yn byw yn y Gymru wledig:*

- Ac eithrio Sir y Fflint (86.2%) a Wrecsam (87.8%), roedd dros 90% o'r perchnogion busnes a ymatebodd yn byw yn y Gymru wledig.

*Y cyfnod o amser y mae'r perchnogion wedi byw yn y Gymru wledig:*

- Ymddengys nad yw lleoliad y busnes yn ffactor perthnasol o ran y cyfnod o amser y mae'r perchnogion wedi bod yn byw yn y Gymru wledig.

*Natur y ffaith bod y perchennog yn byw yn y Gymru wledig:*

- Ceir rhywfaint o amrywiaeth rhwng cyd-destun y lleoliad a natur y ffaith bod y perchennog yn byw yn y Gymru wledig. Er enghraifft, yn achos 'ganwyd yng Nghymru', tra bod hyn yn cyfrif am 34.5% yn unig o'r ymatebwyr o Sir y Fflint, mae'n cyfrif am 61.4% o Sir Gaerfyrddin. Yn gyfochrog â hyn, tra bod 19.5% yn unig o ymatebwyr o Gonwy wedi byw yng Nghymru 'erioed' (o gymharu â 41.4% o'r ymatebwyr o Sir y Fflint), roedd 26.5% o'r ymatebwyr ym Mro Morgannwg wedi 'symud i Gymru o rywle arall', yn erbyn 48.7% o Gonwy.

*Noddi gweithgareddau, clybiau, timau a digwyddiadau lleol:*

- Ymddengys nad yw lleoliad y busnes yn ffactor perthnasol o ran noddi gweithgareddau, clybiau, timau a digwyddiadau lleol.

### *5.3.3 Adran 3 – Lleoliad y Busnes*

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i leoli'r busnes yn y Gymru wledig:*

- Ymddengys nad yw ffactor y lleoliad yn chwarae rôl fawr o ran canfyddiadau'r ymatebwyr o 'gost y safle' ac 'ansawdd yr amgylchedd' fel dylanwadau pwysig/ pwysig iawn ar y penderfyniad i leoli eu busnes yn y Gymru wledig. Ymddengys bod amrywiadau yn bodoli yn ôl y lleoliad, fodd bynnag, o ran 'byw yno'n barod' (er enghraifft, a ystyrir yn bwysig/ bwysig iawn gan 66.7% o'r ymatebwyr yn Sir y Fflint, o gymharu â 97.0% o ymatebwyr o Sir Fynwy) ac agosrwydd i ddefnyddwyr/ marchnad ( a ystyrir yn bwysig/ bwysig iawn , er enghraifft, gan 69.8% o ymatebwyr o Wrecsam, o gymharu â 90.5% o ymatebwyr o Sir y Fflint).

*Adleoli'r busnes y tu allan i'r Gymru wledig:*

- Ac eithrio Wrecsam (22.9%, yn erbyn cyfanred o 12.1%), ymddengys nad yw lleoliad mewn Awdurdod Unedol yn ffactor arwyddocaol o ran canran yr ymatebwyr a ystyriodd erioed adleoli eu busnes y tu allan i Gymru.

*Mynediad/agosrwydd at fusnes:*

- Gellir gweld rhywfaint o amrywio rhwng argraff yr ymatebwyr o fynediad/ agosrwydd at weithlu medrus/ cymwys a lleoliad y busnes. Er enghraifft, tra bod 40.0% o ymatebwyr o Sir Ddinbych yn ystyried bod hyn yn dda/ dda iawn, mae'r un peth yn wir am 19.6% yn unig o'r ymatebwyr o Gonwy. Yn yr un modd, yr ystadegau anarferol o ran mynediad/ agosrwydd i gwsmeriaid yw Sir Fynwy a Bro Morgannwg (y mae gan y ddau ohonynt 81.8% o ymatebwyr sy'n credu bod hyn yn dda/ dda iawn, yn erbyn cyfanred o 68.2%).
- Yn achos mynediad/ agosrwydd at gyflenwyr, mae canran yr ymatebwyr sy'n credu bod hyn yn dda/ dda iawn yn amrywio o 34.8% yn achos Gwynedd i 52.4% yng Nghonwy.
- Dim ond ychydig o amrywio a geir rhwng lleoliadau'r Awdurdodau Unedol o ran mynediad/ agosrwydd at gystadleuwyr (er enghraifft, o'r man isaf o 22.2% yn Sir y Fflint, i fan uchaf o 37.3% ar gyfer ymatebwyr ym Mhowys). Ceir mwy o amrywio, fodd bynnag, o ran mynediad/ agosrwydd at ddiwydiannau gwasanaeth busnes (a ystyrir yn dda/ dda iawn gan 30.9% o'r ymatebwyr yn

Ynys Môn, ond 64.0% o'r ymatebwyr o Sir y Fflint) a/ neu sefydliadau ymchwil (a ystyrir yn dda/ dda iawn gan 19.5% o'r ymatebwyr o Ynys Môn, ond 52.0% o Sir y Fflint).

### *5.3.4 Adran 4 – Strategaeth Fusnes*

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i ddechrau/ meddiannu'r busnes:*

- Mewn nifer o achosion, ymddengys nad yw lleoliad Awdurdod Unedol yn effeithio ar ganfyddiadau'r ymatebwr o ffactorau dylanwadol. Mae hyn yn wir, er enghraifft, ar gyfer 'darparu prif ffynhonnell incwm', 'cymryd yr her o redeg busnes', 'cael mwy o amser hamdden' a 'rhyddid i ddefnyddio dulliau traddodiadol' - y mae ymatebion yn ôl Awdurdod Unedol ar gyfer pob un ohonynt yn cydymffurfio'n agos â'r cyfanred. Ceir hefyd achosion, fodd bynnag, lle gellir gweld nifer o ystadegau anarferol yn y canfyddiadau o'r hyn a ystyriwyd yn ffactor 'pwysig/ pwysig iawn'. Er enghraifft, yn achos 'sefydlu ffynhonnell incwm ychwanegol neu fach', tra bod y mwyafrif yn cydymffurfio â'r cyfanred (31.6%) mae nifer amlwg llai o ymatebwyr yng Nghonwy (22.5%) a mwy o Sir y Fflint (45.5%) sy'n ystyried bod hwn yn ffactor pwysig/ pwysig iawn.
- Ceir amrywio eang yng nghanfyddiadau'r ymatebwyr o 'fanteisio ar gyfle yn y farchnad' (er enghraifft, 51.6% o ymatebwyr yn Sir Ddinbych, o gymharu â 78.7% o ymatebwyr yn Wrecsam) a 'datblygu diddordeb personol' (er enghraifft, 66.7% o ymatebwyr yn Sir Ddinbych, o gymharu â 93.5% o ymatebwyr yn Sir Fynwy) fel ffactorau pwysig/ pwysig iawn. Ceir ystod fwy cyson, fodd bynnag, yn achos 'dianc rhag diweithdra' - o ganran uchel o 43.8% yn Wrecsam, yn ystyried bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn, i nifer fach o 24.5% o ymatebwyr Powys. Yn yr un modd, yn achos 'cael swydd a fydd yn cydweddu â chyfrifoldebau domestig', ystyrir bod hyn yn bwysig gan y mwyafrif yn Sir y Fflint (56.0%), o gymharu â lleiafrif yn Sir Benfro (41.7%).
- Ystyrir y mater o 'gynnal busnes y teulu' yn bwysig/ bwysig iawn gan nifer gymharol uchel o ymatebwyr yn Wrecsam (31.3%) a Sir Benfro (38.0%) (o gymharu â llai na 30% o ymatebwyr yn yr holl Awdurdodau Unedol eraill). Mae hyn hefyd yn wir am 'fanteisio ar hyfforddiant/ sgiliau' gydag Awdurdodau Unedol Wrecsam (52.1%) a Bro Morgannwg (54.8%) yn unig yn cynnwys mwy na 50% o ymatebwyr sy'n teimlo bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn (yn erbyn cyfanred o 39.1%). Ar y llaw arall, o ran 'gallu gwneud y gwaith hwn tra'n byw mewn lleoliad gwledig' roedd Awdurdod Unedol Sir y Fflint yn sylwedol yn is na'r cyfartaledd gydag 8.3% yn unig yn ystyried bod hyn yn bwysig/ bwysig iawn (o gymharu â chyfanred o 37.6%), tra bod 83.4% arall o'r Awdurdod Unedol hwn yn ystyried nad yw'n ffactor perthnasol.

*Rhagfynegiadau ar gyfer maint y busnes dros y 5 mlynedd nesaf:*

- Gwelir ychydig iawn o amrywiaeth yn y rhagfynegiadau ar gyfer newid ym 'maint y safle' neu 'ystod y cynnyrch' yn ôl Awdurdod Unedol yr ymatebwr. Ac eithrio Ynys Môn, dyma yw'r achos hefyd ar gyfer rhagfynegiadau am 'nifer y cyflogeion'. Yn achos Ynys Môn, gwelir nifer sylweddol is na'r canran cyfranedol o'r ymatebwyr yn rhagfynegi cynnydd yn nifer y cyflogeion (28.8% o gymharu â chyfanred o 41.3%), tra bod canran sylweddol uwch na'r

canran cyfanredol yn disgwyl na fydd unrhyw newid (71.2% o gymharu â chyfanred o 52.5%). Ceir tystiolaeth o ychydig o ystadegau anarferol amlwg yn y categorïau eraill sy'n ymwneud â thwf y busnes. Er enghraifft, o ran rhagfynegiadau ar gyfer trosiant blynyddol, gwelir dau begwn yn achos Sir Fynwy (56.3%) a Sir y Fflint (82.8%) (o gymharu â chyfanred o 68.7%). O ran y ffactor 'elw blynyddol', mae Sir y Fflint yn ystadegyn anarferol, lle mae 79.3% yn rhagweld cynnydd, o gymharu â chyfanred o 63.9%. Yn achos cynnydd ym 'maint y farchnad', ac eithrio Ynys Môn (32.1%) a Sir Fynwy (34.4%), cefnogir y canfyddiad hwn gan fwy na 40% o ymatebwyr yn yr holl Awdurdodau Unedol.

*Dymunoldeb twf y busnes:*

- Ac eithrio Ynys Môn, o ran y tair elfen, (lle'r ymddengys nad yw twf y busnes yn gymaint o gymhelliant), gwelir nad yw safle'r Awdurdod Unedol yn chwarae rôl wrth newid barn yr ymatebwyr am dwf y busnes fel rhywbeth nad oes ganddynt 'yn bendant ddim' ddiddordeb ynddo (cyfanred o 26.% (o gymharu â 39.7% ar gyfer Ynys Môn)), y byddent 'yn bendant yn dymuno' (cyfanred o 70.2% (o gymharu â 57.4% ar gyfer Ynys Môn)), neu y byddent 'yn ei ystyried' (cyfanred o 62.2% (o gymharu â 53.4% ar gyfer Ynys Môn)).

*Y ffactorau y nodwyd eu bod yn cyfyngu ar y busnes:*

- Ac eithrio Bro Morgannwg (27.3%), nodir 'dim digon o arian / parodrwydd i fenthyg' ym mhob achos fel ffactor sy'n cyfyngu gan fwy na thraean yr ymatebwyr. Yn yr un modd, ac eithrio Sir Fynwy (25.0%) a Cheredigion (26.3%), mae dros draean yr ymatebwyr yn yr holl Awdurdodau Unedol wedi cytuno bod 'diffyg gweithlu ar gael/ addas' yn cyfyngu ar y busnes.
- Yn achos 'problemau hygyrchedd gyda chyflenwyr/ defnyddwyr', ac eithrio'r ddau begwn yn Sir Y Fflint (lle nad yw 95.8% o ymatebwyr yn ystyried hwn yn ffactor sy'n cyfyngu) ac ym Mhowys (lle mai dim ond 63.6% o ymatebwyr sydd, nad ydynt yn gweld hwn fel ffactor sy'n cyfyngu ), mae'r ymatebwyr o'r holl Awdurdodau Unedol gwahanol yn cydymffurfio'n agos â'r cyfanred o 76.2% ar gyfer ystyried nad yw'n gyfyngiad.
- Yr unig eithriad eithafol o'r cyfanred yn achos ystyried 'materion yn ymwneud â dull o fyw' yn gyfyngiad, yw Sir Fynwy (gyda 53.8% yn ystyried hyn yn gyfyngiad, o gymharu â chyfanred o 31.4%).
- Yn achos ystyried 'cyfyngiadau cynllunio/ maint y safle' yn gyfyngiad, gwelir dau begwn eithaf – sef Sir y Fflint (21.7%) a Phowys (51.5%) (gyda'r gweddill yn cydymffurfio'n agos â'r cyfanred o 42.3%). Sir y Fflint hefyd yw'r unig begwn sylweddol (56.0% o gymharu â chyfanred o 38.1%) yn achos cyfyngiadau rheoleiddio/ cofrestru ar gyfer TAW.

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad cyffredinol y Busnes:*

- Ac eithrio Wrecsam (71.4%), roedd dros 80% o'r ymatebwyr ym mhob Awdurdod Unedol yn ystyried bod 'lleoliad wedi bod yn ffactor pwysig/ pwysig iawn wrth ddylanwadu ar berfformiad cyffredinol eu busnes. Mae'r Awdurdod Unedol hwn hefyd yn eithriad wrth ystyried 'gallu technegol' yn bwysig/ bwysig iawn (62.5% o gymharu â chyfanred o 45.3%) a 'chysylltiad cymdeithasol â ffrindiau, teulu a/ neu gysylltiadau busnes' (52.1% o gymharu â chyfanred o 64.9%).

- Ac eithrio Bro Morgannwg (72.7%), yn yr holl Awdurdodau Unedol, nododd dros dri chwarter yr ymatebwyr bod 'sgiliau/ gwybodaeth y rheolwyr a'r gweithlu' yn bwysig/ bwysig iawn wrth ddylanwadu ar berfformiad cyffredinol y busnes.
- O ran 'mynediad at wybodaeth' fel ffactor dylanwadol pwysig/ pwysig iawn, Sir y Fflint (lle y mae 89.3% o'r ymatebwyr yn ystyried bod hyn yn wir) yw'r unig ystadegyn anarferol sylweddol yn wyneb y cyfanred o 74.3%.

*Cydweithredu Busnes:*

- Er y gwelir rhywfaint o amrywio ymysg yr ymatebwyr hynny sy'n cydweithio â busnesau lleol eraill yn rheolaidd (er enghraifft, 49.1% yn Ynys Môn o gymharu â 25.0% yn Sir Fynwy), ymddengys nad yw safle'r Awdurdod Unedol yn ddylanwadol iawn. Fodd bynnag, tra bod Ynys Môn yn cynnwys y nifer uchaf o ymatebwyr sy'n cydweithio'n rheolaidd, yn yr un modd, mae'n cyfrif am y canran lleiaf (20.8% yn erbyn cyfanred o 38.1%) sy'n cytuno â'r datganiad 'ni cheir cydweithio byth â busnesau lleol eraill'.
- O ran 'pryderon ynghylch cystadleuedd' yn atal y cydweithio, ymddengys mai'r unig ystadegyn anarferol gwirioneddol (24.8%) yw Wrecsam (37.0%). Un ystadegyn anarferol arall yn unig y gellir ei weld yn achos ymatebwyr 'nad ydynt yn credu y bydd eu busnes yn elwa o gydweithio â busnesau lleol eraill'. Yr ystadegyn hwn yw Sir Ddinbych (sydd â'r canran lleiaf o ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad hwn - 24.7% (yn erbyn cyfanred o 32.9%), a'r canran uchaf sy'n anghytuno - 63.0% (yn erbyn cyfanred o 53.2%)).
- Ymddengys nad yw lleoliad Awdurdod Unedol yr ymatebwyr yn dylanwadu ar yr ymateb i'r datganiad bod 'diffyg diddordeb gan fusnesau lleol eraill' na bod 'ymatebwyr wedi canfod bod diffyg strwythurau/systemau priodol i hwyluso cydweithredu â busnesau lleol eraill'.

*Ansawdd y cyngor/ cymorth busnes:*

- Yr unig eithriad i'r cyfanred ar gyfer canfyddiadau ymatebwyr o wahanol ffynonellau cymorth busnes, yw Sir Fynwy. Ym mhob achos, mae'r Awdurdod Unedol hwn yn dangos canran o ymatebwyr sy'n drawiadol uwch na'r cyfartaledd nad ydynt 'erioed' wedi defnyddio'r ffynonellau sydd ar gael (nid yw 64.6% erioed wedi defnyddio'r gefnogaeth a gynigir gan gyrff cyhoeddus cenedlaethol (yn erbyn cyfanred o 40.6%); nid yw 51.6% erioed wedi defnyddio'r cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol (yn erbyn cyfanred o 27.4%); nid yw 64.5% erioed wedi defnyddio cefnogaeth a gynigir gan asiantaethau menter (yn erbyn cyfanred o 44.7%); nid yw 71.0% erioed wedi defnyddio'r gefnogaeth a gynigir gan undebau/ siambrau masnach (yn erbyn cyfanred o 53.4%); ac yn olaf, nid yw 54.8% erioed wedi defnyddio'r cymorth a gynigir gan sefydliadau masnach (yn erbyn cyfanred o 40.3%).

*Y ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y busnes:*

- Ymddengys nad yw lleoliad yr Awdurdod Unedol yn chwarae rôl amlwg wrth ddylanwadu ar ganfyddiadau ymatebwyr am y pwys mawr a roddir ar ymddiriedaeth, dibynadwyedd, gofal cwsmeriaid, boddhad â'r cynnyrch ac enw da, o ran llwyddiant y busnes.

*Ailfuddsoddi'r trosiant blynyddol:*

- Gydag ychydig iawn o amrywio yn cael ei weld, ymddengys nad yw lleoliad yr Awdurdod Unedol yn effeithio ar y trosiant a gaiff ei wario ar ymchwil a datblygu a/ neu offer newydd yn ystod 2003. Gellir gweld bod amrywio rhwng yr eithafion, fodd bynnag, o ran y trosiant blynyddol a gaiff ei wario at TGCh (er enghraifft, nid oedd 40.6% o'r ymatebwyr o Fro Morgannwg wedi gwario 'unrhyw arian' ar TGCh yn ystod 2003, o gymharu â 61.6% o ymatebwyr o Sir Ddinbych). Mae'r un peth yn wir am y trosiant blynyddol a gaiff ei wario ar 'recriwtio cyflogeion' (nid oedd gan 38.9% ym Mhowys unrhyw wariant, o gymharu, er enghraifft â 59.2% yng Ngwynedd), ar 'farchnata/ hysbysebu (nid oedd gan 13.3% ym Mhowys unrhyw wariant, yn erbyn 28.1% yn Ynys Môn) a/ neu 'hyfforddi cyflogeion' (er enghraifft, nododd 31.9% na fu unrhyw wariant yn Wrecsam, o gymharu â 53.2% yng Ngheredigion). Yn olaf, yr unig eithiad gwirioneddol i'r cyfanred o ran yr ymatebwyr hynny a nododd na fu 'unrhyw wariant' ar ddatblygu cynnyrch yn ystod 2003 yw Ynys Môn (67.3% o gymharu â chyfanred o 52.9%).

*Cofrestru ar gyfer TAW:*

- Ac eithrio canran arbennig o uchel o fusnesau yng Ngheredigion yn nodi eu bod wedi eu cofrestru ar gyfer TAW (86.7% o gymharu â chyfanred o 74.5%), ymddengys nad yw sail yr Awdurdodau Unedol yn chware rôl mewn dylanwadu ar yr agwedd hon ar y busnes.

### *5.3.5 Adran 5 – Nodweddion Cwsmeriaid a Chyflenwyr*

*Pellter cyflenwyr o'r safle busnes:*

- Gellir gweld amrywiaeth ar draws Awdurdodau Unedol mewn perthynas â chanran yr ymatebwyr gyda chyflenwyr sydd wedi'u lleoli o fewn 30 cilometr o safle'r busnes (er enghraifft, 42.7% yng Ngheredigion, o gymharu â 64.6% o ymatebwyr yng Nghonwy). Yn achos y ganran gyda chyflenwyr sydd wedi'u lleoli rhwng 30 a 100 cilometr o'r busnes, mae'r Awdurdodau Unedol yn amrywio o 43.4% o ymatebwyr ar Ynys Môn i 66.0% yn Wrecsam. Ceir tebygrwydd agosach i'r cyfanred yn achos y cyflenwyr hynny sydd wedi'u lleoli mwy na 100 cilometr o'r busnes. Yn yr un modd, nid yw'n ymddangos bod lleoliad yr Awdurdod Unedol yn dylanwadu ar ganran yr ymatebwyr gyda chyflenwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU.

*Pellter cwsmeriaid o safle'r busnes:*

- Er bod mwyafrif yr Awdurdodau Unedol yn cyfateb i'r cyfanred ar gyfer canran yr ymatebwyr gyda chwsmeriaid sydd wedi'u lleoli lai na 30 cilometr o safle'r busnes, mae ystadegau anarferol yn parhau i fod yn bresennol (er enghraifft 67.2% yn Sir Gaerfyrddin, yn erbyn 90.2% yng Ngheredigion a 91.2% ym Mro Morgannwg). Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes eithriad o'r cyfanred, yn achos canran yr ymatebwyr gyda chwsmeriaid rhwng 30 a 100 cilometr o'r busnes.
- Gellir dod o hyd i amrywiaeth ar draws yr Awdurdodau Unedol yng nghanran yr ymatebwyr gyda chwsmeriaid sydd dros 100 cilometr o'r busnes (er enghraifft, 30.3% yn Sir Fynwy, o gymharu â 55.0% yng Ngwynedd) a'r sawl, gyda chwsmeriaid wedi'u lleoli y tu allan i'r DU (er enghraifft 11.3% ar Ynys Môn, o gymharu â 28.2% yng Ngwynedd).

*Canran y gwerthiant a grëwyd gan wahanol fathau o gwsmeriaid:*

- Ac eithrio Wrecsam (70.0%), Sir Fynwy (75.7%) a Sir Gaerfyrddin (77.2%), mae dros 80% o ymatebwyr yn yr holl Awdurdodau Unedol wedi dynodi y caiff gwariant ei greu gan gartrefi a chwsmeriaid preifat.
- Ni welir unrhyw amrywiaeth arwyddocaol rhwng ymatebion awdurdodau lleol unigol a'r cyfanred ar gyfer canran y gwerthiant i siopau neu fusnesau mwy o faint (ac eithrio siopau). Er y gellir dod o hyd i rai ystadegau anarferol mewn gwerthiant a grëir gan gyfanwerthwyr/ dosbarthwyr (er enghraifft 17.3% o ymatebwyr yn Sir y Fflint a 18.0% o ymatebwyr yn Wrecsam, ar gyfer mwyafrif yr Awdurdodau Unedol, mae'r ffynhonnell hon ond yn cyfrif am werthiant ar gyfer llai na 10% o ymatebwyr.
- Yn achos gwerthiant a grëwyd gan fusnesau bach (ac eithrio siopau), yr unig eithriad bach yw Sir y Fflint (ar 44.9%, dyma'r unig Awdurdod Unedol gyda dros 40% o ymatebwyr yn creu gwerthiant o'r ffynhonnell hon). Yn olaf, gellir hefyd dod o hyd i amrywiaeth yn achos gwerthiant a grëwyd gan y sector cyhoeddus (er enghraifft, 13.8% o ymatebwyr yn Sir y Fflint o gymharu â 37.7% yn Sir Ddinbych).

*Dulliau cyfathrebu ar gyfer cynnal cysylltiadau gyda chwsmeriaid a chyflenwyr:*

- Gyda rhai mân eithriadau, nid yw'n ymddangos bod gan leoliad yr Awdurdod Unedol, yn gyffredinol, unrhyw gysylltiad â'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer cynnal cysylltiadau gyda chwsmeriaid a chyflenwyr.

*Dulliau a ddefnyddir i farchnata a hysbysebu cynnyrch a/neu recriwtio gweithwyr:*

- Yn achos y dulliau a ddefnyddir i farchnata/ hysbysebu nwyddau, gyda rhai mân eithriadau (er enghraifft, mae 44.0% o ymatebwyr yn Wrecsam yn defnyddio'r rhyngrwyd i hysbysebu nwyddau o gymharu â'r cyfanred o 28.7%), nid yw'n ymddangos bod gan leoliad yr Awdurdod Unedol ddylanwad arwyddocaol ar benderfyniadau busnes.

*Defnyddio'r rhyngrwyd i farchnata nwyddau:*

- Er, ar y cyfan, nad yw canran yr ymatebwyr sy'n defnyddio'r rhyngrwyd i edrych ar nwyddau, eu prynu neu eu harchebu ar-lein yn amrywio yn ôl Awdurdod Unedol, ceir rhai eithriadau nodedig. Yn achos canran y busnesau sy'n defnyddio'r rhyngrwyd er mwyn i gwsmeriaid edrych ar eu cynnyrch ar-lein, mae hyn yn amrywio o 25.0% yn Sir Fynwy, i 51.7% yn Sir y Fflint (yn erbyn cyfanred o 37.4%). Yn achos prynu a/neu archebu nwyddau ar-lein, yr Awdurdod Unedol gyda'r ganran leiaf o fusnesau sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn yn y ddau achos yw Bro Morgannwg (3.0% (yn erbyn cyfanred o 14.7%)) a 9.1% (yn erbyn cyfanred o 21.8%) yn y drefn honno.

*Rhwystrau wrth hyrwyddo neu orfodi arloesedd cynnyrch yn y busnes:*

- Nid yw'n ymddangos bod canran yr ymatebwyr sy'n ystyried argaeledd gwybodaeth dechnolegol/gwybodaeth am y farchnad, cydweithredu â busnesau eraill, a/neu argaeledd cyllid, yn 'amherthnasol' (y canfyddiad sy'n cyfrif am fwyafrif yr ymatebwyr) i arloesedd cynnyrch, yn cael ei dylanwadu gan leoliad yr Awdurdod Unedol. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i eithriadau i'r cyfanred yn yr achosion o 'effaith rheoliadau a safonau' (gyda 28.5% yn unig yn canfod nad yw hyn yn ffactor perthnasol yn Wrecsam, yn erbyn, er

enghraifft, 53.4% yng Ngheredigion), ‘ymatebolrwydd cwsmeriaid’ (gyda 38.5% yn unig yn canfod bod hyn yn ‘amherthnasol’ yn Sir y Fflint, yn erbyn 63.0% yn Sir Fynwy) a ‘gweithlu medrus’ (gyda 37.5% yn unig o ymatebwyr ym Mro Morgannwg yn ystyried nad yw hwn yn ffactor perthnasol, yn erbyn 63.0% o ymatebwyr yn Sir Fynwy).

### *5.3.6 Adran 6 – Nodweddion Gweithwyr*

*Problemau Recriwtio Cyflogeion:*

- Er y gellir tystio i rywfaint o amrywiaeth (er enghraifft, 47.9% o ymatebwyr yn Sir Benfro (yr unig Awdurdod Unedol y mae llai na 50% o ymatebwyr wedi cael problemau), o gymharu â 65.4% o ymatebwyr yn Sir y Fflint), nid yw’n ymddangos bod lleoliad yr Awdurdod Unedol yn gosod dylanwad rhy arwyddocaol ar ganran yr ymatebwyr sy’n cael problemau wrth recriwtio cyflogeion.
- Ac eithrio’r ddau eithaf (48.8% o ymatebwyr yn Sir Ddinbych, o gymharu â 78.6% o ymatebwyr yn Sir Fynwy), nid yw lleoliad yr Awdurdod Unedol yn chwarae rôl gref chwaith wrth ddylanwadu ar ganran y busnesau hynny sy’n cael problemau recriwtio oherwydd diffyg ymgeiswyr.
- Dau ystadegyn anarferol amlwg mewn perthynas ag ‘ymgeiswyr y mae ganddynt ddiffyg hyfforddiant academaidd/proffesiynol priodol’ yw Ynys Môn (63.0%) a Sir Fynwy (28.6%) (o gymharu â chyfanred o 47.7%). Yn achos busnesau sy’n cael problemau yn sgil bod gan ymgeiswyr ‘ddiffyg y profiad gwaith priodol’, yr eithaf mwyaf arwyddocaol yw Ynys Môn (88.9% o gymharu â chyfanred o 65.7%)
- Gellir tystio i ystod eang o brofiadau o ran busnesau’n cael problemau yn sgil ymgeiswyr y mae ganddynt ddiffyg sgiliau priodol mewn siarad/ ysgrifennu Saesneg (3.1% yng Ngheredigion, o gymharu â 29.4% yn Sir y Fflint) a/neu siarad/ ysgrifennu Cymraeg (a nodwyd yn broblem gan 0% o ymatebwyr yn Sir Fynwy, Powys, Bro Morgannwg a Wrecsam; ond gan 18.5% o ymatebwyr yn Ynys Môn a 23.6% o ymatebwyr yn Sir Gaerfyrddin). Ceir hefyd rai eithafion mewn perthynas ag ymatebwyr yn cael problemau yn sgil ymgeiswyr yn methu gyrru/ dibynnu ar gludiant cyhoeddus (er enghraifft 7.1% yn Sir Fynwy, o gymharu â 58.8% yn Sir y Fflint a chyfanred o 31.5%).

*O ble y caiff cyflogeion eu recriwtio:*

- Nid yw’n ymddangos bod gan leoliad Awdurdod Unedol unrhyw ddylanwad ar batrymau recriwtio lleoliadol busnesau mewn perthynas â’r sawl sy’n cael eu recriwtio o Gymru wledig a/neu rannau eraill o Gymru. Yn achos cyflogeion sy’n cael eu recriwtio o’r tu allan i Gymru, ac eithrio Sir y Fflint (13.8%) a Wrecsam (30.0%), mae’r holl Awdurdodau Unedol yn dangos llai na 10% o ymatebwyr sy’n recriwtio o’r pellter hwn. Yn yr un modd, mae’n ymddangos nad oes gan leoliad Awdurdod Unedol unrhyw ddylanwad ar ganran y busnesau sy’n recriwtio o’r tu allan i’r DU.

*Pellter cyflogeion o’r safle:*

- Ac eithrio Ceredigion (9.8%, yn erbyn cyfanred o 20.5%), nid yw’n ymddangos bod lleoliad Awdurdod Unedol yn cael unrhyw ddylanwad ar ganran y busnesau sydd â chyflogeion yn byw ar y safle. Nid yw’r lleoliad

ychwaith yn effeithio ar ganran y busnesau gyda chyflogeion sy'n byw bellter o lai na 5 cilometr o'r safle. Fodd bynnag, mae'r busnesau y mae ganddynt gyflogeion sy'n byw 'mwy na 5 cilometr, ond llai na 10 cilometr' i ffwrdd o'r safle, yn amrywio o 24.3% ym Mhowys, i 56.0% yn Wrecsam (yn erbyn cyfanred o 35.8%). Yn yr un modd, mae'r ystod ar gyfer y busnesau hynny y mae ganddynt gyflogeion yn byw 'mwy na 10 cilometr i ffwrdd, ond llai nag 20 cilometr i ffwrdd', yn ymestyn o 12.1% yn Sir Fynwy i 41.4% yn Sir y Fflint. Yn olaf, mae'r ystod ar gyfer busnesau gyda chyflogeion sy'n byw 'mwy na 20 cilometr i ffwrdd', yn ymestyn o 8.6% yng Ngheredigion, i 31.0% yn Sir y Fflint.

*Rhwystrau i hyfforddi cyflogeion:*

- Er bod mwyafrif y busnesau'n cydymffurfio â'r cyfanred (31.9%) pan mae'n dod i 'gost' yn cael ei chanfod fel rhwystr i hyfforddi cyflogeion, dau ystadegyn anarferol pwysig yw Ceredigion (18.3%) a Wrecsam (50.0%).
- Yn achos y sawl sy'n canfod 'amser annigonol/ amser a gollwyd yn ystod hyfforddiant' yn rhwystr, mae canran y busnesau'n amrywio o 23.5% ar gyfer ymatebwyr Bro Morgannwg, i 49.4% ar gyfer ymatebwyr o Sir Ddinbych.
- Ni welwyd unrhyw amrywiaeth arwyddocaol rhwng ymatebwyr Awdurdodau Unedol mewn perthynas â 'darpariaeth hyfforddiant anaddas'. Yn achos 'darpariaeth hyfforddiant anhygyrch', ac eithrio Sir Fynwy (0.0%) a Sir y Fflint (3.4%) caiff y ffactor hwn ei ganfod fel rhwystr gan rhwng 10% a 20% o'r holl ymatebwyr – ni waeth beth yw'r lleoliad. Yn yr un modd, dim ond dau Awdurdod Unedol (Sir Fynwy (3.0%) a Chonwy (8.8%)) sydd â llai na 10% o ymatebwyr (o gymharu â chyfanred o 17.8%) sy'n ystyried 'diffyg penodoldeb yn y cyrsiau hyfforddiant a gynigir' yn rhwystr wrth hyfforddi cyflogeion.

## ADRAN 6 - TRAFODAETH

Mae Adran 6 yn trafod mewn mwy o fanylder dadansoddol, ganfyddiadau'r arolwg busnes. Caiff y penderfyniad hwn ei strwythuro o amgylch nifer o themâu allweddol, y cafodd pob un ohonynt eu tynnu o'r adrannau dadansoddi disgrifiadol blaenorol (gweler Adrannau 4 a 5). Felly, caiff dadl fwy integredig a holistaidd ei hwyluso o'r canfyddiadau amlwg sy'n ymddangos o'r arolwg. Caiff pwyntiau casgliadol, yn ogystal â llwybrau ar gyfer ymchwil i'r dyfodol, eu cyrraedd yn Adran 7. Yn benodol, gwneir cyfeiriad yn y cam hwn at safle economi cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru wledig, yn ogystal â rôl y wladwriaeth sy'n gyson ddatblygu.

### 6.1 Tystiolaeth o wreiddio a rhwydweithiau anffurfiol

Dwy thema gysylltiedig sy'n cael eu hamlygu'n gryf o'r ymatebion i'r arolwg yw 'gwreiddio' gwledig a rhwydweithiau anffurfiol. I lawer o ymatebwyr - er bod hyn ar adegau yn dibynnu ar faint a math y busnes - mae rhinweddau cael lleoliad yng nghefn gwlad Cymru wedi'u cysylltu'n agos ag ymddiriedaeth, rhyngweithio wyneb yn wyneb a'r ymrwymiadau o ran ffordd o fyw sy'n gysylltiedig â byw yng nghefn gwlad Cymru. Caiff y casgliadau hyn eu cefnogi gan nifer o wahanol ddangosyddion. Yn gyntaf, er enghraifft, er bod 96% o berchnogion yn byw yng nghefn gwlad Cymru, mae 88.7% o ymatebwyr wedi byw yno am 10 mlynedd neu fwy. O ran amgyffrediad perchnogaeth ar fusnes, er mai 15% o berchnogion yn unig a gymerodd eu busnes drosodd gan aelod arall o'u teulu, mae 79.4% yn ei ystyried yn fusnes teuluol o hyd (ond yn achos busnesau iechyd a harddwch, er enghraifft, mae'r ffigur hwn yn gostwng i 58.0%). O ystyried y ffaith bod gan gyfanred o 41.5% o ymatebwyr 76 a 100% o'u cwsmeriaid wedi'u lleoli lai na 30 km o adeiladau'r busnes a bod rhwng 76 a 100% o gyflenwyr 20.8% o'r ymatebwyr tua'r un pellter, mae'r rhwymau cymdeithasol hyn yn debygol o weithio'n dda.

Gellir gweld tystiolaeth o ddylanwad ffactorau fel materion yn ymwneud â theulu, ffrindiau a ffordd o fyw mewn nifer o agweddau eraill ar reoli busnes. Yr hyn sy'n werth sylwi arno yma fodd bynnag yw dylanwad maint busnes. Er enghraifft, gyda'i gilydd, mae 64.9% o ymatebwyr yn ystyried cyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu a/neu gymdeithion busnes naill ai yn bwysig neu'n bwysig iawn i berfformiad busnes yn gyffredinol. Fodd bynnag, perthynas groes yn ei hanfod sy'n bodoli rhwng maint busnes ac ystyrir 'cyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu a/neu gymdeithion busnes' yn ddylanwad pwysig/pwysig iawn (er enghraifft, mae 69.1% o ymatebwyr maint busnes 1-4 yn ystyried hyn yn bwysig/yn bwysig iawn mewn cyferbyniad â 50.0% o ymatebwyr busnesau 50-99 a 44.4% o ymatebwyr busnesau o 100+). Gwelir tueddiadau tebyg hefyd gyda'r defnydd o 'glywed rhywbeth ar lafar'. Mae cyfanred o 74.4% o ymatebwyr yn defnyddio'r hyn y maent yn ei glywed ar lafar/teulu a ffrindiau i farchnata/hysbysebu nwyddau, ac mae 54.8% arall o fusnesau yn defnyddio ymweliadau personol i greu/cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid. Gyda gair llafar/teulu a ffrindiau hefyd yn cael ei restru yn fwyaf rheolaidd (40.6%) fel dull a ddefnyddir ar gyfer recriwtio cyflogeion, mae perthnasedd gwreiddio cymdeithasol yn y strategaeth fusnes yn dod yn amlwg. Fodd bynnag, mae perthynas sydd yn ei hanfod yn negyddol, er enghraifft, o ystyried maint busnes (mae 73.1% o fusnesau maint 1-4 yn defnyddio gair llafar/teulu a ffrindiau i farchnata/hysbysebu nwyddau o'i gymharu â 50.0% o fusnesau maint 100+). Mae'n amlwg, felly, fod yn rhaid ystyried

dangosyddion o wreiddio o hyd mewn perthynas â ffactorau sy'n ymwneud â maint busnes.

Serch hynny, o ddefnyddio dwy enghraifft arall, mae hi'n dal yn bosibl dangos canologrwydd amlwg gwreiddio cymdeithasol i bob busnes yng nghefn gwlad Cymru. Yn gyntaf, dylid cydnabod gwreiddio yn ffactor arwyddocaol hefyd wrth benderfynu canfyddiadau ynghylch a 'ddylai' lleoliad busnes ymatebwr fod yng nghefn gwlad Cymru. Mae 15.7% o ymatebwyr (o gyfanswm o 87.9%) wedi nodi nad ydynt erioed wedi ystyried adleoli eu busnes y tu allan i gefn gwlad Cymru oherwydd materion yn ymwneud â ffordd o fyw, ymrwymiadau teuluol a/neu deimladau o wreiddio. Yn ail, gan ystyried manteision penodol lleoliad yng nghefn gwlad Cymru, er i 20.5% o ymatebwyr roi atebion yn ymwneud ag 'ansawdd bywyd'/ 'ansawdd yr amgylchedd' fel mantais benodol, mae 16.5% arall wedi rhestru manteision sy'n ymwneud â bod eu busnes wedi'i wreiddio'n lleol.

### 6.2 Potensial ar gyfer twf/ busnesau ffordd o fyw

Ymddengys bod y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg o'r arolwg yn awgrymu bod twf busnes yn rhywbeth sy'n digwydd a/ neu'n rhywbeth y mae mwyafrif y busnesau yng nghefn gwlad Cymru yn anelu ato. Ond mae'n werth cydnabod, mewn perthynas â maint/neu fath o fusnes, yr ymddengys hefyd fod yna duedd i rai busnesau gael eu rheoli lawn cymaint gan awydd am dwf economaidd, â chan faterion sy'n ymwneud â dewis ffordd o fyw.

Er enghraifft, mae 70.2% o ymatebwyr cyfanred yn cytuno â'r datganiad y 'byddent yn sicr yn hoffi' i'w busnes dyfu (gyda 62.6% arall o ymatebwyr yn dweud 'y byddent yn ystyried' ehangu eu busnes). Hefyd, mae mwyafrif yr ymatebwyr cyfanred yn rhagweld cynnydd mewn trosiant blynyddol (68.7%) ac elw blynyddol (63.9%) yn ystod y 5 mlynedd nesaf (gyda 48% arall yn rhagweld cynnydd ym maint y farchnad). Fodd bynnag, wrth ystyried y ffactorau hynny a oedd yn cael eu rhestru gan amlaf fel pwysig/ pwysig iawn wrth ddylanwadu ar y penderfyniad gwreiddiol i leoli'r busnes yng nghefn gwlad Cymru, i rai ymatebwyr, daw nifer o ddangosyddion ysgafnach yn amlwg. Yr hyn sy'n cael eu crybwyll fwyaf rheolaidd gan y cyfanred, yw materion yn ymwneud â dewis ffordd o fyw/ymrwymiadau teuluol (87.8%), ansawdd yr amgylchedd (84.8%) a/ neu mae ymatebwr yn byw yno eisoes (81.3%). Pan gaiff y gyfres o ddata ei dadansoddi yn ôl math a/neu faint, fodd bynnag, mae patrymau sydd ychydig yn wahanol yn dechrau ymddangos. Er enghraifft, o ran maint busnes, mae'r ffactor 'galluogi'r math hwn o waith tra'n byw yng nghefn gwlad', yn esbonio 41.9% o fusnesau maint 1-4 (fel pwysig/ pwysig iawn), ond 11.1% yn unig o ymatebwyr maint 100+. Yn yr un modd, gwelir amrywiadau hefyd wrth ystyried rhagfynegiadau ar gyfer twf busnes.

Yn achos math o fusnes, er enghraifft, y rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd ym maint marchnad y busnes yw'r uchaf ymhlith gweithgynhyrchwyr (66.7%) (o'i gymharu â chyfanred o 48.6%). Disgwylir i hyn fod yn wir, fodd bynnag, am 21.4% o ymatebwyr y sector gwasanaeth yn unig. Yn yr un modd, er bod 26.5% o ymatebwyr ar gyfanred yn cytuno â'r datganiad eu bod 'yn sicr nad oes ganddynt ddiddordeb' mewn ehangu'r busnes, mae hyn yn wir am 11.0% o weithgynhyrchwyr yn unig. Mewn cyferbyniad, mae 42.9% o fusnesau cludo, 40.7% o ymatebwyr sector gwasanaeth a 40.6% o fusnesau elusennol/gwaith cymdeithasol (er enghraifft) yn cytuno â'r datganiad hwn. Mae 81.4% o ymatebwyr gweithgynhyrchu hefyd wedi

nodi y 'byddent yn ystyried' ehangu eu busnes (o'i gymharu â chyfanred o 62.6%); mae hyn yn wir, fodd bynnag, ar gyfer 40.0% o ymatebwyr y sector gwasanaeth yn unig.

Gan fynd yn ôl i sôn am faint busnes, dangosir perthynas gadarnhaol yn ei hanfod rhwng maint busnes a'r ymatebwyr hynny sy'n rhagweld cynnydd yn 'nifer y cyflogeion', 'trosiant blynyddol', 'maint y farchnad' a maint adeiladau (er enghraifft). Yn yr un modd, dangosir perthynas negyddol yn ei hanfod rhwng maint busnes a'r ymatebwyr busnes hynny sy'n 'sicr nad oes ganddynt ddiddordeb' mewn ehangu'r busnes (er enghraifft, 32.1% o fusnesau maint 1-4, o'i gymharu â 5.0% yn unig o fusnesau maint 50-99 a 0.0% o fusnesau maint 100+). Mae'n amlwg felly, wrth benderfynu'r potensial ar gyfer twf ymhlith busnesau yng nghefn gwlad Cymru, bod angen cyfeirio'n rheolaidd at ffactorau maint a math o fusnes.

### 6.3 Cryfderau cefn gwlad Cymru fel lleoliad busnes

Un dangosydd defnyddiol wrth fyfyrio ynghylch cryfder canfyddedig cefn gwlad Cymru fel lleoliad busnes posibl yw canran yr ymatebwyr sydd erioed wedi ystyried adleoli yn rhywle arall. Mae'n werth nodi ar hyn o bryd bod y syniad o adleoli busnes y tu allan i gefn gwlad Cymru yn cael ei ddylanwadu gan y math o fusnes (sydd â'r sgôr uchaf, er enghraifft, ymhlith gweithgynhyrchwyr (22.7%) a chyfanwerthwyr (21.5%) a'r isaf ymhlith y diwydiannau gwasanaeth (3.4%). Fodd bynnag, mae'r union ffaith fod cyfanred o 87.9% o ymatebwyr nad ydynt erioed wedi ystyried adleoli eu busnes y tu allan i gefn gwlad Cymru (gyda 20.8% o ymatebwyr yn nodi'n syml eu bod yn 'hapus' yn eu lleoliad presennol ac 16.3% arall yn dweud nad ydynt wedi ystyried adleoli am fod eu busnes eisoes yn llwyddiannus/wedi'i sefydlu'n dda), yn adlewyrchu'r ffaith bod yna nifer o gryfderau yn gysylltiedig â lleoli busnes yng nghefn gwlad Cymru.

Yn wir, o ystyried manteision penodol lleoliad yng nghefn gwlad Cymru, y ddau gategori o atebion sy'n esbonio bod mwyafrif yr ymarferwyr yn eu cyfanred yw lefelau da o fasnach (cefn gwlad) (40.5% o ymatebwyr) ac 'ansawdd bywyd'/ 'ansawdd yr amgylchedd' (20.5% o ymatebwyr). O ran yr olaf o'r ddau ffactor hwn, mae 84.8% o ymatebwyr hefyd wedi nodi bod ansawdd yr amgylchedd wedi bod yn bwysig/ yn bwysig iawn wrth ddylanwadu ar eu penderfyniad gwreiddiol i leoli eu busnes yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n amlwg fod potensial felly, i fanteisio ymhellach ar y cryfderau sy'n gysylltiedig ag economi amgylcheddol. Ond, efallai mai'r hyn sy'n rhoi'r cysur mwyaf, yw'r ystadegyn fod 87.8% o ymatebwyr yn credu bod eu busnes yn gynaliadwy yn ei ffurf bresennol yn ystod y pum mlynedd nesaf.

### 6.4 Systemau/ polisïau cefnogi busnes

Er bod rhai amrywiadau i'w gweld yn dibynnu ar faint, math a/ neu leoliad busnes, ar lefel gyfanred ni ellir cyrraedd casgliadau cadarnhaol naill ai ar ansawdd na'r nifer sy'n derbyn cefnogaeth fusnes yng nghefn gwlad Cymru. Yn wir, waeth beth fo ffynhonnell y ddarpariaeth, nifer fach iawn sy'n derbyn cefnogaeth fusnes (nid yw 40.6% o ymatebwyr erioed wedi defnyddio cefnogaeth a gynigir gan gyrff cyhoeddus cenedlaethol, nid yw 44.7% erioed wedi defnyddio cefnogaeth a gynigir gan asiantaethau menter, nid yw 53.4% erioed wedi defnyddio cefnogaeth a gynigir gan undebau/ siambrau masnach, ac nid yw 40.4% erioed wedi defnyddio cefnogaeth gan undebau llafur). Yr unig eithriad yma yw nifer y rhai sy'n derbyn y gefnogaeth a

gynigir gan awdurdodau lleol – mae 72.7% o ymatebwyr yn cydnabod defnyddio'r ffynhonnell hon o gefnogaeth – fodd bynnag, mae safle hyn yn wael iawn (fel gyda'r ffynonellau eraill) o ran nifer yr ymatebwyr sy'n ei ystyried naill ai'n dda neu'n dda iawn (dim ond 14.4%). Caiff effaith y canfyddiad hwn, fel cyfyngiad posibl ar berfformiad busnes, ei adlewyrchu yn y ffaith fod 7.7% o ymatebwyr wedi nodi bod y broblem o reoleiddio a/ neu ddiffyg cefnogaeth fusnes wedi achosi iddynt ystyried adleoli eu busnes y tu allan i gefn gwlad Cymru.

### 6.5 Cysondeb sail y cyflogai

O ran sail y cyflogai, ymddengys fod canlyniadau'r arolwg yn dangos rhywfaint o gam gydweddu rhwng argaeledd a/neu addasrwydd y cyflogeion sy'n gweithio yng nghefn gwlad, o'i gymharu â'r swyddi sydd ar gael mewn busnesau yng nghefn gwlad. Mae rhwystrau ffisegol sy'n gysylltiedig â gweithio yng nghefn gwlad Cymru, yn ogystal â phroblemau o natur llai difrifol, fel methiannau yn y fframwaith cefnogi busnes, yn ychwanegu at y gwendid hwn ymhellach. Er enghraifft, er bod mwy na phum gwaith gymaint o gyflogeion (61.8%) yn cael eu recriwtio o 'gefn gwlad Cymru' ag o ardaloedd eraill; mae mynediad/ agosrwydd at weithlu cymwys/ medrus wedi'u rhestru yn dda/ dda iawn yn unig gan gyfanred o 30.4% o ymatebwyr – gyda 23.7% arall yn ystyried hyn yn wael/ wael iawn. Yn yr un modd, mae 56.4% wedi cael problemau yn recriwtio cyflogeion. I fwyafrif yr ymatebwyr hyn, gall hyn fod yn gysylltiedig â diffyg ymgeiswyr (62.3%) ac ymgeiswyr sydd heb gael y profiad gwaith priodol (65.7%). Mae lleiafrifoedd sylweddol, fodd bynnag, hefyd wedi cael problemau gydag 'ymgeiswyr nad oes ganddynt yr hyfforddiant academaidd/ proffesiynol priodol' a/ neu ymgeiswyr nad ydynt yn gyrru/ sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus' (47.7% a 31.5% yn y drefn honno). Roedd y materion 'eraill' y nodwyd eu bod yn broblem gyda recriwtio cyflogeion yn cynnwys diffyg ymgeiswyr addas, diffyg tai addas/fforddiadwy gerllaw, ac ymgeiswyr ddim yn hoffi'r oriau/ cyflogau a gynigid. Ond, mae'n werth nodi bod yr union ffigurau ar gyfer boddhad gyda chyflogeion/ recriwtio cyflogeion yn cael eu dylanwadu gan faterion sy'n ymwneud â math, maint a lleoliad.

O ran diwydiant/ math o sector, mae gan fynediad/ agosrwydd y busnes at weithlu cymwys/ medrus sgôr sy'n uwch na'r cyfanred (30.4%) am fod yn dda iawn/ yn dda gyda'r diwydiant adeiladu (43.9%). Mewn cyferbyniad, yn achos problemau recriwtio sy'n gysylltiedig â 'diffyg ymgeiswyr', mae hyn yn fater i 37.5% yn unig o fusnesau sector gwasanaeth, ond i 81.0% o fusnesau 'llety, bwyd a diod'. Gwelir amrywiadau tebyg ar draws y math o fusnes mewn problemau a geir yn sgil 'ymgeiswyr nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant academaidd/ proffesiynol priodol.'

Yn achos maint busnes, dangosir perthynas wrthdro amlwg rhwng maint busnes a rhestru mynediad/ agosrwydd i weithlu cymwys/ medrus yn wael/ yn wael iawn (er enghraifft 17.5% o berchnogion busnes maint 1-4 o'i gymharu â 55.5% o berchnogion busnes maint 100+). Yn yr un modd, gwelir perthynas gadarnhaol yn ei hanfod rhwng maint busnes a chanran yr ymatebwyr sydd wedi cael problemau yn recriwtio cyflogeion.

Yn olaf, gwelir rhywfaint o amrywiad rhwng argraffiadau ymatebwr o fynediad/ agosrwydd at weithlu cymwys/ medrus a lleoliad busnes. Er enghraifft, er bod 40.0% o ymatebwyr o Sir Ddinbych yn ystyried bod hyn yn dda/ yn dda iawn, gellir dweud yr un fath am 19.6% yn unig o ymatebwyr o Gonwy. Yn yr un modd, dau ystadegyn

anarferol amlwg o ran 'ymgeiswyr nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant academaidd/ proffesiynol priodol' yw Ynys Môn (63.0%) a Sir Fynwy (28.6%) (o'i gymharu â chyfanred o 47.7%). Yn achos busnesau'n cael problemau oherwydd nad yw ymgeiswyr 'wedi cael y profiad gwaith priodol', yr achos eithafol mwyaf arwyddocaol yw Ynys Môn (88.9% o'i gymharu â chyfanred o 65.7%). Nid yw'r problemau'n gorffen, fodd bynnag, gyda recriwtio cyflogeion.

Er bod cyfanred o 81.4% o berchnogion busnes yn ystyried lefel sgiliau/ gwybodaeth y rheolwyr a'r gweithlu yn bwysig/ yn bwysig iawn wrth ddylanwadu ar berfformiad y busnes yn gyffredinol (ac yn fwy na 90% o bob ymatebwr o fusnesau sydd â mwy na phedwar cyflogai), mae mwy na thraean o fusnesau (37.9%) wedi cael problemau yn hyfforddi cyflogeion oherwydd 'amser annigonol/ colli amser yn ystod hyfforddiant'. Mae cyfran debyg (31.9%) yn canfod bod 'cost' yn rhwystr rhag hyfforddi cyflogeion. Hefyd, er bod cyfanred o lai na phumed rhan yr ymatebwyr wedi cael problemau oherwydd naill ai 'diffyg penodoldeb' mewn cyrsiau hyfforddiant a gynigir (17.8%), 'darpariaeth hyfforddiant anhygyrch' (15.4%) neu 'ddarpariaeth hyfforddiant anaddas' (14.3%), gellir gweld amrywiadau yn y categorïau hyn unwaith eto trwy fath o fusnes a'i leoliad. Er enghraifft, yn achos 'diffyg penodoldeb mewn cyrsiau hyfforddiant a gynigir', mae hyn wedi bod yn broblem i 6.7% yn unig o fusnesau cludo, o'i gymharu â 33.3% o weithgynhyrchwyr. O ystyried lleoliad busnes, gellir amlygu ystod eang o gyfrannau o ran busnesau yn cael problemau am nad oes gan ymgeiswyr y sgiliau priodol wrth siarad/ ysgrifennu Saesneg' (3.1% yng Ngheredigion, o'i gymharu â 29.4% yn Sir y Fflint) a/ neu siarad/ ysgrifennu Cymraeg (nodwyd bod hyn yn broblem gan 0% o ymatebwyr yn Sir Fynwy, Powys, Bro Morgannwg a Wrecsam; ond eto gan 18.5% o ymatebwyr yn Ynys Môn a 23.6% o ymatebwyr yn Sir Gaerfyrddin). Mae yna rai achosion eithafol hefyd o ran ymatebwyr yn cael problemau am nad yw ymgeiswyr yn gyrru/ am eu bod yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus (er enghraifft, 7.1% yn Sir Fynwy, o'i gymharu â 58.8% yn Sir y Fflint). Ond o ganlyniad, o ran rhestru unrhyw anfanteision sy'n dod law yn llaw â gweithio yng nghefn gwlad Cymru, cymhellwyd 12.4% o berchnogion busnes i ymateb trwy nodi bod diffyg staff (addas) yn cael ei ystyried yn broblem benodol.

Er bod 74.7% o berchnogion busnes yn nodi eu bod yn cyflogi llai na 10 o gyflogeion trwy eu busnes, o ystyried y ffaith fod cyfanred o 41.5% o berchnogion busnes wedi rhagweld cynnydd yn nifer eu cyflogeion yn ystod y 5 mlynedd nesaf (ac yn achos mathau penodol fel cynhyrchu, mae'r rhagfynegiad hwn yn cyfrif am 63.5% o weithgynhyrchwyr), nid yw materion sy'n ymwneud â gwendidau o ran cyflogeion yn debygol o wneud dim ond dod yn fwy arwyddocaol yn y dyfodol agos.

### 6.6 Defnyddio Technoleg

Mae'r canlyniadau o'r arolwg yn tueddu i awgrymu bod 'technoleg' yn rhan o strategaeth fusnes y mae mwyafrif y perchnogion busnes eto i fanteision'n llawn arni. Er enghraifft, 48.7% yn unig o ymatebwyr sy'n ystyried gallu technolegol yn ddylanwad pwysig/ pwysig iawn i berfformiad busnes (o'i gymharu, er enghraifft, â 64.9% yn ystyried cyswllt cymdeithasol â ffrindiau, teulu a chymdeithion busnes yn bwysig/ yn bwysig iawn), gyda 20.6% arall yn dadlau nad yw'r ffactor hwn hyd yn oed yn berthnasol i'w busnes. Yn dilyn hyn, 7.6% yn unig o fusnesau sy'n priodoli 'gwariant mawr' o'u trosiant blynyddol i TGCh.

Un o ganlyniadau'r dangosyddion hyn o fuddsoddiad cyfyngedig mewn TGCh, yw nifer isel y perchnogion sy'n defnyddio technoleg i gynyddu trosiant eu busnes. Er bod 54.8% o fusnesau yn defnyddio ymweliadau personol i greu/ cynnal cysylltiadau â chwsmeriaid, nid yw'r mwyafrif (53.2%) erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer hyn, gyda chyfran debyg (50.8%) yn cyfaddef nad ydynt erioed wedi defnyddio e-bost. Hefyd, 37.4% yn unig o ymatebwyr sy'n dangos cynhyrchion (nwyddau neu wasanaethau) eu busnes ar-lein, a 14.7% yn unig sydd wedi'i sefydlu fel y gellir prynu eu cynhyrchion (nwyddau neu wasanaethau) ar-lein.

Er nad yw hyn yn wir o angenrheidrwydd gyda lleoliad busnes, mae'n werth nodi bod gan faterion sy'n ymwneud â maint a math busnes rôl wrth ddefnyddio technoleg. O ran y math o fusnes, er enghraifft, 29.6% yn unig o ymatebwyr sector gwasanaeth, er enghraifft, sy'n ystyried 'gallu technolegol' yn ffactor pwysig/ pwysig iawn mewn perfformiad busnes. Mewn cyferbyniad, ystyrir bod hyn yn wir o ran 71.9% o ymatebwyr adeiladu. Yn yr un modd, mae defnydd rheolaidd o'r rhyngrwyd ar gyfer creu/ cynnal cysylltiadau yn ddull a ddefnyddir gan 68.4% o ymatebwyr eiddo tiriog (gyda'r math hwn o ymatebwyr busnes hefyd ar y blaen o ran defnyddio'r e-bost yn rheolaidd (73.7% o'i gymharu â chyfanred o 22.7%)). O ran defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer marchnata/ hysbysebu nwyddau, er enghraifft, er bod 78.3% o ymatebwyr eiddo tiriog yn defnyddio'r dull hwn, 10% yn unig o ymatebwyr cludiant sy'n ei ddefnyddio. Gwelir amrywiad eang hefyd o ran y gallu i edrych ar, archebu neu brynu cynhyrchion ar-lein. O ran edrych ar gynhyrchion, er enghraifft, mae hyn yn amrywio o 16.7% ar gyfer ymatebwyr cludiant i 73.9% ar gyfer ymatebwyr eiddo tiriog.

O ran maint busnes a phwysigrwydd gallu technolegol, ymddengys fod yna berthynas gadarnhaol yn ei hanfod yn bodoli (ystyrir, er enghraifft, yn bwysig/ yn bwysig iawn gan 35.6% yn unig o ymatebwyr busnes maint 1-4, ond 60.0% o ymatebwyr busnes maint 50-99 ac 88.9% o ymatebwyr busnes maint 100+). Gellir dweud yr un fath hefyd am ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r e-bost wrth gynnal cysylltiadau â chwsmeriaid a chyflenwyr, a/ neu farchnata cynhyrchion. Mae'n amlwg, felly, o ystyried goruchafiaeth 'busnesau llai' yng nghefn gwlad Cymru, bod yna le o hyd am dwf sylweddol wrth ddefnyddio technoleg cyn y gellir ei ystyried yn nodwedd hynod gadarnhaol o strategaeth fusnes yng nghefn gwlad.

### 6.7 Arloesedd/ entrepreneuriaeth ymhlith perchnogion busnes yng nghefn gwlad

Er bod canlyniadau'r arolwg yn tueddu i awgrymu bod gan y mwyafrif o berchnogion busnes sgiliau mewn arloesedd/ entrepreneuriaeth, mae anghysondebau penodol yn amlwg o hyd wrth i fusnesau ddefnyddio'r priodoleddau hyn bob dydd. Hefyd, ymddengys fod ffactorau yn ymwneud â maint a math o fusnes yn dylanwadu ar arwyddion o arloesedd/ entrepreneuriaeth.

O ran y cyfanred, yr hyn sy'n baradocsaidd ddigon, er bod 74.3% o ymatebwyr yn nodi bod gwybodaeth yn ddylanwad pwysig/ pwysig iawn ar berfformiad busnes, 5% yn unig o ymatebwyr sy'n dyrannu 'gwariant sylweddol' o'u trosiant blynyddol i ymchwil a datblygu. Yn yr un modd, nifer fach o ymatebwyr yn unig (24.7%) sy'n ystyried bod argaeledd gwybodaeth dechnolegol/ gwybodaeth am y farchnad yn berthnasol i hyrwyddo/ cyfyngu arloesedd cynnyrch. Pan ofynnwyd am y gweithgaredd mwyaf arloesol yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, nododd 5.6% yn unig o ymatebwyr nad ymgymerwyd â'r un gweithgaredd arloesol.

Fodd bynnag, pan ddaeth yn amser categoreiddio'r gwahanol fathau o weithgareddau arloesol yr ymgymerwyd â hwy, gwelwyd amrywiad eang yn sicr yng nghanfyddiadau ymatebwr unigol i'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn weithgaredd arloesol yn eu hachos penodol hwy. Serch hynny, i'r mwyafrif, gellid categoreiddio'r 'gweithgaredd mwyaf arloesol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf' yn bedair thema o hyd: cynyddu ystod/ ansawdd y cynhyrchion (28.8%), creu gwefan/ marchnata ar y rhyngrwyd a/neu fwy o ddefnydd o gyfrifiaduron yn y gweithle (19.9%), buddsoddi yn y busnes/ adeiladau busnes (16.4%), ymchwil a datblygu/ defnyddio offer newydd (9.4%).

Yn achos y math o fusnes, un amrywiad amlwg yw ail-fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu (Y a D). Er enghraifft, mae hyn yn cyfrif am 'ddim gwariant' mewn 29.3% o achosion ar gyfer y sector gweithgynhyrchu, ond 68.0% ar gyfer busnesau adwerthu. O ran maint busnes, dangosir perthynas groes rhwng maint y busnes a chanran y busnesau sy'n dyrannu 'dim gwariant' i ymchwil a datblygu, TGCh, offer newydd, recriwtio cyflogeion, hyfforddi cyflogeion a/ neu ddatblygu cynnyrch. Yn yr un modd, yn achosion 'argaeledd gwybodaeth dechnolegol/ gwybodaeth am y farchnad' a/ neu 'weithlu medrus', gwelir perthynas gadarnhaol rhwng maint busnes a chanran yr ymatebwyr sy'n ystyried bod y ffactorau hyn yn hyrwyddo arloesedd cynnyrch. Hefyd, dangosir perthynas negyddol rhwng maint y busnes a chanran yr ymatebwyr nad ydynt yn ystyried bod y ffactorau hyn yn berthnasol i arloesedd cynnyrch. Fel yn achos defnyddio technoleg felly, mae'n hanfodol fod unrhyw gefnogaeth fusnes yn y dyfodol i ddatblygu sgiliau mewn arferion entrepreneuraidd/ arloesol, yn cael ei theilwra i ddarparu ar gyfer amrywiadau o ran math a maint y busnes.

### 6.8 Rhwystrau a chyfyngiadau busnes sylweddol

Fel a amlygwyd o'r uchod, mae yna nifer o fanteision a chryfderau yn gysylltiedig â bod yn berchen ar fusnes a rhedeg busnes yng nghefn gwlad Cymru. Ond yn gyfochrog â hyn, mae yna hefyd ystod eang o rwystrau a chyfyngiadau y mae angen eu cydnabod. Fel arall, yn yr achosion hynny lle na all perchnogion busnesau unigol drechu bygythiadau posibl o'r fath, mae yna berygl y bydd hyn yn arwain at fethiannau sylweddol yn eu strategaeth fusnes gyfatebol.

Mae'r cyfyngiadau posibl a nodwyd gan berchnogion y busnesau eu hunain yn cynnwys y canfyddiad nad oes gan 20.7% o'r perchnogion unrhyw gymwysterau academaidd yn y byd. Ond yr hyn sydd hefyd yn berthnasol yma yw'r ffaith fod amrywiad sylweddol i'w weld yn lefelau'r cymwysterau sydd gan berchnogion o fusnesau sy'n wahanol o ran math, maint a lleoliad. Er enghraifft, mae gan nifer fawr o berchnogion busnes maint 50-99 a 100+ (23.5% a 28.6% yn y drefn honno, o'i gymharu â chyfanred o 9.2%) gymwysterau ôl-radd/ lefel 5 CGC. Yn yr un modd, mae perchnogion busnesau maint 100+ hefyd yn goruchafu o ran cymwysterau Gradd/ lefel 4 CGC (57.1% yn erbyn cyfanswm poblogaeth arolwg o 21.1%), ac nid oes gan yr un ohonynt gymwysterau sy'n is na 'Safon Uwch/ lefel 3 CGC'. Yna, yn achos lleoliad busnes, Ynys Môn (er enghraifft) sydd â'r gyfran uchaf o berchnogion busnes sy'n ateb, sydd â chymwysterau ôl-radd/ CGC lefel 5 (14.3%, o'i gymharu â 9.2% o gyfanswm poblogaeth yr arolwg) a'r ganran isaf o berchnogion nad oes ganddynt 'unrhyw' gymwysterau academaidd (10.7%, o'i gymharu â 20.7% o gyfanswm y boblogaeth).

Er nad yw'r amrywiad ymhlith perchnogion busnes mewn lefelau o gymhwyster academaidd o angenrheidrwydd yn fai ynddo'i hun, mae cwestiynau'n dod i'r amlwg pan gaiff ei gysylltu â'r lefelau isel iawn o ran nifer y busnesau sy'n derbyn/ sy'n fodlon â'r ffynonellau amrywiol o gefnogaeth fusnes a gynigir yng nghefn gwlad Cymru. Gallai'r problemau a drafodwyd eisoes ynghylch gwendidau yn sail y cyflogeion ychwanegu at hyn hefyd.

Y tu allan i'r problemau sy'n gysylltiedig â'r sail cyflogeion, mae dau fater arall sy'n cyfrif am fwyafrif gwendidau busnes yw'r problemau hygyrchedd gyda chwsmeriaid a chyflenwyr/ cysylltiadau cludiant gwael (mae 36.1% o ymatebwyr yn ystyried hyn yn anfantais o ran bod yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru) a sail cwsmeriaid annigonol/ anaddas (mae 35.6% o ymatebwyr yn ystyried hyn yn anfantais o ran gweithio yng nghefn gwlad Cymru). Yr hyn sy'n hynod berthnasol yma yw'r ffaith fod cyfran sy'n amlwg yn uwch o berchnogion busnes o fusnesau mwy wedi ystyried adleoli na pherchnogion busnes o gwmnïau llai ( er enghraifft, 10.2% o berchnogion busnes maint 1-4, yn erbyn 31.3% o berchnogion busnes maint 25-49). Felly, er bod y ffaith bod 87.8% o ymatebwyr yn credu bod eu busnesau yn gynaliadwy yn amlwg yn argoeli'n dda ar gyfer economi cefn gwlad Cymru, nid yw hyn yn ddigon ynddo'i hun i atal yr angen i adolygu'r sefyllfa ymhlith perchnogion busnes unigol yn barhaol.

## ADRAN 7 – CASGLIADAU A LLWYBRAU AR GYFER DADANSODDI PELLACH

Er mai cam cyntaf y dadansoddiad o'r gyfres o ddata yn gyfan yw, mae natur helaeth yr arolwg busnes yn golygu y gellir cydnabod nifer o ganfyddiadau amlwg o hyd yn y cyfnod hwn. Yn benodol;

- Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos, uwchlaw popeth, arwahanrwydd busnesau yng nghefn gwlad Cymru
- Mae agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol datblygiad economaidd a busnes yn arwyddocaol iawn ac yn rhyngberthyn yn agos o ran strategaeth fusnes
- Mae yna gam-gydweddu sylweddol o ran isadeiledd, cefnogaeth a'r farchnad lafur y mae angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau cynaliadwyedd twf busnes yng nghefn gwlad Cymru
- O ystyried y potensial twf optimistaidd a chyffredinol a ddangoswyd ymhlith yr ymatebwyr busnes, mae'n hanfodol fod unrhyw gyfyngiadau o ran defnydd o fanteision technoleg, hyfforddiant a datblygu cynnyrch, yn cael eu goresgyn mewn modd cydlynus.

Er mwyn cadarnhau cadernid y canfyddiadau uchod ymhellach, mae'n bwysig datblygu'r ymchwil hwn nawr i ail lefel dadansoddi. Yn ei hanfod, set o ddata unigryw yw sy'n darparu gwaelodlin gadarn ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i gyflwr yr economi yng nghefn gwlad Cymru. Er mwyn hwyluso rhaglenni ymchwil pellach, felly, mae angen dychwelyd at y gyfres o ddata. Yn gyntaf, bydd hyn yn galluogi archwilio'n fanylach y themâu allweddol sy'n ymddangos yng nghyd-destun busnesau yng nghefn gwlad Cymru, ac yn ail, trwy fabwysiadu ymagwedd fwy allblyg, gall asesu yn ei dro gael ei wneud o natur y rhwystrau a'r cyfyngiadau y mae busnesau yn eu hwynebu yng nghefn gwlad Cymru - o'u cymharu â'r busnesau hynny sydd â chyd-destun DU, Ewropeaidd, neu hyd yn oed, fyd-eang.